# CANLLAW I'R POLISI

# GORFODI AC ERLYN

COPI HEB GYFYNGU


Copyright © Environment Agency

# HYSBYSIAD CYFREITHIOL

## Cyffredinol

1. Bydd yr holl hawliau eiddo deallusol yn yr wybodaeth a roddir i chi (yr Wybodaeth) yn dal yn eiddo'r Asiantaeth.

2. Ni fydd dim byd yn yr hysbysiad hwn yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar eich hawliau statudol nac unrhyw hawliau eraill sydd gennych i gael mynediad at yr Wybodaeth.

3. Ni pharatowyd yr Wybodaeth er mwyn cwrdd â'ch gofynion unigol na gofynion unigol unrhyw un arall ac felly eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr Wybodaeth yn cwrdd â'ch anghenion.

4. Ni all yr Asiantaeth sicrhau y bydd yr Wybodaeth yn ei meddiant yn fanwl gywir, yn gyflawn, yn ddiweddar nac yn ddilys bob amser ond bydd yr Asiantaeth yn defnyddio gofal rhesymol i sicrhau y rhoddir i chi gopi cywir o'r Wybodaeth sydd yn ei meddiant. Nid yw'r Asiantaeth yn rhoi gwarantiad bod y copi o'r Wybodaeth a roddir ganddi yn gywir. Nid yw hyn yn cyfyngu ar eich hawliau statudol.

5. Mae unrhyw dâl y gallech ei dalu i ni yn adlewyrchu cost resymol rhoi'r Wybodaeth i chi yn unig.

6. Os ydych wedi gofyn i ni roi'r Wybodaeth mewn fformat electronig, ni allwn warantu bod y cyfrwng yn rhydd o unrhyw ddiffygion a dylech gymryd y rhagofalon priodol rhag firysau.

## Defnyddio Gwybodaeth yr Asiantaeth

7. DEFNYDD BUSNES MEWNOL NEU DDEFNYDD PERSONOL. Cewch ddefnyddio'r Wybodaeth at eich defnydd preifat eich hunan neu o fewn eich busnes heb gyfyngiad.

8. RHOI COPÏAU I ERAILL. Cewch wneud hyn heb gyfyngiad mewn perthynas â'r Wybodaeth a roddir ar yr amod nad ydych yn codi tâl ac y byddwch yn cyflwyno copi o'r hysbysiad hwn gyda'r Wybodaeth. Dylai'r sawl sy'n derbyn yr Wybodaeth hefyd gydymffurfio â'r hysbysiad. Lle bynnag y bo modd a lle bynnag y bo'n briodol dylai unrhyw un a awdurdodir i gopïo'r Wybodaeth gydnabod perchnogaeth yr Asiantaeth wrth wneud hynny. Un ffordd o wneud hynny yw ychwanegu'r geiriau "Hawlfraint Asiantaeth yr Amgylchedd" at yr Wybodaeth neu'r copi.

9. DEFNYDD ARALL. Os dymunwch ddefnyddio'r Wybodaeth mewn unrhyw ffordd arall heblaw fel a nodwyd uchod (gan gynnwys yn arbennig ei defnyddio ar gyfer gwneud elw masnachol, er enghraifft trwy rent, trwydded, gwerthiant neu drwy ddarparu gwasanaethau am gydnabyddiaeth) dylech gysylltu â ni gyda manylion am beth yr ydych yn bwriadu ei wneud, ONI BAI ein bod eisoes wedi eich hysbysu ein

bod wedi cytuno â'ch defnydd arfaethedig NEU eich bod yn fodlon na fyddai defnydd o'r fath yn torri ein hawliau eiddo deallusol.

10. DEFNYDD GAN GYFREITHWYR, SYRFËWYR AYB. Os ydych yn gyfreithiwr, yn syrfëwr siartredig neu yn berson proffesiynol arall y mae gan eich corff proffesiynol drefniant gyda'r Asiantaeth, cewch ddefnyddio'r Wybodaeth yn unol â'r trefniadau hyn ("Trefniadau Cyrff Proffesiynol"). Yn yr achos hwn, bydd paragraffau 1 i 7 uchod a Threfniadau'r Corff Proffesiynol yn gymwys. Bydd Paragraffau 1 i 10 uchod yn gymwys ar gyfer pob defnydd na chynhwysir yn Nhrefniadau Cyrff Proffesiynol.

# CYNNWYS


| PWNC | | | RHIF TUDALEN |
|---|---|---|---|
| **ADRAN 1 - Cyffredinol** | | | 1/1 |
| 1. | Rhagarweiniad | | 1/2 |
| 2. | Gorfodaeth | | 1/2 - 1/4 |
| 3. | Gorfodaeth a’r Cynllun Dosbarthu Digwyddiadau Cyffredin | | 1/4 - 1/7 |
| 4. | Hysbysiad o Weithredu Adferol | | 1/8 |
| 5. | Defnyddio Rhybuddion Statudol | | 1/8 |
| 6. | Hysbysu Hawliau Apelio Statudol | | 1/9 |
| 7. | Peidio â thalu taliadau | | 1/9 |
| 8. | Ymchwiliadau | | 1/9 |
| 9. | Troseddau Lluosog | | 1/9 |
| 10. | Hanes Blaenorol | | 1/10 |
| 11. | Ymosod/Rhwystro/ Bygwth Trais | | 1/10 |
| 12. | Difrod Troseddol | | 1/11 |
| 13. | Canllawiau ar gyfer Swyddogaethau Penodol | | 1/11 |
| **ADRAN 2 - Gwarchod yr Amgylchedd** | | | 2/1 |
| 1. | Pwrpas gorfodaeth | | 2/2 |
| 2. | Pwerau gorfodaeth | | 2/2 - 2/3 |
| 3. | Ffactorau yn ymwneud â gweithredu gorfodaeth | | 2/3 - 2/5 |
| 4. | Gweithredu gorfodaeth - Troseddau Cyffredin | | 2/6 - 2/7 |
| 5. | Gweithredu gorfodaeth - Ansawdd Dŵr | | 2/7- 2/10 |
| 6. | Gweithredu gorfodaeth - Rheoli a Rheoleiddio Gwastraff | | 2/11 - 2/29 |
| 7. | Gweithredu gorfodaeth - Rheoleiddio’r Diwydiannau Prosesu | | 2/30 - 2/31 |
| 8. | Gweithredu gorfodaeth - Sylweddau Ymbelydrol | | 2/32 - 2/34 |
| | Talfyriadau’r Tablau | | 2/35 |
| | Tabl 1 - | Crynodeb o’r Pwerau Gorfodi lle na bu trosedd | 2/36 - 2/38 |
| | Tabl 2 - | Troseddau sy’n gyffredin i’r holl Swyddogaeth Gwarchod yr Amgylchedd | 2/39 - 2/40 |
| | Tabl 3 - | Troseddau Rheoli Llygredd Dŵr | 2/41 - 2/46 |
| | Tabl 4 - | Troseddau Gwastraff | 2/47 - 2/53 |
| | Tabl 5 - | Troseddau Diwydiannau Prosesu | 2/54 - 2/55 |
| | Tabl 6 - | Troseddau Sylweddau Ymbelydrol | 2/56 - 2/57 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ADRAN 3 - Adnoddau Dēr** | | | 3/1 |
| 1. | Pwrpas gorfodaeth | | 3/2 |
| 2. | Pwerau gorfodaeth | | 3/2 - 3/3 |
| 3. | Ffactorau yn ymwneud â gorfodaeth | | 3/3 - 3/5 |
| 4. | Gweithredu Gorfodaeth - Troseddau | | 3/6 - 3/8 |
| 5. | Gweithredu gorfodaeth - Lle na bu trosedd | | 3/8 |
| | Tabl 1 - | Crynodeb o Droseddau Adnoddau D⌊r | 3/9 - 3/10 |
| **ADRAN 4 - Pysgodfeydd** | | | 4/1 |
| 1. | Pwrpas gorfodaeth | | 4/2 |
| 2. | Pwerau gorfodaeth | | 4/2 |
| 3. | Ffactorau yn ymwneud â gorfodaeth | | 4/2 - 4/5 |
| 4. | Gweithredu gorfodaeth - Lle na bu trosedd | | 4/5 |
| 5. | Gweithredu gorfodaeth - Troseddau | | 4/5 - 4/7 |
| 6. | Diarddeliad rhag dal trwydded | | 4/8 |
| | Tabl 1 - | Pysgodfeydd - Pwerau Gorfodaeth lle na bu trosedd | 4/9 |
| | Tabl 1 - | Crynodeb o Droseddau Pysgodfeydd | 4/10 - 4/13 |
| **ADRAN 5 - Amddiffyn rhag Llifogyddd** | | | 5/1 |
| 1. | Pwrpas gorfodaeth | | 5/2 |
| 2. | Pwerau gorfodaeth | | 5/2 |
| 3. | Gorfodaeth a chyrsiau d⌊r cyffredin | | 5/2 - 5/3 |
| 4. | Ffactorau yn ymwneud â gorfodaeth | | 5/3 - 5/5 |
| 5. | Gweithredu gorfodaeth - Lle na bu trosedd | | 5/5 - 5/7 |
| 6. | Gweithredu gorfodaeth - Troseddau | | 5/7 - 5/8 |
| | Tabl 1 - | Amddiffyn rhag Llifogydd - Pwerau Gorfodi Anhroseddol | 5/9 - 5/11 |
| | Tabl 2 - | Crynodeb o droseddau Amddiffyn rhag Llifogydd | 5/12 - 5/13 |
| **ADRAN 6 - Mordwyo** | | | 6/1 |
| 1. | Pwrpas gorfodaeth | | 6/2 |
| 2. | Pwerau gorfodaeth | | 6/2 |
| 3. | Ffactorau yn ymwneud â gorfodaeth | | 6/2 - 6/4 |
| 4. | Gweithredu gorfodaeth - Lle na bu trosedd | | 6/4 - 6/5 |
| 5. | Gweithredu gorfodaeth - Troseddau | | 6/5 - 6/7 |
| 6. | Amrywio, Diwygio, Adolygu a Diddymu Trwydded / Cofrestriad | | 6/7 |
| | Tabl 1 - | Mordwyo - Pwerau Gorfodi lle na bu trosedd | 6/8 - 6/10 |
| | Tabl 2 - | Crynodeb o'r Troseddau Mordwyo | 6/11 - 6/13 |

# ADRAN 1

# CYFFREDINOL

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae Polisi Gorfodaeth ac Erlyniad Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnwys yr egwyddorion y bydd yr Asiantaeth yn seilio ei benderfyniadau ynglŷn â gorfodaeth ac erlyn arnynt. Mae'r canllawiau hyn:

- yn egluro sut y bydd y polisi yn cael ei roi ar waith

- yn ceisio sicrhau agwedd gyson at orfodaeth ar draws holl weithgareddau'r Asiantaeth.

1.2 Mae 'Trwyddedau Amgylcheddol' i bwrpas y canllawiau hyn yn golygu'r holl awdurdodiadau, cofrestriadau, trwyddedau, caniatadau ac ati a orfodir gan yr Asiantaeth gan gynnwys:

- Awdurdodiad o dan Ran I o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990
- Awdurdodiadau o dan Ddeddf Sylweddau Radioactif 1993
- Trwyddedau rheoli gwastraff
- Caniatadau i arllwys dŵr
- Awdurdodiadau ynglŷn â dŵr daear
- Trwyddedau echdynnu/ cronni dŵr
- Caniatadau Ymchwilio i Ddŵr Daear
- Rhybuddion cadwraeth
- Cofrestru cludwyr/brocerwyr gwastraff
- Cofrestru eithriadau i drwyddedau rheoli gwastraff
- Cofrestriadau o dan Ddeddf Sylweddau Radioactif 1993
- Caniatadau Draenio Tir
- Caniatadau a chofrestriadau mordwyo
- Trwyddedau pysgota a chaniatadau pysgodfeydd

1.3 Adolygir y canllawiau hyn yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisi.

## 2. GORFODAETH

### Y pwrpas

2.1 Mae gorfodaeth i bwrpas y canllawiau hyn, yn golygu defnyddio pwerau statudol i:

- sicrhau y cymerir camau ataliol neu gamau adfer i warchod yr amgylchedd

- sicrhau cydymffurfiad â threfn rheoleiddio

- darparu cosb briodol am drosedd

**Y pwerau**

2.2 Mae pwerau gorfodaeth yr Asiantaeth yn helaeth ac yn amrywio o swyddogaeth i swyddogaeth. Yn gyffredinol, mae'r pwerau yn perthyn i ddau gategori bras; rhai ar gyfer atal neu wella difrod i'r amgylchedd; a rhai sy'n darparu ymateb i drosedd. O fewn y categorïau hyn, mae'r pwerau yn cynnwys:

Atal/Gwella

- Rhybuddion Gorfodaeth
- Rhybuddion Gwahardd
- Rhybuddion Gweithfeydd
- Pŵer yr Asiantaeth i wneud gwaith a hawlio tâl yn ôl
- Atal, amrywio neu ddiddymu Trwyddedau Amgylcheddol
- Gwaharddeb

Trosedd

- Erlyniad
- Rhybudd ffurfiol
- Rhybudd

2.3 Mae rhybudd ffurfiol yn golygu bod y sawl sy'n troseddu yn derbyn yn ysgrifenedig eu bod wedi cyflawni trosedd a gall hyn gael ei ddefnyddio dim ond lle gellid erlyn achos. Lle bo rhybudd ffurfiol yn cael ei gynnig ond yn cael ei wrthod, bydd erlyniad fel arfer yn dilyn. Yn y canllawiau hyn, cyfeirir at rybudd fel 'rhybudd ffurfiol' er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng rhybudd a roddir fel cosb droseddol a rhybudd a roddir gan swyddog cyn gofyn cwestiynau ynglŷn â throsedd.

2.4 Gall rhybudd fod yn un o'r canlynol:

- Rhybudd Safle
  rhybudd a roddir 'ar y safle' gan y swyddog ymchwilio ac a gofnodir naill ai ar yr adroddiad archwilio safle neu ar ffurflen arbennig wedi ei dylunio at y pwrpas

- Llythyr Rhybuddio
  rhybudd ysgrifenedig ar ffurf llythyr.

2.5 Mae pwerau eraill sy'n cefnogi rôl gorfodi yr Asiantaeth yn cynnwys pwerau i fynd i mewn i a chwilio tir ac eiddo, i gaffael dogfennau ac erthyglau, i restio rhai yr honnir sydd wedi troseddu (Beilïaid Dŵr yn unig) ac i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth.

**Defnyddio pwerau**

2.6 Lle bo sefyllfa yn codi sydd angen camau gorfodol, rhaid rhoi ystyriaeth i ddefnyddio pwerau ataliol/adfer i atal difrod i'r amgylchedd rhag parhau, i atal difrod yn y dyfodol ac i wneud iawn am y difrod a achoswyd. Os, drwy ymgynghori â'r gwasanaethau cyfreithiol, yr ystyrir bod y pwerau sydd ar gael yn y ddeddfwriaeth yn debyg o fod neu brofi i fod yn aneffeithiol, dylid ystyried gofyn am waharddeb yn arbennig lle ceir effaith Categori 1 neu 2 ar yr amgylchedd (gweler paragraff 3 isod).

2.7 Lle bo trosedd hefyd wedi ei chyflawni, yna yn ychwanegol at unrhyw weithredu ataliol/adfer rhaid cyflwyno un o'r cosbau am drosedd h.y. erlyniad, rhybudd ffurfiol neu rybudd, oni bai y nodir fel arall yn y canllawiau hyn.

**Cais i'r Goron**

2.8 Bydd yr Asiantaeth yn cymhwyso ei phwerau gorfodi at y Goron yn yr un modd ag y gwneir gydag unrhyw gorff neu unigolyn arall. Os cyflawnir trosedd gan y Goron, nid yw erlyniad yn ddewis sydd ar gael oherwydd bod y Goron wedi ei heithrio o achosion troseddol. Ond lle bo'r ddeddfwriaeth yn caniatáu, gall yr Asiantaeth wneud cais i'r Uchel Lys am ddatganiad fod torri unrhyw ddarpariaeth gan y Goron yn anghyfreithlon.

2.9 Bydd ceisiadau am ddatganiadau gan yr Asiantaeth fel arfer yn cael eu gwneud lle bo trosedd wedi ei chyflawni ac y byddai erlyniad yn digwydd pe bai'r troseddwr yn unrhyw berson arall. Bydd yr holl ffactorau perthnasol ynglŷn â gweithredu gorfodaeth yn cael eu cymhwyso at y Goron fel ag y byddent ar gyfer unrhyw berson arall.

## 3. GORFODAETH A'R CYNLLUN DOSBARTHU DIGWYDDIADAU CYFFREDIN

**Y Cynllun Dosbarthu Digwyddiadau Cyffredin (CICS)**

3.1 Mae CDDC yn system genedlaethol ar gyfer:

- cofnodi digwyddiadau
- asesu lefel ymateb
- categoreiddio digwyddiadau

**Diffiniad o Ddigwyddiad**

3.2 Diffinir digwyddiad yn y CDDC fel digwyddiad penodol sy'n dod i sylw'r Asiantaeth, sydd o bryder i'r Asiantaeth, ac a all gael effaith amgylcheddol a/neu weithrediadol. Ceir diffiniad mwy manwl gyda chanllawiau cefnogol yn y CDDC.

**Categoreiddio Effaith**

3.3 Mae CDDC yn darparu system gategoreiddio ar gyfer y digwyddiadau hynny sy'n arwain at effaith amgylcheddol wirioneddol fel y diffinnir yn y CDDC. Cymhwysir meini prawf ar wahân at weithgareddau Gwarchod yr Amgylchedd a Rheoli Dŵr i ddosbarthu digwyddiadau i dri chategori, sef:-

| | |
|---|---|
| **Categori 1** | Effaith mawr |
| **Categori 2** | Effaith sylweddol |
| **Categori 3** | Effaith bach |

Ceir pedwerydd categori i ymdrin â digwyddiadau lle nad oes unrhyw effaith amgylcheddol.

**Perthynas â Gorfodaeth**

3.4 Gall yr angen am weithredu gorfodaeth ddeillio o bedwar math o ddigwyddiad:-

(1) **gweithgaredd heb ei awdurdodi**
e.e. gollwng gwastraff, pysgota heb drwydded, tynnu dŵr heb drwydded.

(2) **torri trwydded amgylcheddol**

(3) **torri rhybudd sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredu neu yn atal gweithredu**

(4) **tor-rheol arall**
e.e. rhwystro swyddog yr Asiantaeth, cyflenwi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.

Gall digwyddiad, fel y diffiniwyd ef yn y CDDC, godi o amgylchiadau sy'n arwain at (1), (2) a (3), ond mae'n annhebyg o godi o (4).

3.5 Er bod y CDDC yn darparu ar gyfer categoreiddio effaith amgylcheddol **wirioneddol,** i bwrpas gorfodi, gellir defnyddio'r un system categoreiddio mewn perthynas â digwyddiadau neu achlysuron eraill sydd ag effaith amgylcheddol **botensial.**


3.6 Lle bo digwyddiad sy'n arwain at yr angen am weithredu gorfodaeth yn dod o fewn diffiniad o ddigwyddiad o dan CDDC, yna defnyddir y system hon i benderfynu ar yr effaith ar yr amgylchedd ac i gyfarwyddo'r ymateb gorfodaeth, e.e. lle bo effaith Categori 1, neu effaith botensial, yna disgwylir y lefel uchaf o ymateb o ran gorfodaeth, gan gynnwys erlyniad os cyflawnwyd trosedd.

3.7 Lle nad yw rhywbeth sy’n digwydd yn perthyn o fewn diffiniad o ddigwyddiad, e.e. torri amodau trwydded, methu â darparu gwybodaeth ac ati, ond bod hyn yn cael effaith wirioneddol neu botensial ar yr amgylchedd, yna gellir defnyddio’r CDDC o hyd i benderfynu ar ddifrifoldeb y digwyddiad a rhoi canllaw i’r ymateb gorfodaeth mwyaf priodol.

3.8 Os nad oes gan ddigwyddiad unrhyw effaith amgylcheddol gwirioneddol neu botensial yn rhinwedd y ffaith bod yr Asiantaeth neu eraill, wedi cymryd camau ataliol, yna dylid categoreiddio’r digwyddiad ar sail yr effaith neu’r effaith botensial y gallai fod wedi ei gael, pe na bai’r camau wedi eu cymryd.

3.9 Yn y sefyllfaoedd hynny lle nad oes gan ddigwyddiad effaith amgylcheddol gwirioneddol neu botensial, e.e. ymosod ar swyddog, torri amod ‘gweinyddol’ trwydded amgylcheddol, yna ni all y CDDC gael ei ddefnyddio a gwelir y camau gweithredu mwyaf priodol yn y canllawiau hyn yn unig.

3.10 Mae’r diagram isod yn dangos y berthynas rhwng Gorfodaeth a’r CDDC:




## 4. HYSBYSIAD O WEITHREDU ADFEROL

4.1 Lle bo angen gweithredu adferol, dylai’r swyddog:

- egluro’n llawn y rhesymau dros fod yn rhaid gweithredu
- trafod beth sydd angen ei wneud
- cadarnhau pryd y dylai’r gweithredu ddechrau a phryd y dylid ei gwblhau

- gwneud yn eglur a yw'n ofynnol i'r gweithredu gydymffurfio â'r ddeddf, gan gynnwys cydymffurfio ag amodau trwydded amgylcheddol, neu a oes angen y gweithredu fel mater o arfer da neu gyfuniad - gan egluro p'run yw p'run
- egluro'r canlyniadau o beidio â gweithredu, gan gynnwys y posibilrwydd o gamau pellach fel gorfodaeth ffurfiol ac, ar gyfer troseddau, erlyniad.

4.2 Darperir esboniad ysgrifenedig fel arfer ar gyfer gweithredu adferol nad yw'n achos brys a darperir hyn bob amser os gofynnir amdano. Bydd hyn fel arfer drwy lythyr neu ffurflen wedi ei dylunio'n arbennig sy'n egluro'n glir:

- pa gamau sy'n angenrheidiol
- pam ei fod yn angenrheidiol
- pryd y mae'n rhaid ei gyflawni gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, dyddiad dechrau a chwblhau
- a yw'r gweithredu yn arfer da a/neu yn ofyniad cyfreithiol
- y canlyniadau o fethu â gweithredu, yn arbennig unrhyw weithredu ffurfiol pellach fel cyhoeddi rhybudd statudol
- nad yw cyflawni hyn yn atal y posibilrwydd o orfodaeth pellach.

4.3 Lle bo angen gweithredu ar frys, darperir esboniad ysgrifenedig o'r rhesymau cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y digwyddiad.

## 5. DEFNYDDIO RHYBUDDION STATUDOL

5.1 Lle bo'r Asiantaeth yn argymell cyhoeddi rhybudd statudol yn gwneud gwaith neu weithredu ataliol neu adferol yn ofynnol, e.e. Rhybudd Gorfodaeth, Rhybudd Gweithfeydd, rhybudd diddymu draenio tir, dylai'r swyddog:

- drafod ac egluro pa ddeddf a dorrwyd
- egluro'r rhesymau am y rhybudd arfaethedig
- egluro beth sy'n rhaid ei wneud i gydymffurfio â'r ddeddf
- trafod beth y dylid ei wneud fel mater o arfer da
- cadarnhau pryd y dylai'r gweithredu ddechrau a chael ei gwblhau
- cynghori pryd y bwriedir cyhoeddi'r rhybudd,

5.2 Dylai trafodaethau gael eu cadarnhau yn ysgrifenedig, os gofynnir am hynny. Fel arall, dylid gwneud nodyn ohonynt ar gyfer cofnodion yr Asiantaeth.

## 6. HYSBYSU HAWLIAU APELIO STATUDOL

6.1 Yn y mwyafrif o gamau gweithredu, cyflwynir yr hawliau apêl statudol ar y rhybudd. Ond pan nad yw'r hawliau wedi eu cyflwyno ar y rhybudd, dylid rhoi esboniad ysgrifenedig o unrhyw hawliau o'r fath pan gymerir y camau gorfodol.

6.2 Dylai esboniad ysgrifenedig:

- egluro'r rhesymau am wneud apêl
- gynnwys y cyfeiriad y dylid anfon yr apêl ato
- nodi'r cyfnod o amser y mae'n rhaid cyflwyno'r apêl o'i fewn
- cadarnhau a yw'r rhybudd a'r camau sy'n ofynnol ganddo wedi ei atal neu heb ei atal tra bo'r apêl yn cael ei benderfynu.

## 7. PEIDIO Â THALU TALIADAU

7.1 Os yw deiliad trwydded yn methu â thalu unrhyw dâl (am drwydded amgylcheddol) y gofynnwyd amdano, gofynnir am dâl yn unol â gweithdrefn sefydledig yr Asiantaeth. Bydd peidio â thalu fel arfer yn arwain at achos sifil i adfer y ddyled. Dylid ymgymryd â'r gosb o atal a/neu ddiddymu'r drwydded, a ddarperir gan Adran 41(6) Deddf yr Amgylchedd 1995 dim ond ar ôl ymgynghori â'r Gwasanaethau Cyfreithiol, pan fo'n rhaid i'r weithdrefn a nodwyd gan SI 1996 Rhif 508 - Rheoliadau Trwyddedau Amgylcheddol 1996 (Atal a Diddymu) gael eu dilyn.

7.2 W Lle bo talu'r tâl cynnal yn cael ei gynnwys fel amod yn y drwydded, yna dylid rhoi ystyriaeth i orfodaeth drwy'r broses droseddol lle bo gweithrediadau i adfer dyled wedi profi'n aneffeithiol.

## 8. YMCHWILIADAU

8.1 Wrth gyflawni ymchwiliadau i droseddau, bydd swyddogion yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, y Ddeddf Gweithrediadau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 a'r Côdau Ymarfer a wnaed o danynt.

## 9. TROSEDDAU LLUOSOG

9.1 Lle bo nifer o droseddau wedi eu cyflawni gan un person, mae'n bosibl na fydd bob amser er lles yr Asiantaeth na'r cyhoedd i erlyn yr holl droseddau.

9.2 Yn yr amgylchiadau hyn, gwneir penderfyniad gan y Cyfreithiwr Rhanbarthol ynglŷn â pha droseddau a fydd yn ffurfio sail i'r achos llys a'r dull yr ymdrinnir â'r troseddau sy'n weddill e.e. eu trin fel rhybudd ffurfiol CIY ('cymerwyd i ystyriaeth').

## 10. HANES BLAENOROL

### Cofnodion

10.1 Cedwir cofnodion o bob rhybudd statudol, rhybuddion, rhybuddion ffurfiol ac erlyniadau.

**Ystyried hanes blaenorol**

10.2 Wrth lunio penderfyniad ynglŷn â'r gweithredu gorfodaeth mwyaf priodol, rhoddir ystyriaeth i'r holl rybuddion blaenorol perthnasol, y rhybuddion ffurfiol, y rhybuddion statudol a'r erlyniadau sydd wedi digwydd o fewn cyfnod o chwe blynedd cyn dyddiad y gweithredu.

10.3 Dylai gweithredu gorfodaeth cyn y cyfnod o chwe blynedd gael ei ystyried dim ond os yw'r ffeithiau yn dangos patrwm o ymddygiad, e.e. gollwng gwastraff yn anghyfreithlon, neu arddangos gwybodaeth am ofynion arbennig e.e. yr angen am drwydded ar gyfer cyflawni'r gweithgaredd arbennig.

10.4 Lle bo'r gweithredwr yn gyfrifol am nifer y safleoedd neu weithrediadau, yna bydd hanes y troseddau blaenorol ar gyfer un safle yn berthnasol i'r broses o lunio penderfyniadau ar gyfer y lleill os yw'r amgylchiadau yn rhai lle dylai'r gweithredwr fod wedi dysgu o gamau gorfodol blaenorol e.e. yr angen am bwndio cyfleusterau storio olew, neu ofyniad i fod â thrwydded ar gyfer gweithgareddau arbennig.

**Cyfeiriad at hanes blaenorol yn y llys**

10.5 Yn dilyn euogfarn, bydd yr erlynydd yn rhoi gwybod i'r llys am yr holl gamau gorfodaeth perthnasol blaenorol eraill.

## 11. YMOSOD/RHWYSTRO/BYGWTH TRAIS

11.1 Gall fod achlysuron lle mae staff gorfodaeth yn cael eu hatal rhag cyflawni eu dyletswyddau neu yn dod ar draws ymddygiad difrï ol, bygythiol neu dreisgar. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, prif bryderon yr Asiantaeth yw diogelwch a lles y staff.

11.2 Lle bo troseddau yn ymwneud â rhwystro neu drais tuag at staff yn cael eu cyflawni, ymdrinnir â hwy yn y dull mwyaf difrifol; ac erlyniad yw'r dull mwyaf priodol o weithredu. Lle bo cyfrifoldeb am ymchwilio ac erlyn yn nwylo'r Heddlu, e.e. am ymosod, niwed corfforol difrifol, yna bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol a/neu staff yr Ardal yn cysylltu â'r Heddlu i sicrhau y cymerir camau priodol.

## 12. DIFROD TROSEDDOL

### Eiddo'r Asiantaeth

12.1 Lle bo difrod troseddol yn cael ei gyflawni yn erbyn eiddo neu offer yr Asiantaeth, ceir cyswllt priodol gyda'r Heddlu.

### Eiddo'r Staff

12.2 Ble cyflawnir difrod troseddol i eiddo staff yr Asiantaeth o ganlyniad i'w dyletswyddau gorfodaeth, yna darperir cefnogaeth i gyflwyno achos troseddol (trwy gyswllt â'r Heddlu) a/neu achos sifil.

## 13. CANLLAWIAU AR GYFER SWYDDOGAETHAU PENODOL

13.1 Oherwydd bod gweithgareddau'r Asiantaeth yn eang ac yn ddarostyngedig i nifer o wahanol fathau o drefn ddeddfwriaethol, rhaid ystyried yr agwedd at orfodaeth mewn perthynas â phob un o swyddogaethau'r Asiantaeth. Darperir canllawiau ar gyfer swyddogaethau penodol felly fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adran 2 | Gwarchod yr Amgylchedd<br>- Rheoli Ansawdd Dŵr<br>- Rheoli Gwastraff<br>- Rheoli Diwydiannau Prosesu<br>- Rheoleiddio Sylweddau Radioactif |
| Adran 3 | Adnoddau Dŵr |
| Adran 4 | Pysgodfeydd |
| Adran 5 | Amddiffyn rhag Llifogydd |
| Adran 6 | Mordwyo |

13.2 Mae pob adran yn cynnwys, lle bo hynny'n briodol, fanylion am y canlynol:

- pwrpas gorfodaeth ar gyfer y swyddogaeth honno
- y pwerau gorfodaeth sydd ar gael
- y ffactorau ar gyfer penderfynu ar gamau gorfodol
- gorfodaeth am beidio â chydymffurfio ble na bu trosedd
- troseddau a'r camau gorfodaeth priodol

# ADRAN 2

# GWARCHOD YR AMGYLCHEDD

## 1. PWRPAS GORFODAETH

1.1 Pwrpas gorfodaeth ar gyfer Gwarchod yr Amgylchedd (GA) yw gwarchod a gwella pob rhan o'r amgylchedd a rhwystro niwed i iechyd dynol, ac yn arbennig trwy rwystro neu leihau'r maint o ddeunyddiau sy'n achosi llygredd a ollyngir i'r awyr, i'r dŵr ac i'r tir.

1.2 Gellir gwneud hyn trwy:

- sicrhau y cydymffurfir â threfn rheoli
- cymryd camau gorfodi cadarn (yn cynnwys erlyniad) yn erbyn troseddau a/neu dorri hawliau
- gofyn am neu ymgymryd ag adfer unrhyw ddifrod a sicrhau adenilliad o unrhyw gostau a gafodd yr Asiantaeth wrth wneud hynny.

## 2. PWERAU GORFODAETH

2.1 Mae'r pwerau gorfodaeth sydd ar gael yn syrthio'n fras i 2 gategori:

(1) Ar gyfer Atal/Adfer:

- Rhybuddion Gorfodaeth
- Rhybuddion Gwaharddiadau
- Rhybuddion yn gofyn am waith neu weithredu
- Rhybuddion nad ydynt (ynddynt eu hunain) yn arwain at droseddau trwy beidio â chydymffurfio, ond a allent arwain at atal neu ddiddymu trwydded amgylcheddol
- Gwaith adferol gan yr Asiantaeth (ac adennill costau)
- Gwaharddebau

(2) Ar gyfer Troseddau:

- Erlyniad

2.2 Mae pwerau cynorthwyol yn cynnwys yr hawl i archwilio adeiladau, meddiannu cerbydau, cymryd samplau a chopïau o wybodaeth a mynnu ateb i gwestiynau.

2.3 Dewisiadau eraill ar wahân i erlyn, pan fo trosedd wedi ei chyflawni yw:

- Rhybudd ffurfiol
- Llythyr o rybudd
- Rhybudd safle ysgrifenedig

2.4 Wrth ymateb i drosedd rhaid i swyddogion ystyried defnyddio'r gorfodaeth gwarchodol

mwyaf effeithiol sydd ar gael, yn ogystal ag ystyried pa un ai erlyniad, rhybudd ffurfiol ynteu rhybudd yw'r cam mwyaf addas i'w gymryd.

2.5 Mae crynodeb o'r prif bwerau i atal/adfer i'w cael yn Nhabl 1 a chrynodeb o brif droseddau GA a'r darpariaethau stadudol perthnasol yn Nhablau 2-6.

## 3. FFACTORAU YN YMWNEUD Â GWEITHREDU GORFODAETH

3.1 Mae difrifoldeb troseddau GA yn gallu amrywio'n fawr. Ar un pegwn, gall gweithred arwain at heintiad difrifol o ddŵr, awyr neu dir, gan fygwth iechyd dynol. Ar y pegwn arall, gellir cael tor-amod o reolau gweinyddol y drwydded, e.e. methu â chyflwyno cofnodion yn eu fformat cywir, lle nad oes dim effaith ar yr amgylchedd. Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â'r math gorau o orfodaeth i'w weithredu, bydd yn rhaid ystyried yr amgylchiadau perthnasol i gyd, gan gynnwys:

### (1) Effaith amgylcheddol

Bydd maint yr effaith amgylcheddol yn arwydd o'r graddau y bu i'r troseddwr fethu â gosod, cynnal, cadw at a/neu ragweld y canlyniadau o beidio â chael dulliau gweithredu na systemau i atal y digwyddiad. Yn gyffredinol, po fwyaf yr effaith neu'r effaith posibl, mwyaf yn y byd fydd y tebygolrwydd o erlyniad.

Pan fo'r drosedd yn codi o ddigwyddiad oddi mewn i'r CDDC (CICS), dylid cyfeirio at gategori'r effaith ar yr amgylchedd. Os yw'r effaith neu'r effaith posibl yn Categori 1, fel rheol bydd erlyniad yn dilyn. Os yw'n disgyn i Gategori 2, erlyniad neu rybudd ffurfiol fydd y ffordd arferol o weithredu. Gwneir y dewis trwy gyfeirio at ffactorau eraill a restrir isod. Os yw'n disgyn i Gategori 3, fel arfer bydd rhybudd yn ddigonol, oni bai i ffactorau eraill arwain at ddull llymach o weithredu, e.e. ail- droseddu.

Dylai trosedd nad yw'n syrthio oddi mewn i'r CDDC (CICS) ond sy'n effeithio, neu â'r gallu i effeithio ar yr amgylchedd, gael ei hystyried gan ddefnyddio yr un meini prawf.

### (2) Natur y drosedd

Gall y math o drosedd fod mor ddifrifol o ran ei natur neu o ran ei heffaith ar allu'r Asiantaeth i reoli'n effeithiol fel y bydd yn rhaid erlyn i ddelio â'r achos.

**(3) Bwriad**

Fel arfer, delir â throseddau a gyflawnir yn fwriadol, yn fyrbwyll neu am fantais ariannol trwy erlyniad. Gall fod yn addas i ystyried gweithredu gorfodaeth llai os yw'r Asiantaeth yn argyhoeddedig na throseddwyd yn fwriadol, neu bod y drosedd yn ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth ac nac achoswyd unrhyw niwed i'r amgylchedd o ganlyniad i hynny.

**(4) Hanes blaenorol**

Er y bydd y camau a gymerir yn dibynnu ar yr amgylchiadau ym mhob achos, dylid ystyried math, difrifoldeb, nifer ac amlder gweithrediadau gorfodaeth a fu yn y gorffennol.

Fel arfer, i bersonau a dderbyniodd rybudd ffurfiol yn y gorffennol, bydd unrhyw drosedd arall, ar wahân i rai bychain yn arwain at erlyniad.

**(5) Agwedd y troseddwr**

Cymerir camau erlyniadol, os ydynt ar gael, pan fo'r troseddwr wedi:

- gwrthod derbyn math arall o weithredu gorfodaeth
- gwneud dim ymdrech i leihau neu i gywiro effeithiau neu effeithiau posibl y drosedd
- rhwystro archwiliadau
- anwybyddu cyngor neu arweiniad ffurfiol yr Asiantaeth yng nghyflawniad y drosedd
- ymddwyn yn anonest trwy geisio gohirio neu arafu gweithrediad gorfodaeth yr Asiantaeth.

Bydd cydweithredu gyda'r Asiantaeth, hysbysu'r Asiantaeth am unrhyw ddigwyddiad, gweithredu cyflym ac effeithiol i liniaru'r effaith a rhoi cymorth gydag unrhyw ymholiadau yn ffactorau a gymerir i ystyriaeth wrth benderfynu pa lefel o orfodaeth sy'n addas mewn achos arbennig.

**(6) Effaith rybuddiol**

Bydd erlyniad yn dilyn os tybir ei fod yn gam angenrheidiol ac effeithiol i atal ail-adrodd y drosedd gan y troseddwr. Bydd erlyniad yn digwydd hefyd pe teimlid bod hynny yn mynd i weithio fel ataliad i eraill rhag iddynt gyflawni troseddau a allent gael effaith digon bychan ar eu pennau eu hunain, ond a allent, yn gynyddol dros gyfnod o amser, neu oddi mewn i ardal arbennig, gael effaith mwy andwyol ar yr amgylchedd neu ar gyfleusterau lleol, e.e. gadael sbwriel mewn lleoedd anghyfreithlon.

**(7) Amgylchiadau personol y troseddwr**

Ystyrir ffordd ysgafnach o weithredu pan fo amgylchiadau personol y troseddwr yn berthnasol ac yn arbennig, e.e. troseddwyr yn dioddef o salwch difrifol.

**(8) Troseddau rhagweladwy**

Cydnabyddir pwysigrwydd ataliad mewn deddfwriaeth sy'n gosod cyfrifoldeb ar weithredwr i ragweld canlyniadau posibl i weithredu (neu ddiffyg gweithredu), neu fethiant neu ddiffygion mewn systemau neu ddulliau gweithredu. Pan oedd yn bosibl rhagweld trosedd a'i/neu'i chanlyniadau amgylcheddol, ac na chymerwyd unrhyw gamau i'w rhwystro nac i'w hosgoi, fel rheol bydd erlyniad yn dilyn. Gellir ystyried camau gorfodaeth eraill os:

- oedd y drosedd wedi digwydd er gwaethaf cymryd camau i'w hosgoi
- nad oedd yn bosibl, o fewn rheswm, rhagweld y drosedd
- oedd y drosedd wedi digwydd o ganlyniad i offer diffygiol ac nad oedd yn bosibl, o fewn rheswm, gwybod am hyn na'i ragweld
- oedd y drosedd wedi digwydd trwy ymyrraeth trydydd person, ac na ellid ei ochel.

Pan fo'r drosedd wedi effeithio ar yr amgylchedd, a phan na welwyd parch tuag at amodau'r drwydded amgylcheddol na'r rhyddhad, canllawiau stadudol, côd arferion neu gyngor gan yr Asiantaeth neu unrhyw awdurdod gorfodaeth arall (e.e. awdurdodau lleol), fel rheol bydd erlyniad yn dilyn.

3.2 Mae'r ffactorau perthnasol a'r pwysau a roddir arnynt yn dibynnu ar amgylchiadau arbennig pob achos.

3.3 Mae Tablau 2-6 yn crynhoi prif droseddau GA ac yn cynnig canllawiau ar y mwyafrif o'r dewisiadau o ran gorfodaeth gan ystyried natur ac effaith y drosedd. Dylid darllen y tablau ynghyd â'r ffactorau gorfodaeth uchod er mwyn hwyluso'r dewis o ddull o weithredu. Er y bydd yn rhaid i'r Asiantaeth ddangos doethineb ym mha bynnag ddull a ddewisir mewn unrhyw achos, rhaid rhoi sylw i'r canllawiau a osodir yn y tablau bob amser.

3.4 Mae canllawiau manwl yn perthyn i droseddau cyffredin GA yn ei gyfanrwydd, ac i'r rhai hynny a berthyn i Ansawdd Dŵr (AD), Rheolaeth a Goruchwyliaeth Gwastraff (RhGG), Rheolaeth Diwydiannau Prosesu (RhDP) a Rheolaeth Sylweddau Ymbelydrol (RhDY) i'w cael ym mharagraffau 4-8 isod.

**4. CAMAU GORFODOL - TROSEDDAU CYFFREDIN (Adrannau 108 i 110 Deddf yr Amgylchedd 1995 (DA))**

4.1 Rhoddir manylion ynglŷn â throseddau a gymhwysir at yr holl warchodaeth amgylcheddol a'r ymatebion gorfodaeth priodol yn Nhabl 2. Rhoddir canllawiau pellach isod.

**Atal person awdurdodedig**

4.2 Lle nad oes rhesymau am amau fod difrod neu niwed amgylcheddol yn cael neu yn debygol o gael ei achosi a beth bynnag yw llwyddiant unrhyw weithdrefn i sicrhau mynediad, bydd yr achos fel arfer yn cael ei erlyn. Os yw'r rhwystr o natur bychan iawn neu oherwydd cam-ddealltwriaeth ac os, ar ôl cyngor priodol, bod y troseddwr yn cydweithredu'n llawn ac nad oes unrhyw drosedd arall wedi cael ei chyflawni, dylid rhoi rhybudd llafar.

**Methu â chydymffurfio â gofyniad a roddwyd o dan Adran 108 DA**

4.3 Os yw'r swyddog yn cael ei atal rhag cyflawni unrhyw rai o ddarpariaethau Adran 108, yn arbennig Adran 108 (4), bydd yr achos fel arfer yn cael ei erlyn, p'run ai a oedd y swyddog yn gallu ymarfer unrhyw rai o'r pwerau hyn yn y pen draw ai peidio.

**Personoli person awdurdodedig**

4.4 Bydd achos fel arfer yn cael ei erlyn.

**Methu ag ateb cwestiynau**

4.5 Os yw person yn methu ag ateb cwestiynau, bydd achos fel arfer yn cael ei erlyn.

**Methu â darparu samplau**

4.6 Os yw person yn methu â darparu samplau perthnasol, bydd yr achos fel arfer yn cael ei erlyn. Os yw'r samplau yn hanfodol i weithgareddau'r Asiantaeth, yna dylid gofyn am waharddeb sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr ddarparu'r samplau.

**Methu â darparu gwybodaeth berthnasol**

4.7 Os yw person yn methu â darparu gwybodaeth berthnasol, bydd yr achos fel arfer yn cael ei erlyn. Os yw'r wybodaeth o bwysigrwydd hanfodol i weithgareddau'r Asiantaeth, gofynnir am waharddeb. Lle bo angen yr wybodaeth ar ffurf rhybudd ffurfiol bydd methu â chydymffurfio â'r rhybudd fel arfer yn arwain at erlyniad.

**Atal person arall rhag ymddangos o flaen ... neu ateb cwestiynau**

4.8 Os yw person yn atal unrhyw berson arall rhag ymddangos o flaen person awdurdodedig neu ateb unrhyw gwestiynau sy'n angenrheidiol yn dilyn Adran 108 (4), bydd yr achos fel arfer yn cael ei erlyn.

**Gwneud datganiad neu gofnod ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu yn ddifeddwl**

4.9 Bydd yr achos fel arfer yn cael ei erlyn.

## 5. CAMAU GORFODAETH - ANSAWDD DŴR

### 5.1 CAMAU GORFODAETH - LLE NA BU TROSEDD

**Rhybudd gorfodaeth (A90b Deddf Adnoddau Dŵr (DAD))**

5.1.1 Bydd rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiad ag amodau caniatâd i arllwys dŵr fel arfer yn cael eu rhoi yn y sefyllfaoedd canlynol.

(1) Lle bo un neu fwy o amodau'r caniatâd wedi eu torri (neu yn debygol o gael eu torri) a bod y tor-amod, pe bai'n ddigwyddiad o dan CDDC yn (neu byddai â'r potensial i fod):

(a) yn ddigwyddiad Categori 1 neu 2
(b) yn ddigwyddiad Categori 3 a bod rhybuddion wedi eu rhoi yn y gorffennol.

(2) Lle bo'r amodau sy'n cael eu torri, neu'n debygol o gael eu torri, yn atal rheoleiddio effeithiol a bod rhybuddion blaenorol wedi eu rhoi, e.e. methu â darparu data monitro neu ddarparu offer ar gyfer mesur llif.

**Rhybudd gwahardd (Adrannau 86 ac 89(5) DAD)**

5.1.2 Bydd rhybudd yn gwahardd:

(1) arllwys elifiant masnach neu garthffosiaeth o adeilad neu offer sefydlog ar neu i dir

(2) arllwysiadau o unrhyw fater heblaw elifiant masnach neu garthffosiaeth i ddyfroedd rheoledig o ddraen neu garthffos neu

(3) arllwysiadau o ddraen priffordd

fel arfer yn cael ei roi lle mae'r effaith neu'r effaith botensial yn Gategori 1 neu 2.

**Rhybudd Gweithfeydd (Adrannau 161 A i D DAD)**

5.1.3 Rhoddir rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd naill ai i atal neu wella llygredd o ddyfroedd rheoledig fel arfer yn yr amgylchiadau canlynol:

(1) yn achos digwyddiad potensial lle bo risg o ddigwyddiad Categori 1 neu 2 o gyfleuster neu safle lle bo risg o ddigwyddiad Categori 3 a bod rhybuddion wedi eu rhoi yn y cyfleuster neu safle yn y gorffennol.

(2) yn achos digwyddiad o lygredd gwirioneddol lle bu digwyddiad Categori 1 neu 2 sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i adfer dyfroedd rheoledig ac eithrio lle mae'r Asiantaeth yn ei gwneud yn ofynnol i waith gael ei gyflawni ar unwaith.

**Rhybudd Dŵr Daear (Rheoliad 19 Rheoliadau Dŵr Daear 1998)**

5.1.4 Rhoddir rhybudd fel arfer yn gwahardd cyflawni unrhyw weithgaredd a allai arwain at:

(1) arllwysiad anuniongyrchol o sylweddau Rhestr I i ddŵr daear.

(2) llygru dŵr daear o arllwysiad anuniongyrchol o sylweddau Rhestr II lle bo risg o effaith Categori 1 neu 2.

**Cylchfaoedd sydd o dan fygythiad Nitradau (Rheoliad 4 o'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Rheoliadau Cylchfaoedd sydd o dan fygythiad Nitradau 1998)**

5.1.5 Rhoddir rhybudd fel arfer lle bu methiant i gydymffurfio â rhaglen weithredu a'r camau adferol penodol y gofynnodd yr Asiantaeth amdanynt yn flaenorol yn ysgrifenedig yn dilyn ymweliad â'r fferm.

**Rhybudd o dan y Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991 ac 1997**

5.1.6 Rhoddir rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i wella system storio ar gyfer silwair, slyri neu olew tanwydd amaethyddol fel arfer lle bo risg o ddigwyddiad Categori 1 neu 2 neu lle bo risg o ddigwyddiad Categori 3 ac y bu hanes o rybuddion mewn perthynas â'r system arbennig.

**Pwerau i adfer costau**

5.1.7 Gall yr Asiantaeth ymgymryd â gwaith neu weithrediadau i atal neu glirio llygredd o ddyfroedd rheoledig ei hun mewn argyfwng. Yn yr amgylchiadau hyn bydd yr Asiantaeth yn ceisio cael y costau o wneud gwaith o'r fath yn ôl gan y sawl a

achosodd neu a ganiataodd yn fwriadol y llygredd gwirioneddol neu botensial.

## 5.2 GWEITHREDU GORFODAETH - TROSEDDAU

5.2.1 Mae Tabl 3 yn crynhoi'r prif droseddau ynglŷn ag ansawdd dŵr a'r camau gorfodaeth priodol ar gyfer pob un. Darperir canllawiau manwl pellach isod mewn perthynas â phob math o drosedd.

**Llygru dyfroedd rheoledig**

5.2.2 Lle bo effaith neu effaith botensial yn un Categori 1, yna bydd yr achos yn cael ei erlyn fel arfer.

5.2.3 Lle bo effaith neu effaith botensial yn un Categori 2, yna y camau arferol fydd erlyniad neu rybudd ffurfiol. Mae'r dewis yn dibynnu ar bwysau ffactorau eraill fel cydweithrediad y troseddwr, gwaith yn dilyn clirio'r llygredd neu hanes o droseddu. Bydd yr achos yn cael ei erlyn fel arfer lle bo rhybudd blaenorol neu rybudd ffurfiol wedi ei roi.

5.2.4 Lle nad oes unrhyw effaith neu bod yr effaith neu'r effaith botensial yn Gategori 3, yna rhybudd fydd y camau gweithredu arferol oni bai fod amgylchiadau eraill yn gwneud gweithredu cadarnach yn fwy priodol, e.e. cydweithrediad gwael, trosedd sy'n cael ei hail-adrodd.

**Gweithredu heb ganiatâd i arllwys neu awdurdodiad dŵr daear**

5.2.5 Lle bo cyfleuster yn cael ei weithredu sydd angen caniatâd neu awdurdodiad arllwys, ond fod y troseddwr wedi methu â chael trwydded o'r fath, bydd yr achos yn cael ei erlyn fel arfer. Am droseddau cyntaf yn ymwneud â dim effaith neu effaith Categori 3 neu effaith botensial, a lle bo cais yn cael ei gyflwyno o fewn amserlen fer, rhybudd fydd y cam gweithredu arferol. Mewn rhai amgylchiadau, e.e. cydweithrediad gwael, yna bydd gweithredu cadarnach yn fwy priodol.

5.2.6 Ni fydd caniatadau fel arfer yn cael eu rhoi, ond mewn achosion lle darganfyddir arllwys neu waredu sylweddau heb eu trwyddedu, dylid annog pobl i wneud cais. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir rhoi caniatadau heb wneud cais.

**Torri caniatâd arllwys neu amodau awdurdodiad dŵr daear**

5.2.7 Lle bo'r tor-amod yn arwain at effaith gwirioneddol neu botensial Categori 1 neu 2, yna dylid dilyn y canllawiau ym mharagraffau 5.2.2 - 5.2.3.

5.2.8 Lle bo caniatâd neu amod awdurdodiad wedi ei dorri ac wedi arwain at ddim effaith neu effaith neu effaith botensial Categori 3, rhybudd fel arfer fydd y cam mwyaf priodol oni bai fod amgylchiadau eraill yn gwneud gweithredu cadarnach yn

angenrheidiol, e.e. troseddu droeon, y gweithredwr yn amharod i gydweithredu, tor-amod bwriadol. Bydd yr achos yn cael ei erlyn fel arfer mewn perthynas â'r mathau hynny o dor-amod lle mae'r gweithredwr wedi dangos hanes o beidio â chydymffurfio sy'n ddigon i godi amheuaeth ynglŷn â rheolaeth effeithiol y safle/gweithrediadau neu i atal rheoliad effeithiol gan yr Asiantaeth.

**Peidio â chydymffurfio â Rhybudd Gorfodaeth/Gwaharddiad/Gweithfeydd/ Dŵr Daear**

5.2.9 Cyflwynir erlyniad fel arfer am fethu â chydymffurfio â Rhybudd Gorfodaeth, Rhybudd Gwaharddiad, Rhybudd Gweithfeydd, Rhybudd CFN (NVZ), Rhybudd Fferm SSAFO neu Rybudd Dŵr Daear. Gellir ystyried gweithredu heb fod mor llym lle bo amgylchiadau eithriadol yn gwneud cydymffurfio yn amhosibl.

**Methu â gweithredu Rhaglen Weithredu (Rheoliad 3 o'r Rhaglen Weithredu ar Gyfer Cylchfaoedd sydd o dan Fygythiad Nitradau 1998)**

5.2.10 Lle bo methiant i weithredu rhaglen weithredu yn arwain at effaith neu effaith botensial Categori 1, yna bydd yr achos yn cael ei erlyn fel arfer.

5.2.11 Lle bo methiant i weithredu rhaglen weithredu yn arwain at effaith neu effaith botensial Categori 2, y cam gweithredu arferol fydd erlyniad, rhybudd ffurfiol neu gyflwyno rhybudd. Mae'r dewis yn dibynnu ar bwysau ffactorau eraill, yn arbennig cydweithrediad y ffermwr i liniaru unrhyw fethiant i weithredu a phwysigrwydd sicrhau cydymffurfiad â'r rhaglen yn hytrach na chymryd camau gorfodol.

5.2.12 Lle bo methu â gweithredu rhaglen weithredu yn arwain at effaith neu effaith botensial Categori 3, y cam arferol fydd rhybudd oni bai fod amgylchiadau eraill yn gwneud camau cadarnach yn fwy priodol.

## 6. GWEITHREDU GORFODAETH - RHEOLI GWASTRAFF A RHEOLEIDDIO

### 6.1 GWEITHREDU GORFODAETH - LLE NA BU TROSEDD

**Atal/diddymu trwydded (Adran 38 Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990)**

6.1.1 Os na thybir bod deiliad trwydded yn ffit ac yn briodol oherwydd euogfarnau perthnasol, bydd y drwydded fel arfer yn cael ei diddymu i'r graddau nad yw bellach yn caniatáu cadw, trin neu waredu gwastraff.

6.1.2 Os yw parhad y gweithgareddau a ganiateir gan y drwydded yn neu byddai yn achosi digwyddiad Categori 2 ac nad yw'n briodol defnyddio'r pwerau yn Adran 42 DGA ac na ellir osgoi y llygredd, difrod neu niwed trwy ddiwygio amodau'r drwydded, yna bydd y drwydded fel arfer yn cael ei diddymu i'r graddau nad yw bellach yn caniatáu cadw, trin neu waredu gwastraff. Dylid defnyddio'r pwerau a gynhwysir yn Adran 42 (5) DGA lle bo amod trwydded wedi (neu yn debygol o gael) ei thorri, ac eithrio lle bo'r sefyllfa yn gwarantu diddymiad, diddymiad rhannol neu atal trwydded rheoli gwastraff ar unwaith.

6.1.3 Os nad yw daliwr y drwydded yn berson ffit a phriodol bellach oherwydd bod rheolaeth y gweithgareddau wedi peidio â bod yn nwylo person cymwys yn dechnegol, bydd y drwydded fel arfer yn cael ei hatal fel nad yw bellach yn caniatáu cadw, trin neu waredu gwastraff hyd nes bo rheoli'r gweithgareddau yn nwylo person galluog yn dechnegol.

6.1.4 Lle bo:

(1) rheolaeth y gweithgareddau wedi peidio â bod yn nwylo person galluog yn dechnegol oherwydd bod yr unigolyn(ion) sy'n ffurfio'r rheolaeth honno wedi methu â throsi ei Dystysgrif o Hyfedredd Technegol dros dro (gyda 10/8/99 fel dyddiad dirwyn i ben) i Drwydded lawn o Hyfedredd Technegol, a

(2) bod methiant oherwydd nad yw unigolyn(ion) wedi cwblhau uned reolaethol o fewn eu Dyfarniad Tystysgrif o Hyfedredd Technegol

bydd gan y rhybudd atal a roddir yn unol â pharagraff 6.1.3 ddyddiad effeithiol o 11/2/2000 (h.y. ni fydd y rhybudd yn atal unrhyw weithgaredd cyn y dyddiad hwnnw).

6.1.5 Lle nad yw deiliad y drwydded bellach yn berson ffit a phriodol oherwydd bod rheolaeth y gweithgareddau wedi peidio â bod yn nwylo person sy'n fedrus yn dechnegol a bod colli rheolaeth fedrus dechnegol wedi digwydd oherwydd:

(1) marwolaeth

(2) salwch neu
(3) golli staff heb ei gynllunio

bydd gan y rhybudd atal a roddir yn unol â pharagraff 6.1.3 ddyddiad effeithiol o dri mis o ddyddiad colli rheolaeth dechnegol fedrus (h.y. ni fydd y rhybudd yn atal unrhyw weithgaredd cyn i dri mis fod wedi dirwyn i ben o ddyddiad y farwolaeth, salwch neu golli staff heb ei gynllunio) cyhyd ag y bo'r Asiantaeth yn fodlon fod tystiolaeth:

(a) o recriwtio (penodi rhywun yn lle'r rheolaeth dechnegol fedrus) a

(b) y gwneir trefniadau dros dro gan ddefnyddio rheolwyr medrus technegol eraill i ymdrin â'r golled

[Gall hyn arwain at lai o bresenoldeb gan y "rheolwyr dros dro" hynny mewn safleoedd eraill. Gall hyn gael effaith wedyn ar reolaeth dechnegol fedrus y safleoedd hynny yr oedd y rheolwyr hynny yn gyfrifol yn wreiddiol amdanynt. Ni ddylai'r trefniant dros dro hwn arwain at roi rhybudd atal mewn perthynas â'r safleoedd hynny. Bydd yr Asiantaeth yn derbyn yr hyfedredd technegol llai hwn am gyfnod cyfyngedig (3 mis)].

6.1.6 Ym mhob sefyllfa arall (h.y. y sefyllfaoedd hynny nas ymdrinnir â hwy gan 6.1.4 a 6.1.5) bydd unrhyw rybudd atal a roddir yn unol â pharagraff 6.1.3 yn dod i rym ar unwaith.

6.1.7 Os yw digwyddiad Categori 1 wedi deillio o, neu ar fin cael ei achosi gan, y gweithgareddau y mae'r drwydded yn ymwneud â hwy, yna bydd gweithgareddau perthnasol y drwydded (h.y. y gweithgareddau sy'n arwain at y broblem) fel arfer yn cael eu hatal hyd nes nad yw'r gweithgareddau hynny bellach yn cyflwyno dim perygl/perygl potensial.

**Rhybudd Gorfodaeth (Adran 42 DGA)**

6.1.8 Bydd rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiad ag amodau'r drwydded rheoli gwastraff fel arfer yn cael ei roi yn y sefyllfaoedd canlynol:

(1) Lle bo un neu fwy o amodau'r drwydded wedi (neu yn debygol o gael) eu torri a bod torri'r drwydded, pe bai'n ddigwyddiad o dan CDDC, (neu byddai â'r potensial i fod) yn:

(a) ddigwyddiad Categori 2
(b) ddigwyddiad Categori 3 lle bu hanes o roi rhybuddion

(2) lle bo'r amod(au) sydd wedi (neu yn debygol o gael) eu torri wedi bod yn destun rhybudd atal o fewn pum mlynedd cyn y digwyddiad.

(3) lle bo'r amod(au) yn cael eu torri, neu yn debygol o gael eu torri, yn atal rheoliad effeithiol a bod rhybuddion blaenorol wedi eu rhoi, e.e. methiant i ddarparu data monitro.

(4) lle bo'r amod(au) a dorrir yn ymwneud â chynnal darpariaeth ariannol a bod rhybudd wedi ei roi ac na chydymffurfiwyd â'r amodau ar unwaith.

6.1.9 Bydd methu â chydymffurfio â rhybudd Adran 42 (5)(a) DGA fel arfer yn arwain at roi rhybudd Adran 42 (5)(b). Bydd yr hysbysiad hwn yn atal cadw, trin neu waredu gwastraff hyd nes y cydymffurfir â'r amod(au) neu bod yr amgylchiadau yn golygu y cydymffurfir â'r amod pe bai'r ataliad yn cael ei godi.

**Rhybudd i symud gwastraff (A59 DGA)**

6.1.10 Yn ddarostyngedig i baragraff 6.1.11 dylid rhoi rhybuddion i symud gwastraff mewn achosion ble cyflwynir erlyniad am drosedd Adran 33 (1)(a) DGA yn erbyn deiliad y tir. Bydd y rhybudd hwn yn ei gwneud yn ofynnol (lle bo hynny'n ymarferol) i symud y gwastraff fel minimwm. Os yw'r dyddodiad anghyfreithlon wedi cael unrhyw effaith amgylcheddol bydd y rhybudd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gymryd camau gyda'r bwriad o ddileu neu gwtogi ar yr effaith hwnnw.

6.1.11 Yn achos dyddodion gwastraff anghyfreithlon mewn cyfleuster ail-gylchu metel yr ymdrinnir ag ef gan baragraff 6.2.15, bydd yr Asiantaeth yn rhoi rhybudd i symud gwastraff, ond bydd y rhybudd hwnnw yn rhoi ystyriaeth i'r amserlen arfaethedig sy'n ofynnol i reoleiddio'r cyfleuster.

6.1.12 Lle bo'r dyddodiad anghyfreithlon yn achosi effaith Categori 1 a 2, bydd yr Asiantaeth yn symud y gwastraff ac yn cymryd camau eraill i ddileu neu gwtogi ar effaith amgylcheddol y dyddodiad hwnnw. Ceir y costau am wneud hyn yn ôl gan y sawl a wnaeth /a achosodd yn fwriadol/ a ganiataodd yn fwriadol y dyddodiad. Mewn sefyllfaoedd eraill, bydd penderfyniad yr Asiantaeth i ymarfer ei phwerau yn cael ei seilio ar bob achos yn unigol.

## 6.2 GWEITHREDU GORFODAETH - TROSEDDAU

6.2.1 Mae Tabl 4 yn crynhoi y prif droseddau gwastraff a'r camau gorfodaeth priodol ar gyfer pob un. Darperir canllawiau manwl pellach isod mewn perthynas â phob math o drosedd.

**Gweithredu heb drwydded rheoli gwastraff**

6.2.2 Yn ddarostyngedig i baragraffau 6.2.3 - 6.2.15 isod lle bo cyfleuster yn cael ei weithredu sydd angen trwydded rheoli gwastraff ond bod y troseddwr wedi methu â chael trwydded o'r fath, bydd erlyniad fel arfer yn cael ei gyflwyno.

6.2.3 Rhybudd ffurfiol fydd yr ymateb arferol mewn perthynas â chyfleuster rheoli gwastraff heb ei drwyddedu (ac eithrio cyfleusterau ail-gylchu metel tan 31 Mawrth 2000, ac ar ôl y dyddiad hwnnw bydd y paragraff hwn yn berthnasol at gyfleusterau o'r fath) lle:

(1) nad yw'r cyfleuster yn ymdrin â:

(a) gwastraff hylif

(b) gwastraff arbennig

(c) gwastraff clinigol, neu

(d) wastraff sy'n cael ei gladdu, a

(2) bod yr Asiantaeth yn fodlon fod y trosedd wedi ei chyflawni yn anfwriadol, a

(3) bod gweithredwr y cyfleuster y gellir ei drwyddedu, ar ôl cael ei gynghori fod ar y gweithgareddau a gyflawnir angen eu trwyddedu, yn cyflwyno ffurflen gais (a ffi briodol) am drwydded rheoli gwastraff yn ddi-oed (h.y. o fewn deg diwrnod gwaith) ac yn gwneud hynny, a

(4) nad yw'r cais am drwydded wedi ei wrthod (gan gynnwys gwrthodiad tybiedig) a

(5) bod yr ymgeisydd yn gallu bodloni'r prawf o berson ffit a phriodol o dan Ran 2 DGA ac y byddai statws cynllunio cyfleuster heb ei drwyddedu yn caniatáu cyhoeddi trwydded rheoli gwastraff, ac

(6) nad yw'r gweithgareddau y gellir eu trwyddedu yn achosi llygredd i'r amgylchedd neu niwed i iechyd dynol ac yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n gydnaws â'r angen i gyrraedd yr amcanion perthnasol a restrwyd yn Atodlen 4 Rhan 1, Paragraff 4 (1)(a) o'r Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994 (RhTRhG), a

(7) bod y cyfleuster wedi ei gyfyngu i ddefnydd y gweithredwr yn unig (h.y. nid oes unrhyw weithredwyr eraill yn defnyddio'r cyfleuster),

(8) nid oes cynnydd yn y gweithgaredd y gellir ei drwyddedu (e.e. mae math ac

ansawdd y gwastraff yn parhau heb ei newid, cyfyngir y gweithgareddau heb eu trwyddedu i'r safle dan sylw) ac

(9) mae'r gweithredwr yn cydweithredu'n llawn â'r Asiantaeth (e.e. mynediad rhydd i swyddogion wrth archwilio'r gweithrediad).

6.2.4 Lle bo gweithgaredd sy'n perthyn o fewn paragraff 6.2.3 uchod yn cael ei ddarganfod ond bod y gweithredwr yn gwrthod cyflwyno cais am drwydded dylid fel arfer gynnig rhybudd ffurfiol pan fo'r gweithredydd yn peidio â'r gweithgareddau y dylid eu trwyddedu ar unwaith.

6.2.5 Lle bo gweithredwr yn gwrthod cyflwyno cais (neu yn oedi gwneud cais) ac nad yw yn dirwyn y gweithgareddau y dylid eu trwyddedu i ben bydd erlyniad fel arfer yn cael ei ddilyn.

**Safleoedd wedi eu difwyno**

6.2.6 Mewn sefyllfaoedd lle mae gwaith i adfer tir sydd i'w drwyddedu eisoes ar y gweill, neu wedi ei ymrwymo:

(1) ar 3 Awst 1998 (rhaid i'r Asiantaeth fod yn fodlon fod goblygiadau cytundebol yn ymwneud â'r gwaith adfer wedi eu llunio erbyn 3 Awst 1998), ac

(2) ni fyddai trwydded yn gallu cael ei dosbarthu yn ymarferol/nid yw wedi ei dosbarthu cyn dechrau ar waith o'r fath, a

(3) nid yw'r gwaith yn achosi, neu ni fydd yn achosi llygru'r amgylchedd, difrod i iechyd neu niwed difrifol i fwynderau, ac maent yn gyson â'r angen i gyrraedd yr amcanion perthnasol a restrwyd ym mharagraff 4 (1)(a) Atodlen 4 o'r RhTRhG, a

(4) bod cais priodol am drwydded wedi ei gyflwyno i'r Asiantaeth briodol ac yn cael ei drin yn weithredol (gan yr ymgeisydd). Lle bo Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd yr Alban yn Asiantaeth briodol rhaid sicrhau bod prawf o'r cais wrth law i Asiantaeth yr Amgylchedd

yna ni fydd camau gorfodaeth fel arfer yn cael eu dilyn am beidio â bod â thrwydded i ymdrin â'r gwaith hwn.

6.2.7 Lle mae'r gwaith o adfer safle wedi ei difwyno neu briddoedd wedi eu difwyno yn cael ei wneud gan waith a reolir drwy drwydded offer symudol ar gyfer pridd gwastraff, ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn erlyn am fethu â bod â thrwydded safle rheoli gwastraff ar gyfer:

(1) storio pridd gwastraff, lle nad yw cyfanswm cyfaint y pentwr yn fwy na 750$m^3$ ar gyfer pob trwydded offer symudol, i fwydo'r offer symudol tra bo'r offer hwnnw ar y safle, a/neu

(2) cloddio am bridd gwastraff y bwriedir iddo gael ei drin gan offer symudol wedi ei drwyddedu'n briodol naill ai drwy gael ei fwydo'n uniongyrchol i'r offer neu ei storio fel yn (1) uchod.

pan fo'r gweithgareddau hynny/y gweithgaredd hwnnw yn achosi, neu na fyddant yn achosi, llygredd i'r amgylchedd, difrod i iechyd neu ddifrod difrifol i fwynderau, ac yn gyson â'r angen i gyrraedd yr amcanion perthnasol a restrwyd ym mharagraff 4(1)(a) Atodlen 4 o'r RhTRhG.

6.2.8 Lle bo'r gwaith o adfer safle wedi ei difwyno neu bridd wedi ei ddifwyno yn cael ei wneud gan waith a reolir drwy drwydded safle sy'n bell o'r safle wedi ei difwyno (h.y. heb fod ar y safle) ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn erlyn yn erbyn methiant i fod â thrwydded safle rheoli gwastraff am gloddio'r gwastraff hwnnw cyn belled ag nad yw'r gweithgaredd yn achosi, neu na fydd yn achosi, llygredd i'r amgylchedd, difrod i iechyd neu ddifrod difrifol i fwynderau, a'i fod yn gydnaws â'r angen i gyrraedd yr amcanion perthnasol a restrwyd ym mharagraff 4 (1)(a) o Atodlen 4 o'r RhTRhG.

6.2.9 Lle mai pwrpas prosiect i adfer tir yw sicrhau adferiad safle a ddifwynwyd gan ddefnydd neu achos blaenorol, yna cyn belled â

(1) bod cyfanswm y deunydd wedi ei ddifwyno (h.y. pridd gwastraff neu ddŵr daear) a driniwyd gan y prosiect adfer heb fod yn fwy na 1,000$m^3$

(2) bod ymchwiliad safle ac asesiad risg ar y safle wedi ei wneud fel rhan o'r argymhelliad i adfer/prosiect adfer a bod manylion llawn am yr ymchwiliad hwnnw a'r asesiad o risg wedi eu cyflwyno i swyddfa Ardal yr Asiantaeth lle mae'r prosiect adfer i ddigwydd o leiaf bum diwrnod gwaith (neu pa gyfnod bynnag arall a gytunwyd gan yr Asiantaeth) cyn i'r prosiect hwnnw ddechrau.

(3) bod manylion llawn am:

(a) ddatganiad dull o'r dechneg adfer a ddefnyddir, a'r datganiad hwnnw i gynnwys manylion llawn a chyflawn am y meini prawf i ddilysu'r driniaeth, argymhellion monitro ar ôl y driniaeth, a threfniadau arolygu a ddefnyddir yn ystod y prosiect adfer,

(b) enw, cyfeiriad cyswllt (cartref neu fusnes), a rhifau ffôn i gysylltu â hwy unrhyw dirfeddiannwr, datblygwr neu gontractwr sy'n

ymwneud â'r prosiect adfer

yn cael eu cyflwyno i swyddfa Ardal yr Asiantaeth lle mae'r prosiect adfer i gael ei gynnal o leiaf bum niwrnod gwaith (neu pa gyfnod bynnag arall a gytunir gan yr Asiantaeth) cyn i'r prosiect hwnnw ddechrau, a

(4) ni fydd y prosiect adfer yn achosi llygredd i'r amgylchedd, difrod i iechyd neu ddifrod difrifol i fwynderau, a bydd yn gyson â'r angen i gyrraedd yr amcanion perthnasol a restrwyd ym mharagraff 4 (1)(a) Atodlen 4 RhTRhG.

yna ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn dilyn gweithredu gorfodol am beidio â bod â thrwydded ar gyfer y gwaith hwnnw.

6.2.10 Lle bo dŵr daear, fel rhan o'r prosiect adfer yn cael ei drin yna ni fydd yr Asiantaeth yn cyflwyno gweithredu gorfodol am fethu bod â thrwydded yn awdurdodi'r driniaeth honno lle bo:

(1) y dŵr daear sydd wedi ei drin yn cael ei arllwys ar y safle ar neu i dir neu i ddyfroedd wedi eu rheoli o dan, ac yn unol â chaniatâd/awdurdodiad i arllwys dŵr o dan y Rheoliadau Dŵr Daear 1998, neu

(2) bod y dŵr daear sydd wedi ei drin yn cael ei arllwys yn y safle i'r system garthffosiaeth o dan, ac yn unol â chaniatâd elifiant masnachol a roddwyd drwy gytundeb gyda'r ymgymerwr carthffosiaeth, a

(3) ni fydd y driniaeth i ddŵr daear yn achosi llygredd i'r amgylchedd, difrod i iechyd neu ddifrod difrifol i fwynderau, a'i fod yn gyson â'r angen i gyrraedd yr amcanion perthnasol a restrir ym mharagraff 4 (1)(a) Atodlen 4 o'r RhTRhG.

Mewn sefyllfaoedd lle mae prosiect adfer o'r fath eisoes ar y gweill, neu bod ymrwymiad iddo ar 3 Awst 1998 (h.y. byddai'r prosiect adfer yn syrthio o fewn gofynion y paragraff hwn ond am y ffaith ei fod ar y gweill neu bod ymrwymiad iddo erbyn y dyddiad hwnnw), yna ni fyddai'r Asiantaeth fel arfer yn dilyn camau gorfodol am beidio â bod â thrwydded i ymdrin â'r gwaith hwn cyhyd ag y bo manylion a nodwyd yn y paragraff hwn yn cael eu cyflwyno i'r Asiantaeth yn dilyn cais am hynny. Rhaid i'r Asiantaeth gael ei bodloni y lluniwyd rhwymedigaethau cytundebol yn ymwneud â'r gwaith adfer cyn 3 Awst 1998.

6.2.11 Lle nad yw'r prosiect adfer yn perthyn i un o'r paragraffau uchod a:

(1) bod cais wedi ei wneud am drwydded rheoli gwastraff (gan gynnwys ffi ymgeisio priodol) yn ymdrin ag adfer y safle sydd wedi ei difwyno o dan sylw, a

(2) bod yr ymgeisydd yn cyflawni treial (yn unol â chynllun, yn rhoi manylion am fethodoleg y treial ac amserlen debygol y prawf, a gyflwynwyd i ac a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth) i benderfynu ar y manylion gweithrediadol i'w cynnwys mewn cynllun gweithio i gyd-fynd â thrwydded a fyddai'n ymdrin ag adfer y safle honno

yna ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn erlyn am fethu bod â thrwydded safle rheoli gwastraff mewn perthynas â'r treial lle bo:

(a) y treial yn un nad yw yn achosi llygredd i'r amgylchedd, difrod i iechyd neu ddifrod difrifol i fwynderau, ac yn gydnaws â'r angen i gyrraedd yr amcanion perthnasol a restrwyd ym mharagraff 4 (1)(a) Atodlen 4 o'r RhTRhG.

(b) nad yw'r Asiantaeth wedi gwrthod cyhoeddi trwydded rheoli gwastraff (gan gynnwys gwrthodiad tybiedig) mewn perthynas ag adfer y safle sydd wedi ei difwyno dan sylw, neu

(c) mae'r Asiantaeth yn ystyried nad yw cyfnod defnyddiol y treial wedi dirwyn i ben (lle bo'r cyfnod defnyddiol wedi dirwyn i ben rhaid i'r swyddfa sydd wedi derbyn y cais roi gwybodaeth i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig fod cyfnod defnyddiol y prawf wedi dirwyn i ben ac y dylai ddod i ben ar unwaith).

6.2.12 Lle bo prosiect adfer yn defnyddio'r defnyddiau a ddisgrifir yn y tabl isod i sefydlogi/droi llygrwyr yn solid in situ gan arwain at storio gwastraff yn barhaol ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn erlyn am fethu â bod â thrwydded rheoli gwastraff ar gyfer cadw'r gwastraff hwn lle bo:

(1) perfformiad sefydlogi in situ y llygrwr(wyr) yn cael ei ddilysu yn erbyn arfer technegol da cyfredol a

(2) bod y perfformiad hwnnw yn cael ei brofi yn ffisegol ac yn gemegol i arddangos bod y deunydd sydd wedi ei sefydlogi yn annhebygol o achosi llygredd i'r amgylchedd, niwed i iechyd na difrod difrifol i fwynderau, ac nad yw storio deunydd sydd wedi ei sefydlogi ar y safle dan sylw yn barhaol yn anghydnaws â'r angen i gyrraedd yr amcanion perthnasol a restrwyd ym mharagraff 4(1)(a) Atodlen 4 y RhTRhG.

Mae defnyddio deunyddiau yn y dull hwn nad ydynt yn cael eu rhestru yn y tabl isod ar eu pennau eu hunain neu drwy gyfuniad ag unrhyw rai o'r defnyddiau a restrwyd y tu allan i rychwant y sefyllfa gorfodaeth hon.

**MATHAU O RWYMWYR A DDEFNYDDIR YN NODWEDDIADOL MEWN PROSESAU SEFYDLOGI/SOLEDIAD**

| Categori | Math o rwymydd |
|---|---|
| Sment | Sment Portland<br>Sment Llwch Odyn |
| Pozzolans | Llwch pryfed |
| Clai | Clai naturiol (e.e bentonite)<br>Clai wedi ei addasu'n gemegol (e.e. clai organophylig, clai pilerog) |
| Arall | Calch<br>Slag (e.e. dur, ffwrnais chwyth) |

Noder: Yn ymarferol, gall cyfuniadau o'r rhwymwyr (e.e. sment clai) a nodwyd yn y tabl uchod gael eu defnyddio mewn unrhyw un driniaeth.

## Llosgi gwastraff heb ei drwyddedu

6.2.13 Lle bo person yn neu wedi bod yn llosgi gwastraff, rhybudd ffurfiol fydd yr ymateb arferol lle nad oedd y llosgi hwnnw wedi arwain at, neu wedi bod â photensial i arwain at, ddigwyddiad Categori 1 a 2, ac

(1) nid yw'r gwastraff sy'n cael ei losgi (neu sydd wedi cael ei losgi) yn wastraff arbennig neu glinigol neu yn ddeunydd a allai arwain at fwg llidus neu wenwynllyd (e.e. plastigion, teiars, ceblau a dodrefn gyda sbwng ynddynt);

(2) hon yw trosedd amgylcheddol gyntaf y sawl a'i cyflawnodd;

(3) mae'r Asiantaeth yn fodlon fod y drosedd wedi ei chyflawni yn anfwriadol

(4) mewn achosion lle mae tân yn digwydd, mae'r person yn ymateb i gyngor yr Asiantaeth i'w ddiffodd ar unwaith.

(5) mae'r person yn gwaredu'r lludw yn briodol, a

(6) nid yw'r llosgi'n parhau.

Ym mhob sefyllfa arall, yr ymateb arferol fydd erlyn.

## Gorfodaeth yn ymwneud â metel sgrap

6.2.14 Lle bo cyfleuster ailgylchu metel heb ei drwyddedu/heb ei gofrestru yn arwain at, neu fod ganddo botensial i arwain at ddigwyddiad Categori 1 a 2, yna bydd erlyniad fel arfer yn cael ei ddilyn.

6.2.15 Tan 31 Mawrth 2000 (ac ar ôl y dyddiad hwnnw bydd paragraffau 6.2.3-6.2.5 yn berthnasol), lle bo'r cyfleuster ailgylchu metel heb ei drwyddedu/ heb ei gofrestru:

(1) yn un nad yw'n achosi neu nad oes ganddo'r potensial i achosi digwyddiad Categori 1 neu 2, a

(2) bod y gweithredwr, ar ôl cael ei gynghori fod ar y gweithgareddau angen trwyddedu, yn cyflwyno ffurflen gais (a'r ffi priodol) am drwydded rheoli gwastraff yn ddi-oed (h.y. o fewn deng diwrnod gwaith), neu

(3) bod y gweithredwr, ar ôl cael ei gynghori fod ar y gweithgareddau angen eu trwyddedu, yn cyflwyno'r wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ôl eithriad 45 o'r RhTRhG a'r ffi priodol yn ddi-oed (h.y. o fewn deng diwrnod gwaith)

(4) nid oes unrhyw gynnydd yn y gweithgaredd i'w drwyddedu (e.e. mae math a swm y gwastraff yn parhau yn ddi-gyfnewid, cyfyngir y gweithgareddau heb eu trwyddedu i'r safle dan sylw), a

(5) mae'r gweithredwr yn cydweithredu'n llawn â'r Asiantaeth (e.e. mynediad rhydd i swyddogion pan fônt yn archwilio'r gwaith)

yna ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn cymryd unrhyw gamau gorfodol am fethu â bod â thrwydded gwaredu gwastraff lle:

(a) mewn achos lle bo cais am drwydded wedi ei wneud: bod y cais am y drwydded honno yn cael ei gyflwyno gan y gweithredydd ac nad yw wedi ei wrthod (gan gynnwys gwrthodiad tybiedig), neu

(b) mewn achos lle gwnaed cais am eithriad ond nad oes digon o waith wedi ei wneud i gydymffurfio â'r eithriad hwnnw mae'r gweithredwr wedi cyflwyno cynllun gweithredu i gyflawni gofynion yr eithriad ac wrthi'n weithredol yn dilyn y cynllun hwnnw, neu

(c) mae'r safle yn cael ei chofrestru fel un eithriedig.

**Gweithredu heb fod yn Gludwr Cofrestredig**

6.2.16 Yn ddarostyngedig i baragraff 6.2.17 lle bo person yn cario'r gwastraff fel rhan o'i fusnes neu fel arall gyda'r bwriad o wneud elw ac nad yw wedi ei gofrestru fel cludwr gwastraff rheoledig (ac nid yw'n cael ei eithrio o'r angen i fod wedi ei gofrestru felly), yna bydd erlyniad fel arfer yn dilyn.

6.2.17 Rhybudd ffurfiol fydd yr ymateb arferol lle bo person yn cario gwastraff yn ystod ei fusnes neu fel arall gyda'r bwriad o wneud elw ac nad yw wedi cofrestru fel cludwr gwastraff rheoledig (ac nad yw wedi ei eithrio o'r angen i fod wedi ei gofrestru felly), a

(1) bod yr Asiantaeth yn fodlon fod y drosedd wedi ei chyflawni yn anfwriadol

(2) bod y person, ar ôl cael ei gynghori ei bod yn ofynnol iddo gael ei gofrestru fel cludwr gwastraff rheoledig, yn cyflwyno cais (a'r ffi priodol) i gael ei gofrestru (h.y. o fewn deng diwrnod gwaith), ac

(3) nid yw'r gwastraff sy'n cael ei gario yn hylif, nac yn wastraff arbennig na chlinigol

(4) nid oes gan y person hwnnw unrhyw euogfarnau perthnasol, a

(5) mae'r cais o dan ystyriaeth ac mae'r person yn ymatal rhag cario gwastraff.

**Troseddau mewn safleoedd wedi eu cofrestru**

6.2.18 Lle bo trosedd yn cael ei chyflawni mewn safle wedi ei thrwyddedu a bod hyn wedi arwain at, neu sydd â photensial i arwain at ddigwyddiad Categori 1 neu 2, bydd erlyniad fel arfer yn dilyn.

6.2.19 Lle bo amod trwydded wedi ei thorri ac wedi arwain at ddim effaith neu effaith neu effaith botensial Categori 3, dylid rhoi ystyriaeth i gyhoeddi rhybudd neu rybudd ffurfiol. Bydd erlyniad yn cael ei ddilyn fel arfer mewn perthynas â'r mathau hyn o dor-rheol lle bo'r gweithredwr wedi dangos hanes o beidio â chydymffurfio sy'n ddigonol i godi amheuaeth ynglŷn â rheolaeth effeithiol y safle drwyddedig neu i atal rheoleiddio effeithiol gan yr Asiantaeth.

6.2.20 Lle bo amod trwydded yn ymwneud â chynnal darpariaeth ariannol wedi ei thorri, rhoddir rhybudd fel arfer. Os ar ôl cael rhybudd, nad yw'r methiant yn cael ei unioni ar unwaith bydd erlyniad fel arfer yn cael ei ddilyn.

**Methiant i Gofrestru Eithriad neu fel Brocer neu Gasglwr Proffesiynol, Cludydd neu Ddeliwr mewn Gwastraff**

6.2.21 Ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn erlyn am fethu â chofrestru eithriad o'r angen i ddal trwydded rheoli gwastraff. Rhybudd fydd yr ymateb priodol. Cyflwynir erlyniad dim ond mewn achosion eithriadol, e.e. methu â chofrestru dro ar ôl tro. Nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer methiant i gofrestru eithriadau o dan baragraffau 44 neu 45 Atodlen 3 o'r RhTRhG. Dylid ymdrin â'r rhain fel trosedd o dan Adran 33 DGA yn unol â'r canllawiau ar weithgareddau heb eu trwyddedu.

6.2.22 Bydd methu â chofrestru fel brocer gwastraff fel arfer yn arwain at rybudd ffurfiol. Ond bydd erlyniad fel arfer yn dilyn lle bo'r brocer:

(1) yn methu â dod yn gofrestredig ar ôl cael ei gynghori i gofrestru, neu

(2) wedi cyflawni gweithgareddau sydd wedi cyfrannu at, neu fod â'r potensial i gyfrannu at ddigwyddiad Categori 1 neu 2.

6.2.23 Ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn erlyn am fethu â chofrestru fel casglwr proffesiynol, cludwr, deliwr neu frocer gwastraff o dan Baragraff 12 Atodlen 4 o'r RhTRhG. Rhybudd fydd yr ymateb priodol. Bydd erlyniad yn cael ei ddilyn dim ond mewn achosion eithriadol, e.e. methiant dro ar ôl tro a pharhaus i gofrestru.

## Troseddau Gwastraff Arbennig

6.2.24 Yn ddarostyngedig i baragraff 6.2.25 bydd methu â rhoi gwybodaeth ymlaen llaw ynglŷn â symud gwastraff arbennig (lle nad oedd y methiant hwnnw wedi cael unrhyw effaith amgylcheddol nac unrhyw effaith amgylcheddol botensial) fel arfer yn arwain at rybudd. Bydd erlyniad yn cael ei ddilyn fel arfer lle bo methiant dro ar ôl tro i hysbysu ymlaen llaw ar ôl i rybudd gael ei roi, neu lle mae'r methiant wedi cyfrannu at, neu wedi bod â'r potensial i gyfrannu at ddigwyddiad Categori 1 neu 2.

6.2.25 Ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn cymryd unrhyw gamau gorfodol lle bo deiliad tŷ wedi methu ag anfon gwastraff asbestos oni bai bod y methiant hwn wedi cyfrannu at, neu wedi bod â'r potensial i gyfrannu at ddigwyddiad Categori 1 neu 2.

6.2.26 Ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn cymryd unrhyw gamau gorfodol am fethu ag anfon:

(1) gwastraff pecynnu wedi ei ddifwyno gyda gwastraff arbennig, oni bai ei bod yn bosibl cael o unrhyw becyn, drwy un o'r arferion a ddefnyddir yn gyffredin i symud deunydd o'r math hwnnw o becynnu h.y. tywallt, pwmpio, rinsio, allsugno, ysgwyd, crafu neu sgolpio sampl o wastraff arbennig o 0.1% w/w neu v/v fel sy'n briodol o uchafswm enwol cynnwys y pecyn, neu yn achos gwastraff arbennig sydd yn:

(a) wenwynllyd iawn, neu

(b) yn garsinogenig, Categori 1 neu 2 (noder nid categorïau CDDC).

0.01% o uchafswm nominal cynnwys w/w neu v/v fel y bo'n briodol.

Nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer gwastraff sy'n digwydd yn arbennig oherwydd nodwedd peryglus H3-A hynod fflamadwy. Felly lle bo'r pecynnu wedi ei ddifwyno gan hylif gwastraff y mae ei fflachbwynt yn llai na 21$^{o}$C, mae'r pecynnu yn wastraff arbennig.

(2) cerbydau sydd wedi cyrraedd diwedd oes a all gynnwys gwastraff arbennig a oedd yn angenrheidiol i weithredu'r cerbyd yn arferol a bod y cerbyd yn cael ei anfon i gyfleuster rheoli gwastraff wedi ei drwyddedu'n briodol neu eithriedig.

(3) y gwastraff penodedig canlynol (a all ffurfio rhan o gylch cludwyr cyn belled ag nad yw cyfanswm y gwastraff a gasglwyd ar y daith yn fwy na'r cyfansymiau a nodwyd isod):

- 5 litr neu lai o olew mwynol (heb ei ddifwyno gyda PCB neu PCT) pan anfonwyd ef i'w waredu

- 20 litr neu lai o olewau mwynol pan anfonwyd ef i'w adfer

- ffurf a nifer yr hidlenni olew cerbydau wedi eu defnyddio a restrir isod.

**HIDLYDDION OLEW WEDI EU DEFNYDDIO**

| | NIFER O HIDLYDDION YN CYNNWYS | |
|---|---|---|
| MATH | I'w waredu | I'w adfer |
| Wedi ei falu | 50 | 200 |
| Heb ei falu | 15 | 60 |

- llwythi yn cynnwys 5 neu lai o fatrïau cerbydau modur asid plwm

- hyd at 10kg o asbestos wedi ei bondio (heb gynnwys asbestos ffibraidd) cyhyd ag y bo'r gwastraff wedi ei lapio'n addas i atal difrod a ffibrau rhag dianc e.e. wedi ei fagio neu ei lapio a'i gywasgu a rhaid i'r cyfleuster y cymerir y gwastraff iddo fod â thrwydded rheoli gwastraff ddilys.

- nodwyddau sydd wedi eu defnyddio'n llawn sydd wedi eu difwyno gyda Moddion Presgripsiwn yn Unig cyn belled ag y bônt yn cael eu rheoli yn unol â Chanllawiau Iechyd a Diogelwch 'Gwaredu Gwastraff Clinigol yn Ddiogel' (1982, Diwygiwyd 1992) ac a waredir mewn cyfleuster wedi ei drwyddedu'n briodol.

Noder: nid yw olewau mwynau yn cynnwys dŵr wedi ei ddifwyno gan olew. Mae adferiad yma yn berthnasol dim ond i adfer yr olew ac nid at adfer unrhyw becynnu neu gynnyrch cysylltiedig e.e. nid yw'n berthnasol ar gyfer hidlyddion olew sy'n cael eu hanfon i adfer y metel. Diffinnir cerbyd modur fel "cerbyd wedi ei yrru yn

fecanyddol y bwriedir iddo neu a addaswyd i'w ddefnyddio ar ffyrdd".

Fel canllaw, mae 10 kg yn cyfateb i tua 1 ddalen gyffredin o do heb ei dorri, neu 1 bag asbestos safonol. Byddai asbestos wedi ei bondio yn cynnwys drysau tân, teils asbestos, sitenni a phaneli, gwresogyddion storio, wasieri yn cynnwys asbestos, seliau a gasgedi (wedi eu pecynnu'n briodol). Mae'n cynnwys achosion lle cesglir y gwastraff o leoliad lle mae wedi cael ei ollwng yn anghyfreithlon. (Os yw gwastraff wedi ei ollwng yn anghyfreithlon mewn cyfanswm sy'n fwy na 10 kg gall y gwastraff gael ei symud o hyd a'r gwaith papur priodol ei gwblhau yn ddioed, cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y digwyddiad); lle bo'r gwastraff wedi ei ddatgelu yn ystod gwaith heb ei gynllunio, e.e. gwaith trwsio mewn argyfwng neu bibelli wedi eu difrodi. Nid yw'n cynnwys cyfansymiau bychain wedi eu symud yn ddyddiol o'r un adeiladau er enghraifft wrth i adeiladwr/contractwr fod yn gweithio ar ddymchwel garej.

6.2.27 Yn ddarostyngedig i baragraffau 6.2.24 i 6.2.26, erlyniad fel arfer fydd y cam mwyaf priodol:

(1) am gam-ddefnydd eithafol o'r system anfon gwastraff e.e. cyfansymiau sylweddol o wastraff yn cael ei symud mewn rownd cludwyr estynedig, ail-ddefnyddio rhifau côd y nodyn anfon gwastraff, lle bo rownd casglu'r cludwr yn cymryd hwy na'r cyfnod penodedig, cam-ddisgrifio gwastraff yn arwain at ddigwyddiad Categori 1 neu 2 (neu botensial), neu

(2) lle bo gwastraff arbennig wedi ei anfon i safle na chaniateir iddo dderbyn gwastraff o'r fath a bod yr Asiantaeth wedi cynghori nad yw'r safle yn addas.

6.2.28 Lle bo nodyn anfon wedi ei gwblhau yn anghywir, e.e. bod côd post heb ei gynnwys neu yn anghywir, ac nad yw'r methiant hwnnw yn cael dim effaith amgylcheddol uniongyrchol, yna bydd y troseddwr yn cael ei rybuddio. Ar ôl rhybudd o'r fath, lle bo'r troseddwr yn ailadrodd y camgymeriad arbennig hwnnw, rhoddir ystyriaeth i rybudd ffurfiol. Os yw'r troseddwr yn ailadrodd y camgymeriad arbennig ar ôl i rybudd ffurfiol gael ei roi bydd yr achos fel arfer yn cael ei erlyn.

6.2.29 Bydd rhybuddion yn cael eu cyflwyno fel arfer mewn perthynas â symud gwastraff yn hwyr neu yn gynnar. Rhoddir ystyriaeth i rybudd ffurfiol lle bo gwastraff yn cael ei symud yn gynnar neu yn hwyr dro ar ôl tro. Pan fo trosedd yn cael ei hailadrodd ac yn barhaus rhoddir ystyriaeth i erlyniad. Cyflwynir erlyniad fel arfer lle bo gwastraff yn cael ei symud yn gynnar neu yn hwyr ar ôl i rybudd ffurfiol gael ei roi

(am symud gwastraff yn gynnar neu yn hwyr), neu lle mae'r methiant wedi cyfrannu at neu wedi bod â'r potensial i gyfrannu at ddigwyddiad Categori 1 neu 2.

**Gollwng gwastraff yn anghyfreithlon**

6.2.30 Erlyniad fydd y gweithredu arferol mewn achosion o ollwng gwastraff yn anghyfreithlon.

Noder: Mae'r Asiantaeth wedi cytuno ar brotocol ar gyfer gollwng gwastraff yn anghyfreithlon yn rhoi manylion (gan ddefnyddio matrics gollwng gwastraff yn anghyfreithlon) am ein hymateb arferol mewn perthynas â gollwng gwastraff. Mae'r matrics yn rhoi ymatebion arwyddol i ddigwyddiadau o ollwng gwastraff yn anghyfreithlon yn seiliedig ar ba fath o ddeunydd sydd wedi cael ei ollwng a sensitifrwydd y lleoliad y gollyngwyd y deunydd ynddo. Ond mae'r matrics yn nodi nad oes unrhyw beth i atal yr Asiantaeth rhag gweithredu mewn perthynas ag unrhyw wastraff sy'n cael ei ollwng yn anghyfreithlon y daw ar ei draws. Cafodd hyn ei ysgrifennu i mewn i'r matrics i sicrhau pan fo unrhyw swyddog wedi ei warantu yn tystio yn uniongyrchol i unrhyw wastraff sy'n cael ei ollwng yn anghyfreithlon (hyd yn oed gollwng gwastraff yn anghyfreithlon ar raddfa fechan) na fyddai'r Asiantaeth yn trosglwyddo'r achos i'r Awdurdod Lleol ond yn cymryd camau gorfodol ei hun. Felly y polisi gorfodaeth yw fod yr Asiantaeth yn erlyn pob achos o ollwng gwastraff yn anghyfreithlon ond ein polisi ymateb yw nad ydym fel arfer yn ymateb i rai digwyddiadau o ollwng gwastraff yn anghyfreithlon sydd ar raddfa fechan.

**Dyletswydd o Ofal**

6.2.31 Fel arfer bydd achos yn cael ei erlyn am droseddau o dan "dyletswydd o ofal" lle bo'r troseddau hynny yn gysylltiedig â, neu wedi cyfrannu at gyflawni troseddau eraill y byddai'r Asiantaeth yn erlyn yn eu cylch e.e. gollwng gwastraff yn anghyfreithlon, digwyddiadau Categori 1 neu 2 mewn safleoedd wedi eu trwyddedu.

6.2.32 Ni fydd yr Asiantaeth fel arfer yn cymryd unrhyw gamau o dan y ddyletswydd o ofal mewn perthynas â chwblhau nodiadau trosglwyddo gwastraff a chadw cofnodion cysylltiedig lle bo'r gwastraff dan sylw yn fetel sgrap, a

(1) mae'r metel sgrap yn annhebyg o achosi llygredd i'r amgylchedd neu ddifrod i iechyd dynol

(2) mae'r metel sgrap yn cael ei drosglwyddo i ddaliwr trwydded rheoli gwastraff priodol neu i un sydd wedi ei gofrestru fel un eithriedig o'r angen i fod â thrwydded o'r fath gyda'r Asiantaeth,

(3) nid yw cyfanswm y metel sgrap a drosglwyddwyd yn y gweithrediad

masnachol yn fwy na 1500 kg, a

(4) mae nodyn trosglwyddo yn cael ei gwblhau a'i arwyddo gan y sawl y trosglwyddir iddo a'r trosglwyddydd sy'n cynnwys:

(a) disgrifiad cywir o'r metel sgrap ac unrhyw wastraff arall sy'n gysylltiedig ag ef
(b) cyfanswm y gwastraff a sut mae'n cael ei gynnwys
(c) dyddiad, amser a'r lle trosglwyddo
(d) manylion llawn y sawl y trosglwyddir iddo
(e) enw a chyfeiriad y trosglwyddydd a rhif cofrestru'r cerbyd, fel y bo'n briodol.

**Cyfrifoldeb y Cynhyrchydd**

6.2.33 Lle bo'n ofynnol i berson gofrestru ei rwymedigaeth o dan Reoliadau Rhwymedigaeth Cyfrifoldeb y Cynhyrchwr (Pecynnu Gwastraff) 1997 (PRO (PW) R) ond wedi methu â gwneud hynny erbyn y dyddiad priodol cyflwynir erlyniad fel arfer lle bo:

(1) rhybudd neu rybudd ffurfiol wedi ei roi yn flaenorol mewn perthynas ag (neu mae'r person wedi ei erlyn yn flaenorol am) unrhyw drosedd o dan PRO (PW) R, a

(2) mae'r cynhyrchwr wedi ei hysbysu'n flaenorol o'r angen/angen tebygol i gofrestru, neu

(3) mae'r methiant i gofrestru wedi ei ddarganfod gan yr Asiantaeth (o'i gyferbynnu â'r methiant yn cael ei gyfaddef gan y cynhyrchwr sydd o dan rwymedigaeth).

6.2.34 Lle bo'n ofynnol i berson gofrestru rhwymedigaeth o dan PRO (PW) R ond wedi methu â gwneud hynny erbyn y dyddiad priodol, rhybudd ffurfiol fydd yr ymateb arferol lle bo:

(1) y cynhyrchydd yn cyflwyno ei hun yn wirfoddol, a

(2) nad yw'r achos yn perthyn i un o'r categorï au ym mharagraff 6.2.33 uchod.

6.2.35 Dylid defnyddio llythyrau rhybuddiol mewn perthynas â methiant i gofrestru rhwymedigaeth o dan PRO(PW)R dim ond lle bo amgylchiadau lliniaru eithriadol.

6.2.36 Lle bo person sydd o dan rwymedigaeth o dan PRO(PW)R wedi methu â chymryd camau rhesymol i adfer/ail-gylchu gwastraff pecynnu bydd yr achos fel arfer yn cael

ei erlyn.

6.2.37 Lle bo cynhyrchwr sydd o dan rwymedigaeth wedi methu â chyflwyno Tystysgrif Cydymffurfiad cydsyniol erbyn y dyddiad dyledus, bydd achos yn cael ei erlyn fel arfer lle bo rhybudd/rhybudd ffurfiol wedi ei gyhoeddi'n flaenorol mewn perthynas â (neu'r mae'r person wedi cael ei erlyn yn flaenorol am) unrhyw drosedd o dan PRO(PW)R.

6.2.38 Bydd rhybudd ffurfiol fel arfer yn cael ei roi lle bo methiant i gyflwyno Tystysgrif Cydymffurfiad cydsyniol erbyn y dyddiad dyledus a:

(1) bod y methiant hwnnw yn drosedd gyntaf o dan PRO(PW)R, a

(2) bod Tystysgrif o Gydymffurfiad cydsyniol yn cael ei darparu yn ddiweddarach.

6.2.39 Llythyr o rybudd fydd yr ymateb arferol am fethu â darparu Tystysgrif o Gydymffurfiad cydsyniol erbyn y dyddiad dyledus lle bo:

(1) y cynhyrchwr wedi ei gofrestru yn ôl y Rheoliadau

(2) y cynhyrchwr wedi cymryd camau rhesymol i gwrdd â'i oblygiadau o ran adfer ac ail-gylchu

(3) fod Tystysgrif o Gydymffurfiad cydsyniol yn cael ei darparu yn ddiweddarach, a

(4) fod y methiant hwnnw yn drosedd gyntaf o dan PRO(PW)R.

6.2.40 Mewn perthynas â chofrestriadau Grŵp (Rheoliad 29 a pharagraffau 6 a 7 Atodlen 8 o PRO(PW)R), dylai'r orfodaeth fod yn erbyn y cwmni dal.

6.2.41 Lle bo person yn rhoi gwybodaeth ffug gan wybod ei fod yn gwneud hynny neu yn gwneud hynny yn ddifater o dan PRO(PW)R, bydd yr achos yn cael ei erlyn fel rheol.

**Peidio â chydymffurfio â Rhybudd i symud Gwastraff**

6.2.42 Bydd erlyniad fel arfer yn cael ei gyflwyno am fethu â chydymffurfio â rhybudd i symud gwastraff.

**Symud Gwastraff ar draws Ffiniau**

6.2.43 Erlyniad fydd yr ymateb arferol i achosion o fewnforio neu allforio gwastraff hysbysadwy fel y diffinnir ef o fewn y Rheoliadau Symud Gwastraff ar draws Ffiniau 1994 (TFSWR) heb ganiatâd neu awdurdodiad yr Asiantaeth (p'run ai a oedd y methiant hwnnw wedi cael unrhyw effaith amgylcheddol gwirioneddol neu botensial ai peidio). Mae hyn yn cynnwys symud gwastraff sydd ar y rhestr werdd a ganfyddir yn ddiweddarach i fod yn wastraff rhestr ambr neu goch, neu wastraff heb ei ddosbarthu. Ym mhob achos o'r fath, y rhagdybiaeth hefyd fydd y bydd angen dychwelyd y gwastraff i'r cynhyrchydd.

6.2.44 Bydd erlyniad fel arfer yn cael ei gyflwyno mewn achosion lle bo dogfen TFSWR wedi ei hawdurdodi yn ei lle a:

(1) y bu symudiad o fewn y DG o wastraff TFSWR hysbysadwy heb sicrwydd ariannol yn unol ag Erthygl 27 o Reoliad 259/93 y GE neu

(2) bod symudiad o wastraff TFSWR hysbysadwy heb y dystysgrif o fodlonrwydd gyda'r sicrwydd ariannol sy'n ofynnol gan Reoliad 7 TFSWR, ond lle bo sicrwydd ariannol yn ei le, neu

(3) mae gwastraff wedi ei symud heb gydymffurfio â'r wybodaeth a gyflenwyd i gwrdd â gofynion Erthyglau 3 neu 6 Rheoliadau 259/93 y GE neu

(4) y bu cam-ddisgrifio ar y gwastraff, neu wastraff y tu allan i'r disgrifiad a awdurdodwyd a gyfrannodd neu oedd â'r potensial i gyfrannu at ddigwyddiad Categori 1 neu 2, neu

(5) y bu enghreifftiau dro ar ôl o gam-ddisgrifio'r gwastraff neu wastraff y tu allan i'r disgrifiad a awdurdodwyd, p'run ai a gyfrannodd at neu yr oedd â'r potensial i gyfrannu at ddigwyddiad Categori 1 neu 2 neu beidio,

(6) bu enghreifftiau dro ar ôl tro o beidio â chydymffurfio ag amod cludiant, neu

(7) mae gwastraff wedi ei gyflwyno i broses adfer neu waredu heblaw am yr un a ddisgrifiwyd yn yr awdurdodiad neu'r caniatâd, yn arbennig lle mae hyn hefyd yn arwain at dorri Cynllun Rheoli y DG ar gyfer Allforion a Mewnforion Gwastraff; neu

(8) lle bod tystysgrif o waredu neu adfer gwastraff yn cynnwys gwybodaeth ffug wedi ei chyflenwi, yn arbennig lle nad yw'r gwastraff wedi ei waredu neu ei adfer mewn gwirionedd, neu

(9) y bu methiant parhaus i gyflenwi tystysgrif o adfer neu waredu o fewn yr amserlen angenrheidiol hyd yn oed er bod y gwastraff wedi ei waredu neu ei adfer.

Lle bo troseddau yn gyfrifoldeb y sawl sy'n eu hysbysu, bydd hefyd ragdybiaeth i'w gwneud yn ofynnol i ddychwelyd y gwastraff.

6.2.45 Lle'r awgrymir ym mharagraff 6.2.44 y bydd troseddau sy'n cael eu cyflawni dro ar ôl tro fel arfer yn cael eu hystyried i'w herlyn, bydd y tro cyntaf y bydd trosedd o'r fath yn digwydd fel arfer yn arwain naill ai at rybudd ffurfiol neu rybudd.

6.2.46 Bydd symud gwastraff TFSWR heb dri diwrnod o rybudd ymlaen llaw, (ond lle bo symud y gwastraff fel arall yn unol â'r caniatâd neu'r awdurdodiad) fel arfer yn arwain at lythyr o rybudd. Bydd rhybudd ffurfiol fel arfer yn briodol lle bo methiant parhaus i roi hysbysiad ymlaen llaw digonol. Bydd achos yn cael ei erlyn fel arfer lle bo methiant parhaus ar ôl anfon rhybudd ffurfiol, neu lle mae'r methiant wedi cyfrannu at, neu wedi bod â'r potensial i gyfrannu at ddigwyddiad Categori 1 neu 2.

6.2.47 Bydd methiant parhaus i gwblhau'r ffurflen symud/tracio yn ddigonol (e.e. methiant i lenwi dyddiad y symud, cyfanswm y gwastraff neu'r cludwyr i'w defnyddio) lle nad yw'r methiant hwnnw yn cael effaith amgylcheddol uniongyrchol yn arwain at lythyr o rybudd. Lle bo'r troseddwr, ar ôl rhybudd o'r fath, yn ailadrodd y camgymeriad arbennig hwnnw, bydd rhybudd ffurfiol fel arfer yn cael ei roi. Os yw'r troseddwr yn ailadrodd y camgymeriad arbennig ar ôl i rybudd ffurfiol gael ei roi, bydd yr achos yn cael ei erlyn fel rheol.

6.2.48 Yn gyfochrog â pharagraffau 6.2.43 i 6.2.45 uchod, bydd hysbysiad ffurfiol (o dan Erthygl 28 (3) o Reoliad y GE 259/93) at yr hysbyswr i dynnu caniatâd yn ôl i'r drefn hysbysu gyffredinol ar gyfer dogfennau arbennig yn cael ei ystyried.

6.2.49 Bydd symud gwastraff, sy'n arwain at dorri Cynllun y DG ar gyfer Allforion a Mewnforion Gwastraff, fel arfer yn arwain at erlyniad, e.e. mewnforio gwastraff ar y rhestr werdd ar gyfer gwaredu neu allforio gwastraff heb fod yn beryglus i'w waredu. Mewn achosion o'r fath, bydd rhagdybiaeth hefyd i'w gwneud yn ofynnol i ddychwelyd y gwastraff.

6.2.50 Bydd symud gwastraff ar y rhestr werdd heb fod gwybodaeth i gyd-fynd ag ef sy'n ofynnol o dan Erthygl 11 o Reoliad 259/93 y GE fel arfer yn arwain at rybudd am y drosedd gyntaf. Os bydd symudiadau pellach yn digwydd heb y gwaith papur angenrheidiol, bydd rhybudd ffurfiol fel arfer yn cael ei roi. Os yw'r troseddwr yn ailadrodd y camgymeriad arbennig ar ôl i rybudd ffurfiol gael ei roi bydd yr achos yn cael ei erlyn fel rheol.

## 7. CAMAU GWEITHREDU GORFODAETH - RHEOLEIDDIO'R DIWYDIANNAU PROSESU (RhDP)

## 7.1 CAMAU GORFODAETH - LLE NA BU TROSEDD

**Amrywio/diddymu awdurdodiad**

7.1.1 Lle bo sefyllfa'n bodoli oherwydd diffyg yn y cais, neu oherwydd archwiliad, ei bod yn amlwg fod man gwan yn y rheolaeth wrth reoleiddio'r broses, sydd â'r potensial i achosi difrod i'r amgylchedd, yna gall yr Asiantaeth naill ai ddibynnu ar y cysyniad o BATNEEC gweddilliol neu osod amod newydd drwy amrywio'r awdurdodiad.

7.1.2 Ystyrir diddymu awdurdodiad fel arfer mewn achosion lle defnyddiwyd mesurau gorfodaeth eraill yn helaeth hyd nes bo'r Asiantaeth yn fodlon fod y gweithredydd yn methu â pharhau gyda'r broses yn unol ag amodau'r awdurdodiad.

### Rhybudd Gorfodaeth (Adran 13 DGA)

7.1.3 Bydd rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiad ag amodau awdurdodiad fel arfer yn cael eu rhoi yn y sefyllfaoedd canlynol:

(1) lle bo un neu fwy o amodau'r awdurdodiad wedi (neu yn debygol o gael) eu torri a bod torri'r awdurdodiad pe bai'n ddigwyddiad o dan CDDC yn (neu byddai â'r potensial o fod yn):

(a) ddigwyddiad Categori 1 neu 2
(b) ddigwyddiad Categori 3 a bod hanes o rybuddion ynghlwm wrtho

(2) lle bo'r amodau sy'n cael eu torri, neu sy'n debygol o gael eu torri, yn atal rheoleiddio effeithiol a bod rhybuddion blaenorol wedi eu rhoi, e.e. methiant i ddarparu data monitro, cynnal offer

7.1.4 Ni ddylai hysbysiad gorfodaeth gael ei dynnu'n ôl oni bai ei bod mewn rhyw fodd yn anghywir neu bod newid wedi bod yn yr amgylchiadau sy'n gwneud cyhoeddi'r rhybudd yn gwbl amhriodol.

### Rhybudd Gwahardd (Adran 14 DGA)

7.1.5 Bydd rhybudd gwahardd yn cael ei roi lle bo perygl agos o lygredd difrifol i'r amgylchedd. Fel arfer, byddai gweithrediadau prosesu a allai arwain at ddigwyddiad Categori A yn arwain at roi rhybudd gwahardd.

7.1.6 Bydd rhybudd gwahardd yn cael ei dynnu'n ôl cyn gynted ag y bo'r Asiantaeth yn fodlon fod y camau sy'n angenrheidiol gan y rhybudd wedi eu cyflawni.

## 7.2 GWEITHREDU GORFODAETH - TROSEDDAU

7.2.1 Mae Tabl 5 yn crynhoi'r prif droseddau RhDP, a'r camau gorfodol priodol ar gyfer pob un. Darperir canllawiau manwl pellach isod mewn perthynas â phob math o drosedd.

**Gweithredu heb Awdurdodiad**

7.2.2 Lle bo proses a ragnodwyd wedi ei hawdurdodi yn cael ei chyflawni heb awdurdodiad, bydd yr achos fel arfer yn cael ei erlyn. Am droseddau cyntaf heb effaith nac effaith botensial Categori 3 ynghlwm wrthynt, a ble y cyflwynir cais o fewn amserlen fer, rhoddir rhybudd ffurfiol fel arfer oni bai bod rhesymau arbennig am erlyniad, e.e. cydweithrediad gwael.

**Peidio â chydymffurfio ag un o amodau'r Awdurdodiad**

7.2.3 Lle bo torri'r awdurdodiad wedi achosi neu mae ganddo botensial i achosi effaith Categori 1 neu'r mae'r gweithredwr wedi dangos anwybyddu'r amodau yn yr awdurdodiad yn fwriadol neu yn ddifeddwl, gan gynnwys y rhai a awgrymir gan BATNEEC gweddilliol (e.e. gweithredu mewn dull difeddwl) yna bydd yr achos yn cael ei erlyn fel arfer.

7.2.4 Lle bo torri'r awdurdodiad wedi achosi neu fod ganddo'r potensial i achosi effaith Categori 2, yna yr ymateb arferol fydd erlyniad neu rybudd ffurfiol. Mae'r dewis yn dibynnu ar bwysau ffactorau eraill, e.e. cydweithrediad y troseddwr, gwaith i adfer y safle wedyn, neu hanes o droseddu. Bydd achos yn cael ei erlyn fel arfer lle bo rhybudd blaenorol neu rybudd ffurfiol wedi ei roi.

7.2.5 Lle bo torri'r awdurdodiad wedi cael dim effaith neu lle bo wedi achosi neu â'r potensial i achosi effaith Categori 3, yna llythyr o rybudd fydd yr ymateb arferol oni bai bod amgylchiadau eraill yn gwneud gweithredu cadarnach yn angenrheidiol, e.e. troseddu droeon, y gweithredwr yn amharod i gydweithredu, torri'r awdurdodiad yn fwriadol. Bydd yr achos yn cael ei erlyn fel arfer mewn perthynas â'r mathau hyn o dorri awdurdodiad lle mae'r gweithredwr wedi dangos hanes o beidio â chydymffurfio sy'n ddigon i godi cwestiwn ynglŷn â rheolaeth effeithiol y safle/gweithrediadau neu i atal rheoleiddio effeithiol gan yr Asiantaeth.

**Peidio â chydymffurfio a rhybudd Gorfodaeth neu Waharddiad**

7.2.6 Bydd achos yn cael ei erlyn lle bo gweithredwr yn methu â chydymffurfio â Rhybudd Gorfodaeth neu Rybudd Gwaharddiad. Mewn amgylchiadau eithriadol gall gweithredu gael estyniad i hysbysiad gorfodaeth lle bo amgylchiadau y tu allan i'w reolaeth.

## 8. GWEITHREDU GORFODAETH - SYLWEDDAU YMBELYDROL (DSY)

**8.1 GWEITHREDU GORFODAETH - LLE NA BU TROSEDD**

## Rhybudd Gorfodaeth (A21 Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 (DSY))

8.1.1 Bydd rhybudd yn gofyn am gamau i gael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiad ag amodau awdurdodiad fel arfer yn cael ei roi yn y sefyllfaoedd canlynol:

(1) lle bo un neu fwy o amodau'r awdurdodiad wedi (neu yn debygol o gael) eu torri a byddai torri'r awdurdodiad pe bai yn ddigwyddiad o dan CDDC, yn (neu byddai ganddo'r potensial i fod yn):

(a) ddigwyddiad Categori 1 neu 2
(b) ddigwyddiad Categori 3 a bod hanes o roi rhybuddion

(2) lle mae'r amodau sy'n cael eu torri, neu'n debygol o gael eu torri, yn atal rheoliad effeithiol a bod rhybuddion blaenorol wedi eu rhoi, e.e. methu darparu data monitro, cynnal offer.

## Rhybudd Gwahardd (A22 DSY)

8.1.2 Bydd rhybudd gwaharddiad fel arfer yn cael ei roi lle bo perygl gwirioneddol neu debygol o effaith Categori 1.

8.1.3 Bydd rhybudd gwaharddiad yn cael ei dynnu'n ôl cyn gynted ag y bo'r Asiantaeth yn fodlon y cydymffurfiwyd â'r camau sy'n ofynnol gan y rhybudd.

**8.2 GWEITHREDU GORFODAETH - TROSEDDAU**

8.2.1 Mae Tabl 6 yn crynhoi'r prif droseddau a'r camau gorfodaeth priodol ar gyfer pob un. Darperir canllawiau manwl pellach isod.

## Gweithredu heb Gofrestriad a/neu Awdurdodiad

8.2.2 Bydd cadw a defnyddio sylwedd ymbelydrol neu offer ymbelydrol symudol heb gofrestriad perthnasol neu waredu gwastraff ymbelydrol heb awdurdodiad perthnasol fel arfer yn arwain at erlyniad. Ond lle bo gwarediad yn digwydd heb awdurdodiad o dan A14 (1) DSY i eiddo sydd ag awdurdodiad o dan A14 (3) DSY, bydd rhybudd fel arfer yn cael ei roi ynghyd â gofyniad i ymgeisio am awdurdodiad ar gyfer gwaredu gwastraff yn y dyfodol. Bydd achos fel arfer yn cael ei erlyn am unrhyw ddigwyddiadau tebyg ar ôl hyn.

8.2.3 Bydd rhybudd ffurfiol yn fwy priodol am droseddau cyntaf yn ymwneud â dim effaith neu effaith Categori 3 neu effaith botensial a lle bo cais yn cael ei gyflwyno o fewn amserlen fer. Ond os oes arwydd pendant o fwriad i dwyllo, neu

gydweithrediad gwael, erlyniad fydd yr ymateb arferol.

8.2.4 Mae methu â chydymffurfio ag eithriad o dan DSY neu orchymyn eithrio o dan y Ddeddf honno yn drosedd o fethu â gweithredu heb gofrestriad/ awdurdodiad a dylid ymdrin â hyn yn unol â pharagraffau 8.2.2 ac 8.2.3 uchod.

**Peidio â chydymffurfio ag amod mewn Cofrestriad neu Awdurdodiad**

8.2.5 Lle bo gan y tor-amod hwn effaith wirioneddol neu effaith botensial Categori 1, yna bydd yr achos yn cael ei erlyn fel arfer.

8.2.6 Lle bo gan y tor-amod neu'r cofrestriad effaith gwirioneddol neu effaith botensial Categori 2, yna cyflwynir erlyniad neu rybudd ffurfiol fel arfer; mae hyn yn arbennig o wir lle bo ffynhonnell gaeëdig sylweddol wedi ei cholli ac y cymerir, ymysg pethau eraill, ei bod wedi ei gwaredu yn groes i Orchymyn Eithriad Ffynonellau Gwastraff Caeëdig. Bydd y dewis o weithredu rhwng rhybudd ffurfiol ac erlyniad yn dibynnu ar bwysau ffactorau eraill, e.e. cydweithrediad y troseddwr, gwaith yn dilyn yr adferiad neu hanes o droseddu. Mewn achosion lle:

(1) bo'r tor-amod wedi digwydd yn fwriadol a'i fod felly yn torri'r ddeddf yn enbyd, neu

(2) fod canlyniadau'r hyn a wnaed gan y gweithredwr, neu na wnaeth ei wneud, yn weddol rhwydd i'w rhagweld, neu

(3) bod peidio â chydymffurfio droeon wedi digwydd ag amod mewn cofrestriad neu awdurdodiad

bydd yr achos fel arfer yn cael ei erlyn.

8.2.7 Lle bo torri amod mewn cofrestriad neu awdurdodiad wedi digwydd ac wedi arwain at ddim effaith neu effaith neu effaith botensial Categori 3, yna'r ymateb arferol fydd anfon llythyr o rybudd oni bai bod ffactorau eraill yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu yn gadarnach, e.e. trosedd sy'n cael ei hailadrodd, y troseddwr yn amharod i gydweithredu. Bydd achos yn cael ei erlyn fel arfer mewn perthynas â'r mathau hynny o dor-amod lle bo'r gweithredwr wedi dangos hanes o beidio â chydymffurfio sy'n ddigonol i godi amheuaeth ynglŷn â rheolaeth effeithiol y safle/gweithrediadau neu i atal rheoleiddio effeithiol gan yr Asiantaeth.

**Peidio â chydymffurfio â Rhybudd Gorfodaeth neu Waharddiad**

8.2.8 Bydd achos yn cael ei erlyn fel arfer lle bo gweithredwr yn methu â chydymffurfio â Rhybudd Gorfodaeth neu Rybudd Gwahardd. Mewn amgylchiadau eithriadol gall

gweithredwr geisio ymestyn Rhybudd Gorfodaeth lle ceir amgylchiadau sydd y tu allan i'w reolaeth.

***[NODER:***

*Mae canllawiau ynglŷn â gorfodaeth yn cael/byddant yn cael eu datblygu mewn perthynas â nifer o weithgareddau rheoleiddio eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:*

- *Atal a Rheoli Llygredd Integredig*
- *Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr*
- *Ansawdd Tir*
- *Rheoliadau Elifiant Masnachol*
- \- *Symud Sylweddau Ymbelydrol ar draws Ffiniau]*

# TABLAU - GWARCHOD YR AMGYLCHEDD
# ALLWEDD I DALFYRIADAU

**DEDDFAU**

| | |
|---|---|
| DALlO | Deddf Atal Llygredd Olew 1971 |
| DCE | Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 |
| DPEDC | Deddf Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw 1975 |
| DRhLl(d) | Deddf Rheoli Llygredd (Diwygiad) 1989 |
| DGA | Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 |
| DDD | Deddf Diwydiant Dŵr 1991 |
| DAD | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 |
| DSY | Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 |
| DA | Deddf yr Amgylchedd 1995 |
| DLlM | Deddf Llongau Masnach 1995 |

**RHEOLIADAU**

| | |
|---|---|
| RhRhLl(SSOTA) | Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991 (OS 1991/324) |
| RhGA(DO) | Rheoliadau Gwarchod yr Amgylchedd (Dyletswydd o Ofal) 1991 (OS 1991/2839) |
| RhCGDFf | Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau 1994 (OS 1994/1137) |
| RhTRhG | Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994 (OS 1994/1056) |
| RhGA | Rheoliadau Gwastraff Arbennig 1996 (OS 1996/972) |
| RhRhCC(PG) | Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb y Cynhyrchwr (Pecynnu Gwastraff) 1997 (OS 1997/648) |
| RhDD | Rheoliadau Dŵr Daear 1998 (OS 1998/2746) |
| RhRhWCFN | Rheoliadau Rhaglen Weithredu Cylchfaoedd dan Fygythiad Nitradau (Cymru a Lloegr) 1998 (OS 1998/1202) |
| RhRhPBD | Rheoliadau Rheoli Prif Beryglon Damweiniau 1999 (OS 1999/743) |

**TABL 1**

# CRYNODEB O BWERAU GORFODAETH LLE NA BU TROSEDD

## ANSAWDD DWR

| | PWER | CYFEIRNOD STATUDOL |
|---|---|---|
| 1 | RHYBUDD GORFODAETH<br>- Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio ag amodau caniatâd arllwys | A90B DAD |
| 2 | PWERAU GWEITHFEYDD<br>- Pŵer i gyflawni gwaith gwrth-lygredd, lle bo angen ei gyflawni yn ddioed lle nad oes rhywun i roi rhybudd gweithfeydd iddo | A161 DAD |
| 3 | RHYBUDD GORFODAETH<br>Rhybudd yn gwahardd:<br>- arllwys mater (heblaw elifiant masnach neu garthffosiaeth) i ddyfroedd rheoledig o ddraen neu garthffos<br>- arllwys elifiant masnach neu garthffosiaeth ar neu i unrhyw dir o adeilad neu offer sefydlog. | A 85, 86 & 89(5) DAD |
| 4 | RHYBUDD GWEITHFEYDD<br>- Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflawni gwaith gwrth-lygredd. | A161A-D DAD |
| 5 | Rhybuddion o dan y Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991 | RhL (SSAFO)R.<br>A92 DAD |
| 6 | RHYBUDD DWR DAEAR Rhybudd yn gwahardd cyflawni unrhyw weithgaredd a allai arwain at arllwys sylweddau Rhestr I yn anfwriadol i ddŵr daear neu lygru dŵr daear o arllwysiad sylweddau Rhestr II yn anuniongyrchol. | Rheol. 19 RhDD |
| 7 | Rhybuddion mewn Cylchfaoedd Gwarchod Dŵr | A93 DAD |
| 8 | Rhybuddion mewn Ardaloedd Sensitif o ran Nitradau | A94 DAD |
| 9 | Rhybuddion mewn Cylchfaoedd o dan Fygythiad Nitradau | RhCFN |

## GWASTRAFF

| | | |
|---|---|---|

| | PWER | CYFEIRNOD STATUDOL |
|---|---|---|
| 10 | RHYBUDD GORFODAETH<br>- Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i adfer neu atal peidio â chydymffurfio ag amodau trwydded rheoli gwastraff.<br>Rhybudd yn diddymu, yn diddymu'n rhannol neu yn atal y gweithgareddau a awdurdodwyd gan drwydded rheoli gwastraff | A42(5)DGA |
| 11 | RHYBUDD I SYMUD GWASTRAFF<br>- Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i symud gwastraff a ollyngwyd yn anghyfreithlon | A59DGA |
| 12 | SYMUD GWASTRAFF<br>- Pŵer i symud gwastraff a ollyngwyd yn anghyfreithlon a chael y costau yn ôl | A59 DGA |
| 13 | Gwaith ar safle wedi ei drwyddedu mewn argyfwng | A59(3) DGA |
| 14 | Newid, Atal neu Ddiddymu Trwydded Rheoli Gwastraff | A 37 a 38 DGA<br>A42 DGA |

**PIR**

| | PWER | CYFEIRNOD STATUDOL |
|---|---|---|
| 15 | RHYBUDD GORFODAETH<br>- Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio ag amodau awdurdodiad | A13 DGA |
| 16 | RHYBUDD GWAHARDDIAD<br>- Rhybudd mewn perthynas â phroses wedi ei hawdurdodi, yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i symud risg dioed o lygredd difrifol i'r amgylchedd | A14 DGA |

**DSY**

| | PWER | CYFEIRNOD STATUDOL |
|---|---|---|
| 17 | RHYBUDD GORFODAETH<br>- Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chyfyngiad neu amod cofrestriad neu awdurdodiad | A21 DSY |
| 18 | RHYBUDD GWAHARDDIAD<br>- Rhybudd mewn perthynas â gweithgareddau wedi eu cofrestru neu wedi ei hawdurdodi, yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i symud risg o lygredd i'r amgylchedd neu niwed i iechyd dynol | A22 DSY |

**TABL 2**

## TROSEDDAU CYFFREDIN I'R HOLL SWYDDOGAETHAU GWARCHOD YR AMGYLCHEDD

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 1 | Rhwystro rhywun gydag awdurdod | A110(1) DA | Gwarant i gael mynediad i eiddo | Erlyniad |
| 2 | Methu â chydymffurfio â gofyniad a roddwyd o dan A108 | A110(2)(a) DA | | Erlyniad |
| 3 | Personoli rhywun gydag awdurdod | A110(3) DA | Cynghori Swyddogion ac Eraill | Erlyniad |
| 4 | Methu ag ateb cwestiynau | A108(4)(j) a 110(2)(a) a (b) DA | | Erlyniad |
| 5 | Methu â rhoi samplau ac ati | A108(4)(f) a 110(2)(a) a (b) DA | Cael samplau Gwaharddeb | Erlyniad |
| 6 | Methu â darparu gwybodaeth berthnasol | A108(4)(j) a (k) a 110(2)(a) a (b) DA<br>A19(2) a 23(1)(g) DGA. | Cael gwybodaeth Gwaharddeb | Erlyniad |
| 7 | Atal rhywun arall rhag ymddangos o flaen ... neu ateb cwestiynau | A110(2)(c) DA | Gwaharddeb | Erlyniad |
| 8 | Gwneud datganiad ffug a/neu gofnod | A119 ac Atodlen 19 [ar gyfer DRhLl, DRhLl(D), DGA, DAD ac DSY]<br>A23 (1)(i) DGA | | Erlyniad |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 9 | Methu â thalu tâl cynhaliaeth am drwydded amgylcheddol | A41(6) DA [a OS 1996 Rhif 508] | | Trefn adfer dyledion<br>Achos sifil<br>Atal/diddymu trwydded<br>. |
| 10 | Aflonyddu, codi ofn a braw | A4 ac A5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 | | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol |

**TABL 3**

## TROSEDDAU RHEOLI LLYGREDD DWR

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 1 | Achosi neu ganiatau yn fwriadol i ddeunydd sy'n llygru ac ati fynd i mewn i unrhyw Ddyfroedd Rheoledig | A85(1) DAD | Rhybudd gweithfeydd. Cyflawni gwaith ac adfer costau | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 2 | Achosi neu ganiatau yn fwriadol arllwys o ddraen/carthffos - elifiant heblaw elifiant masnach neu garthffosiaeth - i Ddyfroedd Rheoledig yn groes i rybudd gwahardd | A85(2) ac 86(1) (2), DAD | Cynghori'r sawl sy'n arllwys i wneud cais am ganiatâd Gorfodi caniatâd. | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol Rhybudd |
| 3 | Achosi neu ganiatau yn fwriadol i elifiant masnach/carthffosiaeth gael ei arllwys, i Ddyfroedd Rheoledig neu o dir drwy bibell y tu allan i'r ffin atfor [caniatâd w/o] | A85(3) DAD | Cynghori'r sawl sy'n arllwys i wneud cais am ganiatâd. Gorfodi caniatâd. | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ |
| 4 | Achosi neu ganiatau yn fwriadol i elifiant masnach/carthffosiaeth gael ei arllwys, yn groes i waharddiad A86 o adeilad neu offer sefydlog ar/i dir neu i lyn neu bwll nad ydynt yn ddyfroedd croyw mewndirol [heb ganiatâd ]<br>NODER: Ar gyfer cychod - cyfeiriwch at Ddeddfau lleol neu is-ddeddfau | A85(4) ac 86(1) (2), DAD | Cynghori'r sawl sy'n arllwys i wneud cais am ganiatâd. Gorfodi caniatâd. | Rhybudd Ffurfiol/ |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 5 | Achosi neu ganiatau yn fwriadol i unrhyw ddeunydd arafu ... llif priodol .. arwain at/fod yn debygol o arwain at waethygu'r llygredd | A85(5) DAD | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 6 | Symud dyddodion a achosir gan argae ac ati, o ddyfroedd croyw heb ganiatâd, drwy beri i'r dyddodiad gael ei gludo ymaith mewn daliant | A90(1) DAD | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 7 | Methiant heb ganiatâd i gymryd camau rhesymol i symud llystyfiant mewn dyfroedd croyw y mae [ef] yn achosi iddo gael.. ei dorri, ei ddadwreiddio neu i syrthio i'r dyfroedd | A90(2) DAD | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 8 | Torri amodau caniatâd | A 85 (6) A90 (1) a (2) DAD | Rhybudd Gorfodaeth | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 9 | Methu â chydymffurfio â gofyniad a wnaed gan rybudd gorfodaeth wedi ei roi o dan A90B(1) | A90B (3) DAD | | Erlyniad |
| 10 | Methu â chydymffurfio â gofyniad a wnaed gan rybudd gwaith wedi ei roi o dan A161A | A161D(1) DAD | Cyflawni gwaith ac adfer costau | Erlyniad |
| 11 | Gwneud datganiad ffug yn fwriadol .. wrth roi | A206(1) DAD | | Erlyniad |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| | gwybodaeth neu wneud cais | | | |
| 12 | Rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol mewn unrhyw gofnod sy'n angenrheidiol mewn caniatâd | A206(3A) DAD | | Erlyniad |
| 13 | Methu â rhoi chwe mis o rybudd o unrhyw fwriad i adael mwynglawdd | A91B (3) DAD | | Rhybudd Ffurfiol/ |
| 14 | Methu â darparu gwybodaeth .. a nodwyd mewn rhybudd A202(2) | A202(4) DAD | | Erlyniad |
| 15 | [Daliwr] yn methu â rhoi rhybudd am drosglwyddo caniatâd | Atodlen 10, para 11(9) DAD | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 16 | [Ymgymerwr Dŵr] yn arllwys o dan DDD A165 drwy bibell >229 mm o ddiamedr heb ganiatâd [DDD] | A165 ac A166(1) a (8) DDD | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 17 | Methu â chydymffurfio â chaniatâd a roddwyd i bwrpas A166 Deddf Diwydiant Dŵr | A166(8) DDD | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ |
| 18 | [Ymgymerwr Dŵr] yn methu â chymryd .. camau i sicrhau nad yw dŵr sy'n cael ei arllwys o dan A165 DDD yn llygru ac ati ... | A165(3) DDD | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 19 | [Ymgymerwr carthffosiaeth] heb gyfeirio at yr Asiantaeth | A120 DDD<br>Atodlen 22, para 104 DA | Symud ymlaen fel pe bai cyfeiriad wedi ei wneud. | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 20 | [Ymgymerwr carthffosiaeth] yn methu ag ymarfer pwerau [a ddarparwyd gan rybudd DDD A132] | A133 DDD<br>Atodlen 22, para 111 DA | Diddymu caniatâd T.E. | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 21 | Arllwys [gydag elifiant masnach i garthffos gyhoeddus] elifiant categori arbennig heb ganiatâd | A118(5) a 211 DDD | Hysbysu Ymgymerwr Carthffosiaeth | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol |
| 22 | Troseddau o dan y Ddeddf Gwahardd Llygredd Olew 1971 neu<br>Deddf Llongau Masnach 1995 | Deddf Gwahardd Llygredd Olew 1971<br>Deddf Llongau Masnach 1995 | Hysbysu Awdurdod yr Harbwr | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol (gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol)/ Rhybudd |
| 23 | Ymyrryd â gwaith yr Asiantaeth | A176(1) a (3), DAD | Atal ymyrraeth os yn bosibl | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 24 | Achosi neu ganiatau yn fwriadol i unrhyw ddyfroedd fod yn wenwynllyd neu yn niweidiol i bysgod, grifft neu fwyd i bysgod | A4 DPEDC | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 25 | Methu â gwneud a storio silwair yn unol â'r rheoliadau | A92 a 219(2), DAD<br>Rheol. 3 RhRhLl(SSOTA) | Rhybudd Gweithfeydd o dan Reoliadau Fferm | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 26 | Methu â bod â gwarchodaeth neu reolaeth ar silwair yn unol â'r Rheoliadau | A92 a 219, DAD<br>Rheol. 4 RhRhLl(SSOTA) | Rhybudd Gweithfeydd o dan Reoliadau | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB ARFEROL I’R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| | | | Fferm | Rhybudd |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 27<br>` | Methu â bod â gwarchodaeth neu reolaeth ar olew tanwydd yn unol â'r Rheoliadau | A92 a 219(2), DAD Rheol. 5 RhRhLl(SSOTA) | Rhybudd gweithfeydd<br>o dan RhRhLl (SSOTA) | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 28 | Methu â hysbysu ynghylch defnyddio cyfleusterau storio | A92 a 219(2), DAD Rheol. 11 RhRhLl(SSOTA) neu A161A DAD | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 29 | Torri Rhybudd Gweithfeydd o dan Reoliad 9(1) Rheol. RhRhLl(SSOTA). | | | Erlyniad |
| 30 | Methu â chydymffurfio â gofyniad i weithredu rhaglen weithredu | Rheol. 8(1) RhGCFN | Rhaglen Weithredu o dan Reoliad 3 | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 31 | Methu â chydymffurfio â rhybudd gorfodaeth | Rheol. 8(1) RhGCFN | Rhybudd Gorfodaeth o dan Reoliad 4 | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 32 | Methu â chydymffurfio â gofyniad i ganiatau awdurdod gorfodaeth i fonitro gweithredu rhaglen weithredu neu i asesu ei effeithiolrwydd i gwtogi ar lygredd dŵr neu i gynhyrchu pa bynnag ddogfennau neu gofnodion i'w harchwilio ag a fydd yn angenrheidiol | Rheol. 8(2) RhGCFN | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODO L | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 33 | Achosi neu ganiatau yn fwriadol waredu neu ollwng i bwrpas gwaredu unrhyw sylwedd Rhestr 1 neu 2 a allai arwain at arllwysiad anuniongyrchol o'r sylweddau hynny i dd r daear | Rheol. 14(1)(a)(i) RhDD (A85 DAD) | Awdurdodiad o dan Reoliad 18 | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 34 | Achosi neu ganiatau yn fwriadol i unrhyw weithgaredd gael ei gyflawni yn groes i rybudd gwahardd | Rheol. 14(1)(a)(ii) RhDD (A85 DAD) | Rhybudd Gwaharddiad o dan Reoliad 19 | Erlyniad |
| 35 | Torri amodau unrhyw awdurdodiad o dan Reoliad 18 neu 19 o'r RhDD. | Rheoliad 14(1)(b) | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ |
| 36 | Troseddau llygredd amrywiol. Gan gynnwys pwerau lleol i reoli arllwysiadau o gychod ac ati. | Deddfau Lleol ac Is-ddeddfau | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

**TABL 4**

## TROSEDDAU GWASTRAFF

### Gwaredu gwastraff

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL . | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 1 | Gollwng gwastraff wedi ei reoli ar dir heb drwydded | A 33(1)(a) a 59(1) DGA | Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i symud gwastraff (A59)<br>Symud gwastraff ac adfer costau | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol |
| 2 | Trin, cadw neu waredu gwastraff rheoledig heb drwydded | A33(1)(b)DGA | Symud gwastraff ac adfer costau | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol |
| 3 | Trin, cadw neu waredu gwastraff rheoledig mewn dull sy'n debygol o lygru neu wneud niwed i iechyd dynol | A33(1)(c) a 59(1)DGA | Rhoi rhybudd o ofyniad i symud gwastraff (A59)<br>Symud gwastraff ac adfer costau<br>Atal neu ddiddymu'r drwydded, yn rhannol neu yn llawn | Erlyniad |
| 4 | Parhau â gweithgaredd eithriedig heb fod wedi cofrestru | Rheol. 18 RhGCFN | Gofyn am gofrestriad | Rhybudd |
| 5 | Gollwng gwastraff o gerbyd heb drwydded | A33(5) DGA | Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i symud gwastraff (A59)<br>Symud gwastraff ac adfer costau | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 6 | Torri amod trwydded | A 33(6) a 42(5) DGA | Rhybudd Gorfodaeth | Erlyniad/ Rhybudd |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL . | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| | | | | Ffurfiol/ Rhybudd |
| 7 | Ffugio trwydded neu gofnod o dan drwydded | A35(7B) DGA | | Erlyniad |
| 8 | Methu â chyflawni mesurau ychwanegol yn dilyn ataliad | A 38(10), (11) ac (13) DGA | Gwaharddeb | Erlyniad |
| 9 | Methu â chydymffurfio â gofyniad o dan A38(9) yn dilyn atal trwydded am fethu â chydymffurfio â rhybudd A38(6) | A42(6) a (6)A<br>A 33(8) a (12) DGA | Rhybudd<br>Gwaharddeb | Erlyniad |
| 10 | Gwneud datganiad neu gofnod ffug | A44 DGA | | Erlyniad |
| 11 | Methu â chydymffurfio â rhybudd gan yr Ysg. Gwladol | A57(5) DGA | | Erlyniad |
| 12 | Methu â symud gwastraff ar ôl rhybudd | A59 DGA | Symud gwastraff ac adfer costau | Erlyniad |
| 13 | Ymyrryd â safleoedd/derbynwyr gwastraff | A60 DGA | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 14 | Methu â darparu gwybodaeth | A71 (2) a (3) DGA | | Erlyniad |

**Cludo gwastraff**

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL .. | YMATEB YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 15 | Cludo gwastraff heb gofrestru | A1 DRhLl(D) | Gofyn am gais am gofrestru | Erlyniad Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 16 | Methu â chynhyrchu cofrestriad cludwr | A5(3) DRhLl(D) | | Erlyniad Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 17 | Rhwystro swyddog | A5(4) DRhLl(D) | | Erlyniad |
| 18 | Methu â darparu gwybodaeth | A7(1) a (3) DRhLl(D A71 DGA | | Erlyniad |
| 19 | Trosedd gan rywun arall | A7(5) DRhLl(D) | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ |
| 20 | Trosedd gan 'reolwr' | A7(6) DRhLl(D) | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

**Dyletswydd o ofal**

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 21 | Methu mewn Dyletswydd o Ofal (A34) | A34(6) DGA | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 22 | Methu â chodi nodyn trosglwyddo | A 34(5) a (6) DGA<br>Rheol. 3 RhGA(DO) | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 23 | Methu â chadw cofnodion | A 34(5) a (6) DGA<br>Rheol. 3 RhGA(DO) | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 24 | Methu â dangos dogfennau | A 34(5) a (6) DGA<br>Rheol. 4 RhGA(DO) | | Erlyniad |

**Gwastraff arbennig**

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 25 | Methu â chydymffurfio â rheoliadau Gwastraff Arbennig | A62 DGA<br>Rheol. 18(1) RhGA | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 26 | Darparu datganiad neu gofnod ffug | A62 DGA<br>Rheol. 18(3) RhGA | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 27 | Gwneud cofnod ffug | A62 DGA<br>Rheol. 18(4) RhGA | | Erlyniad |
| 28 | Methu â thalu ffi | A62 DGA<br>Rheol. 14(3)ac 18(1) RhGA | Cael y ffi yn ôl | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

**Cyfrifoldeb y cynhyrchwr**

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 29 | Methu â chofrestru | Rheol. 3(5)a a 34(1)a RhRhCC(PG) | Gofyn am gais am gofrestru | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 30 | Methu â chael gwastraff pecynnu yn ôl | Rheol. 3(5)(b)(i) a 34(1)b RhRhCC(PG) | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 31 | Methu â darparu tystysgrif o gydymffurfiad | Rheol. 3(5)(b)(ii) a 34(1)c RhRhCC(PG) | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 32 | Darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol | Rheol. 34(3) RhRhCC(PG) RhRhCC(PG) | | Erlyniad |
| 33 | Rhwystro swyddog | Rheol. 34(4) RhRhCC(PG) RhRhCC(PG) | | Erlyniad |

**Cludo ar draws ffiniau**

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 34 | Methu â chydymffurfio â Phrif Reoliad | A2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972<br>A2, 3 a 9 DRhLl(D<br>A74(6) DGA<br>Rheol. 12(1) a (2) | Dychwelyd y gwastraff | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| | | RhCGDFf | | |
| 35 | Methu ag anfon tystysgrif o waredu neu adfer, ac ati ... | Rheol. 12(3) RhCGDFf | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 36 | Symud heb dystysgrif o dan Reoliad 7 | Rheol. 12(4) RhCGDFf | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 37 | Cyflenwi gwybodaeth ffug i gael tystysgrif o dan Reoliad 7 | Rheol. 12(5) RhCGDFf | | Erlyniad |
| 38 | Cymysgu gwastraff sy'n destun hysbysiadau gwahanol wrth eu symud | Rheol. 12(6) RhCGDFf | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 39 | Symud gwastraff heb fod wedi llunio cytundeb priodol gyda'r derbynnydd | Rheol. 12(7) RhCGDFf | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 40 | Methu ag anfon yr wybodaeth angenrheidiol gyda'r gwastraff | Rheol. 12(8) RhCGDFf | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 41 | Methu â chydymffurfio â rhybudd o dan Reol. 8(2) neu 9(2) | Rheol. 12(9) RhCGDFf | | Erlyniad |
| 42 | Rhwystro person awdurdodedig neu swyddog tollau | Rheol. 12(10) RhCGDFf | | Erlyniad |

**Brocio**

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 43 | Gweithredu fel brocer gwastraff heb gofrestriad (gan gynnwys troseddau gan reolwyr) | RHAN II DGA Rheol. 20(1) RhTRhG | Gofyn am gais am gofrestru | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

**Gwastraff heb ei reoli**

| | | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 44 | Gollwng gwastraff heb ei reoli yn anghyfreithlon | A120(1), (3) Atodlen 22 Para 79, Atodlen 24 DA | Symud gwastraff ac adfer costau | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

**Cofrestru casglwyr (proffesiynol) a chludwyr a chan ddelwyr a brocerau**

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHOD-OL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 45 | Methu â chofrestru | RhTRhG, Atodlen 4 paragraff 12 | Gofyn am gofrestriad | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

**TABL 5**

## TROSEDDAU DIWYDIANNAU PROSESU

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 1 | Cyflawni proses benodol heb awdurdodiad | A6(1) a 23(1)(a) DGA<br>Rheoliadau Prosesau Penodol 1991 | Adfer y niwed ac adfer costau (a.27)<br>Gorchymyn A26 (Llys yn unig) | Rhybudd Ffurfiol/ |
| 2 | Cyflawni proses ... heb fod yn unol ag awdurdodiad<br>(gan gynnwys methu â chydymffurfio â BATNEEC). | A6(1) neu 7(4) a 23(1)(a) DGA | Rhybudd Gorfodaeth<br>Rhybudd Gwaharddiad<br>Gosod amod newydd<br>Gorchymyn A26 (Llys yn unig)<br>Diddymu Awdurdodiad<br>Gwaharddeb | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 3 | Methu â chydymffurfio â rhybudd gwaharddiad | A14 a 23(1)(c) DGA. | Gwaharddeb A24<br>Gorchymyn A26 (Llys yn unig)<br>Diddymu Awdurdodiad | Erlyniad |
| 4 | Methu â chydymffurfio â rhybudd gorfodaeth | A13 a 23(1)(c) DGA. | Adfer y niwed ac adfer costau<br>Gwaharddeb A24<br>Gorchymyn A26 (Llys yn unig)<br>Diddymu Awdurdodiad | Erlyniad |
| 5 | Methu â rhoi rhybudd am newid perchennog | A9(2) a 23(1)(b) DGA. | Cysylltu â'r perchennog newydd<br>Diddymu Awdurdodiad | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 6 | Gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol yn fwriadol | A23(1)(h) DGA | | Erlyniad |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Ffugio neu ddefnyddio dogfen yn fwriadol i dwyllo neu gyda'r tebygrwydd o dwyllo | A23(1)(j) DGA | Diddymu Awdurdodiad | Erlyniad |
| 8 | Methu â chydymffurfio â gorchymyn llys o dan A26 | A26 & 23(1)(l) | | Erlyniad (Llys yn unig) |

**TABL 6**

## TROSEDDAU SYLWEDDAU YMBELYDROL

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 1 | Cadw, defnyddio ac ati deunydd ymbelydrol heb gofrestriad | A6 & 32(1)(a) DSY | Gofyn am gais am gofrestru | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol |
| 2 | Cadw, defnyddio ac ati ddeunydd ymbelydrol symudol heb gofrestriad | A9 & 32(1)(a) DSY | Gofyn am gais am gofrestru | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 3 | Gwaredu gwastraff ymbelydrol heb awdurdodiad | A13(1)(2)(3) a 32(1)(a) DSY | Gofyn am gais am gofrestru | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 4 | Gwaredu gwastraff ymbelydrol heb fod yn unol ag awdurdodiad | A13(1), 21(1) a 32(1)(c) DSY | Rhybudd Gorfodaeth Rhybudd Gwaharddiad | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 5 | Casglu gwastraff ymbelydrol heb fod yn unol ag awdurdodiad | A14(1) a 32(1)(a) DSY | Rhybudd Gorfodaeth Rhybudd Gwaharddiad Gwaredu gan yr Asiantaeth ac adfer costau | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 6 | Methu â chydymffurfio ag amod yn eithrio o gofrestru | A32(1) DSY | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 7 | Methu â chydymffurfio â chyfyngiad neu amod cofrestriad neu awdurdodiad | A21 a 32(1)(b)&(d) DSY | Rhybudd Gorfodaeth | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODO L | YMATEB YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| Col 1 | Col 2 | Col 3 | Col 4 | Col 5 |
| 8 | Methu â chydymffurfio â rhybudd gwaharddiad | A22 a 32(1)(d) DSY | | Erlyniad |
| 9 | Methu â chydymffurfio â rhybudd gorfodaeth | A21 a 32(1)(d) DSY | | Erlyniad |
| 10 | Methu â dangos tystysgrifau o gofrestriad neu awdurdodiad | A19 & 33(1) DSY | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 11 | Methu â chydymffurfio â rhybudd A20 i gadw neu gyflwyno cofnodion | A20 & 33(3) DSY | | Rhybudd Ffurfiol/ Erlyniad |
| 12 | Tynnu i lawr, gwneud difrod i ddogfenA19 | A33(2) DSY | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 13 | Datgelu gwybodaeth am brosesau neu gyfrinachau masnach a gafwyd mewn cysylltiad â'r Ddeddf. | A34 DSY | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |

# ADRAN 3

# ADNODDAU DêR

## 1. PWRPAS GORFODAETH

1.1 Pwrpas gorfodaeth ynghylch adnoddau dŵr yw sicrhau bod yr Asiantaeth yn cyflawni ei dyletswyddau yn briodol ac y cydymffurfir â'r ddeddf er budd a gwarchodaeth yr amgylchedd a defnyddwyr dŵr.

1.2 Prif ddyletswydd yr Asiantaeth o ran adnoddau dŵr yw cymryd unrhyw gamau a ystyria sy'n angenrheidiol neu yn hwylus i bwrpas:

- gwarchod, ail-ddosbarthu neu fel arall ychwanegu at adnoddau dŵr
- sicrhau y defnyddir adnoddau dŵr yn briodol.

1.3 Y sail ar gyfer rheoli adnoddau dŵr yw system lle bo'r rhan fwyaf o'r gwaith o dynnu a chronni dŵr angen ei drwyddedu gan yr Asiantaeth. Mae angen llai o awdurdodiadau ffurfiol mewn rhai achosion, fel ymchwilio am a phrofi dŵr daear, gwarchod dŵr wedi ei bwmpio i bwrpas dad-ddyfrhau a rhai enghreifftiau o dynnu dŵr ar raddfa fechan. Ceir darpariaethau arbennig hefyd ar gyfer sefyllfaoedd o sychder.

1.4 Mae gan yr Asiantaeth y prif gyfrifoldeb am sicrhau bod adnoddau dŵr yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r Asiantaeth yn cyflawni'r rôl hon yn bennaf drwy:

- roi trwyddedau echdynnu a chronni dŵr ac awdurdodiadau eraill

- llunio cytundebau neu wneud trefniadau gydag echdynwyr ynglŷn â'r modd y mae gwaith yn cael ei weithredu ac ati,

- sicrhau cydymffurfiad ag amodau a gofynion trwydded a chaniatâd a thelerau'r cytundebau,

- ymdrin â chwynion a digwyddiadau sy'n effeithio ar adnoddau dŵr.

## 2. PWERAU GORFODAETH

2.1 Mae gan yr Asiantaeth ddyletswydd benodol o dan Adran 216 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (DAD) i orfodi'r ddeddf mewn perthynas ag echdynnu a chronni adnoddau dŵr.

2.2 Y prif bŵer sydd ar gael ar gyfer gorfodaeth ynghylch adnoddau dŵr yw erlyniad am drosedd. Mae camau eraill y gellir eu dewis yn lle erlyniad yn ymwneud â dosbarthu rhybuddion ffurfiol, dosbarthu llythyrau o rybudd neu roi rhybuddion ysgrifenedig ar y safle.

2.3 Y troseddau sylfaenol yn y deddfau adnoddau dŵr yw echdynnu dŵr, adeiladu neu ymestyn unrhyw ffynnon neu dwll turio a dechrau adeiladu neu newid unrhyw waith cronni heb drwydded neu ganiatâd priodol neu dorri amodau trwydded neu ganiatâd sy'n bodoli'n

barod. Mae hefyd yn drosedd achosi neu ganiatáu i unrhyw un arall ymgymryd ag unrhyw rai o'r uchod.

2.4 Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys troseddau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys peidio â rhoi gwybodaeth am echdyniadau, gwneud datganiadau ffug i gefnogi cais am drwydded a rhwystro neu bersonoli swyddogion yr Asiantaeth mewn perthynas â phwerau mynediad i eiddo.

2.5 Darperir crynodeb o'r troseddau yn ymwneud ag adnoddau dŵr a darpariaethau statudol perthnasol yn Nhabl 1.

2.6 Ceir sefyllfaoedd hefyd lle mae'r Asiantaeth yn dibynnu ar drefniadau a chytundebau arbennig i sicrhau ei amcanion o reoli adnoddau dŵr yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- trefniadau gydag ymgymerwyr dŵr o dan Adran 20 DAD sydd yn cael eu copïo i'r Ysgrifennydd Gwladol
- cytundebau sy'n ychwanegol at drwyddedau o dan Adran 158 DAD gydag unrhyw ddeiliad trwydded y gellir eu rhestru fel pridiant tir.

Gall y trefniadau a'r cytundebau hyn ymwneud â: e.e. y dull y mae gwaith sy'n eiddo i neu yn cael ei weithredu gan yr ymgymerwr neu ddeiliad y drwydded yn cael ei weithredu i bwrpas sicrhau'r manteision amgylcheddol mwyaf o'r gwaith hwnnw, yr angen i drefn monitro gael ei gweithredu a data gael ei ddarparu i ddarparu gwybodaeth bellach am effeithiau amgylcheddol, cydymffurfiad â thrwyddedau ac ati. Defnyddir trefniadau Adran 20 weithiau i ychwanegu at orchmynion a chaniatadau ar gyfer sychder.

## 3. FFACTORAU YN YMWNEUD Â GORFODAETH

3.1 Gall difrifoldeb troseddau yn ymwneud ag adnoddau dŵr amrywio'n fawr. Yn un pen y raddfa gallai gweithred arwain at gael darn sylweddol o afon neu nant heb ddŵr yn ystod cyfnod pan fo'r llif yn isel gan achosi colled i gyflenwadau dŵr hanfodol neu ddifrod i'r amgylchedd. Yn y pen arall gellir torri amodau trwydded yn "dechnegol", fel defnyddio dŵr ar dir heb ei awdurdodi lle gall y canlyniadau i'r amgylchedd fod yn dibwys neu ddim yn bodoli o gwbl. Wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r camau gorfodi mwyaf priodol, rhoddir ystyriaeth i'r holl amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys:

### (1) Effaith neu effaith botensial ar yr amgylchedd ac ar adnoddau dŵr

Un o nodweddion naturiol argaeledd adnoddau dŵr yw'r amrywiaeth mawr rhwng tymhorau'r flwyddyn, nodwedd sy'n fwy amlwg yn ystod blynyddoedd mwy sych. Mae rhai eco-systemau sy'n dibynnu ar ddŵr yn debygol iawn o ddioddef yn ystod blynyddoedd sych pan fo effaith amgylcheddol gweithredu anghyfreithlon yn debyg o achosi'r risg mwyaf. Yn ystod y cyfnodau hyn hefyd y mae ffynonellau cyflenwadau dŵr, boed hynny ar gyfer defnydd domestig preifat, anghenion

amaethyddiaeth a diwydiant neu ar gyfer y cyflenwad dŵr cyhoeddus, yn y perygl mwyaf. Bydd gweithredu gorfodaeth yn cymryd hyn i ystyriaeth gydag effeithiau sylweddol yn ystod cyfnodau o'r fath yn debygol o arwain at erlyniad.

Lle bo'r drosedd yn deillio o ddigwyddiad sy'n perthyn o fewn CDDC, dylid cyfeirio at y categori effaith amgylcheddol. Os yw'r effaith neu'r effaith botensial yn Gategori 1, bydd erlyniad fel arfer yn dilyn; os yw'n perthyn i Gategori 2, erlyniad neu rybudd ffurfiol fydd y camau gweithredu arferol, gyda'r dewis yn cael ei benderfynu drwy gyfeirio at ffactorau eraill; os yw yn Gategori 3, yna bydd rhybudd ysgrifenedig fel arfer yn ddigonol oni bai bod ffactorau eraill yn gwneud gweithredu mwy llym, yn angenrheidiol e.e. trosedd sy'n cael ei hail-adrodd.

Dylid barnu troseddau nad ydynt yn perthyn i CDDC ond sy'n effeithio neu sydd â'r potensial i effeithio ar yr amgylchedd gan ddefnyddio'r un meini prawf.

**(2) Natur y drosedd**

Gall y math o drosedd fod mor ddifrifol o ran ei natur neu ei heffaith ar allu'r Asiantaeth i reoleiddio'n effeithiol fel y bydd fel arfer yn cael ei thrin dim ond trwy erlyniad, e.e. osgoi trwydded yn fwriadol.

**(3) Bwriad**

Ymdrinnir fel arfer â throseddau a gyflawnir yn fwriadol, yn ddifeddwl neu er budd ariannol drwy erlyniad. Gall fod yn briodol ystyried gweithredu gorfodol llai lle bo'r Asiantaeth yn fodlon fod y drosedd wedi ei chyflawni yn anfwriadol, neu os oedd yn ganlyniad i gamgymeriad gwirioneddol neu gamddealltwriaeth ac nad oedd unrhyw ddifrod neu niwed amgylcheddol wedi ei achosi.

**(4) Hanes blaenorol**

Er y bydd yn rhaid i'r camau i'w cymryd gael eu penderfynu yn ôl amgylchiadau pob achos, dylid rhoi ystyriaeth i record blaenorol y troseddwr, gan gynnwys unrhyw rybuddion blaenorol neu rybuddion ffurfiol.

I bobl sydd wedi derbyn rhybudd ffurfiol o'r blaen, ymdrinnir â throseddau dilynol, ac eithrio rhai mân, fel arfer drwy erlyniad.

**(5) Agwedd y troseddwr**

Cyflwynir erlyniad fel arfer lle bo hynny ar gael, os yw'r troseddwr:

- wedi gwrthod derbyn camau gorfodol eraill
- wedi gwneud dim ymdrech i leihau neu unioni effeithiau neu effeithiau

potensial y drosedd
- wedi rhwystro'r ymchwiliadau
- wedi diystyru cyngor yr Asiantaeth neu'r canllawiau ffurfiol wrth gyflawni'r drosedd
- wedi gweithredu'n anonest wrth geisio gohirio neu oedi gweithredu gorfodol yr Asiantaeth.

Mae cydweithrediad â'r Asiantaeth, rhoi adroddiad cyflym ynglŷn â'r digwyddiad, gwaith cyflym ac effeithiol i liniaru effaith a chymorth mewn unrhyw ymchwiliadau i gyd yn ffactorau y rhoddir ystyriaeth iddynt wrth ystyried pa lefel o orfodaeth sy'n briodol ar gyfer unrhyw ddigwyddiad arbennig.

**(6) Effaith ataliol**

Cyflwynir erlyniad fel arfer os yw'n debyg o fod yn ffordd angenrheidiol ac effeithiol o atal ail-adrodd y drosedd gan y troseddwr. Cyflwynir erlyniad hefyd fel arfer os byddai'n gweithredu i atal eraill rhag cyflawni troseddau a all, yn unigol, fod â dim ond effaith bychan ar yr amgylchedd, ond sydd gyda'i gilydd dros amser ac o fewn ardal arbennig, yn cael effaith mwy difrifol ar yr amgylchedd neu'r mwynder lleol.

**(7) Amgylchiadau personol y troseddwr**

Gall ffurf llai o weithredu fod yn briodol lle ceir amgylchiadau personol eithriadol, e.e. y troseddwr yn dioddef o salwch difrifol.

**(8) Troseddau rhagweladwy**

Lle roedd y drosedd a/neu ei chanlyniadau amgylcheddol yn rhai y gellid eu rhagfynegi, ac na chymerwyd unrhyw fesurau i'w hosgoi a/neu eu hatal, bydd erlyniad fel arfer yn dilyn. Gall camau gorfodi eraill gael eu hystyried os yw'r drosedd:

- wedi digwydd er gwaethaf mesurau ataliol
- yn rhai na ellid yn rhesymol bod wedi eu rhagweld
- yn ganlyniad i offer diffygiol na allai'n rhesymol fod wedi bod yn wybyddus neu fod wedi ei ragfynegi
- wedi ei achosi gan ymyrraeth trydydd parti na ellid diogelu yn ei erbyn

Lle bo'r drosedd wedi cael effaith amgylcheddol a bod methiant i roi ystyriaeth i amodau trwydded amgylcheddol a chanllawiau statudol, codau ymarfer neu gyngor gan yr Asiantaeth, bydd yr achos yn cael ei erlyn fel arfer.

3.2 Bydd y ffactorau a gynhwysir a'r pwysau i'w rhoi i bob un yn dibynnu ar amgylchiadau arbennig pob achos.

## 4. GWEITHREDU GORFODAETH - TROSEDDAU

4.1 Mae Tabl 1 yn crynhoi'r troseddau adnoddau dŵr ac yn rhoi canllawiau ynglŷn â'r dewisiadau gorfodi mwyaf priodol gan roi ystyriaeth i natur ac effaith y drosedd. Dylid darllen y tabl drwy gydweithrediad â'r ffactorau gorfodaeth uchod i gynorthwyo i ddewis y camau i'w cymryd. Er y bydd yn rhaid i'r Asiantaeth bob amser fod â hawl i ddewis pa gamau i'w cymryd mewn unrhyw achos arbennig bydd bob amser yn rhoi ystyriaeth i'r canllawiau yn Nhabl 1.

4.2 Darperir canllawiau manwl pellach mewn perthynas â phob math o drosedd isod.

**Echdynnu neu Gronni heb Drwydded/Adeiladu ffynnon neu dwll turio heb drwydded neu ganiatâd**

4.3 Lle bo effaith neu effaith botensial Categori 1 ar yr amgylchedd neu adnoddau dŵr, yna erlyniad fydd y cam arferol.

4.4 Lle bo'r effaith neu'r effaith botensial yn Gategori 2, yr ymateb fel arfer fydd erlyniad neu rybudd ffurfiol gyda'r dewis yn dibynnu ar bwysau'r ffactorau gorfodaeth eraill, e.e. hanes blaenorol o droseddu, ymateb gwael, gweithred fwriadol er budd ariannol, ac ati.

4.5 Lle bo'r effaith neu'r effaith botensial yn Gategori 3, yna llythyr o rybudd fel arfer fydd yr ymateb mwyaf priodol oni bai bod amgylchiadau eraill yn gwneud y drosedd yn fwy difrifol ac yn cyfiawnhau rhybudd ffurfiol neu erlyniad, e.e. trosedd sy'n cael ei hail-adrodd, gwrthod cydweithredu â swyddogion yr Asiantaeth.

4.6 Lle nad oes unrhyw effaith, rhoddir rhybudd fel arfer, oni bai bod hon yn drosedd sy'n cael ei hail-adrodd neu lle mae tebygrwydd o ail-adrodd.

4.7 Lle bo trosedd yn cael ei chyflawni fel rhan integrol o unrhyw broses fasnachol, ddiwydiannol neu arall sy'n dibynnu ar yr angen am ddŵr, yna cyflwynir erlyniad fel arfer. Am droseddau cyntaf yn ymwneud â dim effaith neu effaith Categori 3, a lle bo cais yn cael ei gyflwyno o fewn amserlen fer, gellir rhoi rhybudd ffurfiol oni bai fod rhesymau arbennig am erlyniad e.e. cydweithrediad gwael.

**Torri amodau Trwydded**

4.8 Lle bo torri'r amodau yn cael effaith neu effaith botensial Categori 1 neu 2, dylid dilyn y canllawiau ym mharagraffau 4.3 a 4.4.

4.9 Lle bo'r effaith neu'r effaith botensial yn Gategori 3 yna, cyn belled ag nad oes unrhyw amgylchiadau eraill sy'n gwneud ymateb cadarnach yn fwy priodol, rhoddir rhybudd am droseddau cyntaf. Bydd tor-amod fechan sy'n digwydd droeon fel arfer yn arwain at

rybudd ffurfiol a throseddau pellach at erlyniad.

4.10 Am dorri amodau trwydded nad oes ganddynt unrhyw effaith wirioneddol nac effaith botensial ar yr amgylchedd neu adnoddau dŵr, e.e. methu â chadw cofnodion, methu â llenwi ffurflenni blynyddol, yna cyn belled ag nad oes unrhyw ffactorau tra phwysig sy’n gofyn am weithredu cadarnach, yr ymateb priodol fydd rhybudd ar y safle neu lythyr o rybudd. Bydd y dewis yn dibynnu ar i ba raddau y mae’r amodau wedi eu torri a’r amgylchiadau, e.e. anfwriadol. Bydd torri amodau trwydded dro ar ôl tro yn arwain at gynyddu’r orfodaeth hyd at erlyniad.

**Methu â chydymffurfio â Rhybudd Cadwraeth**

4.11 Pan fo methiant yn arwain at effaith neu effaith botensial Categori 1, yna erlyniad fydd yn digwydd fel arfer.

4.12 Lle bo’r effaith neu’r effaith botensial yn Gategori 2, yr ymateb fydd erlyniad neu rybudd ffurfiol, gyda’r dewis yn dibynnu ar bwysau’r ffactorau gorfodaeth eraill, e.e. hanes blaenorol o droseddu, ymateb gwael, gweithred fwriadol er budd ariannol ac ati.

4.13 Lle bo effaith neu effaith botensial yn Gategori 3, yna rhybudd ffurfiol fydd yr ymateb mwyaf priodol oni bai bod amgylchiadau eraill yn gwneud y drosedd yn fwy difrifol ac yn cyfiawnhau erlyniad, e.e. troseddu fwy nag unwaith, gwrthod cydweithredu â swyddogion yr Asiantaeth.

**Torri Gorchymyn neu Ganiatâd Sychder**

4.14 Mewn sychder, mae’n hynod o bwysig y cedwir yn bendant at ddarpariaethau gorchmynion neu ganiatadau sychder er mwyn gwarchod yr amgylchedd rhag difrod parhaol difrifol ac i sicrhau dosbarthiad teg o’r adnoddau dŵr sydd ar gael. Bydd torri gorchymyn neu ganiatâd sychder mewn unrhyw fodd felly yn cael ei drin yn gadarn a dylid defnyddio’r canllawiau ym mharagraff 4.3 ar gyfer torri gorchymyn lle ceir effaith wirioneddol neu botensial ar yr amgylchedd ac adnoddau dŵr ac ym mharagraff 4.7 ar gyfer enghreifftiau eraill o dor-amod.

**Rhwystro/Personoli staff yr Asiantaeth/gwneud datganiadau ffug**

4.15 Mae’r rhain yn droseddau difrifol a fydd fel arfer yn arwain at erlyniad.

4.16 Ond gyda rhwystrau o natur ddibwys neu sy’n digwydd oherwydd camddealltwriaeth, os ar ôl cyngor priodol, bod y troseddwr yn cydweithredu’n llawn a bod dim trosedd arall wedi ei chyflawni, dylid rhoi rhybudd llafar.

**Methu â rhoi gwybodaeth**

4.17 Lle bo’r wybodaeth sydd ei hangen ar ffurf cyfarwyddyd, yna bydd methu â chydymffurfio

fel arfer yn arwain at erlyniad oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gwneud cydymffurfiad ym amhosibl, e.e. nid oedd gwybodaeth ar gael.

4.18 Os yw'r wybodaeth o bwysigrwydd hanfodol i weithgareddau'r Asiantaeth, yna gellir gofyn am waharddeb i sicrhau ei bod yn cael ei darparu.

**Newid mesurydd yn fwriadol neu aflonyddu arno ac ati**

4.19 Bydd y drosedd hon fel arfer yn arwain at erlyniad. Ystyrir rhybudd ffurfiol dim ond mewn amgylchiadau eithriadol e.e. lle nad yw'r drosedd yn fawr, mae'n drosedd gyntaf a bod gan y troseddwr hanes o reolaeth dda a chydweithrediad â'r Asiantaeth.

## 5. GWEITHREDU GORFODAETH - LLE NA BU TROSEDD

**Trefniadau o dan Adran 20 DAD**

5.1 Gorfodir trefniadau o dan Adran 20 gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 18 y Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (Gorchmynion Gorfodaeth).

5.2 Lle bo trefniadau wedi eu torri, hysbysir yr Ymgymerwr Dŵr yn ysgrifenedig a dylai trafodaethau gael eu cynnal mewn ymdrech i sicrhau cydymffurfiad boddhaol. Os nad yw'r cydymffurfiad yn dilyn o fewn yr amser a ganiatawyd, yna dylid cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Cytundebau o dan Adran 158 DAD**

5.3 Dylid rhoi hysbysiad ynglŷn â thorri cytundebau yn ysgrifenedig a dylid rhoi amserlen ar gyfer cydymffurfio. Bydd parhau i dorri cytundebau yn arwain at weithredu sifil drwy'r llysoedd.

**Cytundebau o dan Adran 127 DAD**

5.4 Bydd methu â darparu darlleniadau mesuryddion i bwrpas y trefniadau tariff sydd mewn dau ran yn arwain at gymhwyso taliadau llawn.

**TABL 1**

# CRYNODEB O DROSEDDAU ADNODDAU DWR

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL: (DEDDF ADNODDAU DWR 1991) | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|
| 1 | Echdynnu dŵr heb drwydded (neu orchymyn/caniatâd sychder) | A24(1) | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol |
| 2 | Tynnu dŵr yn groes i amodau trwydded. | A24(1) | Erlyniad/ rhybudd ffurfiol/ Llythyr rhybuddiol/ Rhybudd Safle ysgrifenedig |
| 3 | Torri amodau eraill trwydded, h.y. amodau heb fod yn ymwneud yn uniongyrchol â thynnu dŵr, heb rwymedigaeth i arllwys dŵr mewn man arall, monitro ac ati | A24(4)(b) | Erlyniad/ rhybudd ffurfiol/ Llythyr rhybuddiol/ Rhybudd Safle ysgrifenedig |
| 4 | Dechrau adeiladu, ymestyn twll turio ac ati heb drwydded neu ganiatâd o dan A32(3) | A24(2) | Rhybudd Ffurfiol |
| 5 | Dechrau adeiladu, ymestyn twll turio ac ati yn groes i delerau trwydded neu ganiatâd o dan A32(3) | A24(2) | Erlyniad/ rhybudd ffurfiol/ Llythyr rhybuddiol/ Rhybudd Safle ysgrifenedig |
| 6 | Dechrau adeiladu neu newid gwaith cronni heb drwydded. | A25(1) | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol |
| 7 | Dechrau adeiladu neu newid gwaith cronni yn groes i amodau'r drwydded. | A25(1) | Erlyniad/ rhybudd ffurfiol/ Llythyr rhybuddiol/ Rhybudd Safle ysgrifenedig |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL: (DEDDF ADNODDAU DWR 1991) | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|
| 8 | Enghraifft arall o beidio â chydymffurfio ag amodau trwydded cronni, fel rhwymedigeth i ryddhau dŵr fel iawn. | A25(2)(b) | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Llythyr Rhybuddiol Rhybudd Safle Ysgrifenedig |
| 9 | Achosi neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r troseddau uchod. | A24(1), (2) A25(1) | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Llythyr Rhybuddiol |
| 10 | Methu â rhoi rhybudd o fwriad i adeiladu gwaith i bwrpas dad-ddyfrhau | A30(1) | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Llythyr Rhybuddiol/ Rhybudd Safle Ysgrifenedig |
| 11 | Methu â chydymffurfio â rhybudd gwarchodaeth. | A30(2) | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ |
| 12 | Torri darpariaethau caniatâd neu orchymyn sychder. | A80 | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ |
| 13 | Rhwystro swyddog yr Asiantaeth yn ymarfer pwerau mynediad (gweler Atodlen 20, para 7) | A173 | Erlyniad |
| 14 | Personoli swyddog yn ymarfer pwerau mynediad | A174 | Erlyniad |
| 15 | Methu â rhoi gwybodaeth am dynnu dŵr (boed hwnnw wedi ei drwyddedu, yn un y gellir ei drwyddedu neu fel arall) | A201 | Erlyniad |
| 16 | Newid neu ymyrryd yn fwriadol gyda mesurydd, medrydd neu ddyfais arall sy'n angenrheidiol o dan ddarpariaethau trwydded. | A206(3) | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol |
| 17 | Gwneud datganiadau ffug yn fwriadol neu yn ddihid, e.e i gefnogi cais am drwydded. | A206(1) a (2) | Erlyniad |
| 18 | Aflonyddu, codi ofn a braw | A4 ac A5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol |

# ADRAN 4

# PYSGODFEYDD

## 1. PWRPAS GORFODAETH

1.1 Pwrpas cymryd camau gorfodol mewn Pysgodfeydd yw gwarchod, diogelu neu wella pysgodfeydd, neu sicrhau cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth pysgodfeydd a orfodir gan yr Asiantaeth.

1.2 Gall rhai troseddau yn ymwneud â physgodfeydd achosi neu fod â'r potensial i achosi difrod difrifol i stociau pysgod, e.e. rhwydo eog heb ei drwyddedu, neu gyflwyno pysgod sy'n dioddef o glefydau neu bysgod egsotig heb ganiatâd. Gall troseddau o'r fath fod ag effaith niweidiol dros dymor hir ar bysgodfeydd a'r amgylchedd.

1.3 Mae osgoi trwydded gwialen, er efallai nad yw'n cael effaith niweidiol uniongyrchol ar y pysgodfeydd neu'r amgylchedd, yn amddifadu swyddogaeth y Pysgodfeydd o incwm a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd.

1.4 Y prif bolisi ar gyfer y swyddogaeth Pysgodfeydd felly yw:

- ceisio cosbi'n ddifrifol bobl sy'n achosi unrhyw ddifrod i bysgodfeydd
- ceisio cosbi rhai sy'n osgoi trwyddedau
- sicrhau, lle bo hynny'n briodol, bod gwaith adferol yn cael ei gyflawni.

## 2. PWERAU GORFODAETH

2.1 Y prif bŵer sydd ar gael yn y ddeddfwriaeth pysgodfeydd yw erlyn am drosedd. Dewisiadau eraill yn lle erlyn yw rhoi rhybudd ffurfiol neu rybudd ysgrifenedig.

2.2 Mewn rhai enghreifftiau, gall gwaith adferol fod yn ofynnol neu gael ei gyflawni gan yr Asiantaeth yn ychwanegol at gamau gorfodaeth eraill.

2.3 Mae pwerau cysylltiedig eraill yn cynnwys pwerau i fynd ar a chwilio llongau ac eiddo a meddiannu llongau, cerbydau, offerynnau, offer a physgod. Darperir pwerau arestio o dan Ddeddf Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw 1975 (DPEDC) ar gyfer rhai troseddau. Tybir bod Beili Dŵr yn gwnstabl i bwrpas gorfodi DPEDC; darperir pwerau restio pellach o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

2.4 Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r pwerau gorfodi anrhoseddol ac mae Tabl 2 yn grynodeb o'r prif droseddau pysgodfeydd.

## 3. FFACTORAU YN YMWNEUD Â GORFODAETH

3.1 Gall difrifoldeb troseddau pysgodfeydd amrywio'n fawr. Wrth lunio penderfyniad ynglŷn â'r gorfodi mwyaf priodol, dylid rhoi ystyriaeth i'r holl amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys:

### (1) Effaith neu effaith botensial ar stociau pysgod a'r amgylchedd

Lle bo'r drosedd yn codi o ddigwyddiad sy'n syrthio o fewn CDDC, dylid cyfeirio at y categori effaith. Os yw'r effaith neu'r effaith botensial yn un Categori 1, bydd erlyniad fel arfer yn dilyn; os yw yn Gategori 2, erlyn neu rybudd ffurfiol fydd yn digwydd fel arfer, gyda'r dewis yn cael ei benderfynu drwy gyfeirio at ffactorau eraill; os yw yn Gategori 3, yna bydd rhybudd ysgrifenedig fel arfer yn ddigonol oni bai bod ffactorau eraill yn golygu bod angen gweithredu mwy difrifol, e.e. trosedd sy'n cael ei hail-adrodd.

Dylid barnu troseddau nad ydynt yn perthyn o fewn CDDC ond sy'n effeithio ar neu sydd â photensial i effeithio ar yr amgylchedd gan ddefnyddio yr un meini prawf.

**(2) Natur y drosedd**

Gall y math o drosedd fod mor ddifrifol o ran ei natur neu ei heffaith ar allu'r Asiantaeth i'w reoleiddio'n effeithiol fel y bydd yn rhaid ei thrin fel arfer drwy erlyniad, e.e. osgoi trwydded gwialen, ymosod ar feilï aid pysgodfeydd.

Ceir hefyd y troseddau difrifol hynny nad ydynt yn hawdd eu darganfod ac sy'n golygu bod yn rhaid i'r Asiantaeth roi adnoddau sylweddol i'w datgelu neu i ddod ar eu traws; e.e. rhwydo eog neu lysywod heb drwydded. Yn yr achosion hyn, erlyniad fel arfer fydd y dull mwyaf priodol o weithredu.

**(3) Bwriad**

Ymdrinnir fel arfer â throseddau a gyflawnir yn fwriadol neu er budd ariannol drwy erlyniad fel arfer. Gall fod yn briodol ystyried gweithredu ar raddfa lai lle bo'r Asiantaeth yn fodlon fod y drosedd wedi ei chyflawni yn anfwriadol neu ei bod yn ganlyniad camgymeriad gwirioneddol neu gamddealltwriaeth, yn arbennig os oedd hyn yn ymwneud â rhywun ifanc, rhywun anabl neu bensiynwr.

**(4) Hanes blaenorol**

Er bod yn rhaid i'r camau i'w cymryd gael eu penderfynu yn ôl amgylchiadau pob achos, dylid rhoi ystyriaeth i record blaenorol y troseddwyr, gan gynnwys unrhyw rybuddion blaenorol a roddwyd neu rybuddion ffurfiol.

I bobl sydd wedi derbyn rhybudd ffurfiol, ymdrinnir fel arfer â throseddau olynol, ac eithrio rhai mân, drwy erlyniad.

**(5) Agwedd y troseddwr**

Bydd achos fel arfer yn cael ei erlyn, lle bo'r dewis ar gael, os yw'r troseddwr:

- wedi gwrthod derbyn gorfodaeth arall

- wedi gwneud dim ymdrech i leihau neu wneud iawn am effeithiau neu effeithiau posibl y drosedd
- wedi rhwystro ymchwiliadau
- wedi anwybyddu cyngor yr Asiantaeth neu'r canllawiau ffurfiol wrth gyflawni'r drosedd
- wedi gweithredu'n anonest i geisio gohirio erlyniad gan yr Asiantaeth.

Mae cydweithrediad â'r Asiantaeth, rhoi adroddiad cyflym ynglŷn â'r digwyddiad, gwaith lliniaru cyflym ac effeithiol a chymorth mewn unrhyw ymchwiliadau i gyd yn ffactorau a gymerir i ystyriaeth wrth benderfynu pa lefel o orfodaeth sy'n briodol ar gyfer unrhyw ddigwyddiad arbennig.

**(6) Effaith ataliol**

Bydd achos fel arfer yn cael ei erlyn os yw'n debyg o fod yn ffordd angenrheidiol ac effeithiol o atal ail-adrodd y drosedd gan y troseddwr. Cyflwynir erlyniad hefyd fel arfer os yw yn mynd i fod o gymorth i atal eraill rhag cyflawni troseddau a all, yn unigol, fod â mân effaith ar yr amgylchedd ond sydd, gyda'i gilydd dros gyfnod o amser neu o fewn lleoliad arbennig, yn cael effaith mwy difrifol ar yr amgylchedd neu ar fwynder lleol.

**(7) Amgylchiadau personol y troseddwr**

Gellir ystyried dull o weithredu ar raddfa lai lle ceir amgylchiadau personol eithriadol; e.e. bod y troseddwr yn dioddef o salwch difrifol.

**(8) Effaith ar incwm o drwyddedau**

Mae swyddogaeth y pysgodfeydd yn dibynnu'n drwm ar incwm o drwyddedau a rhaid ystyried effaith yr holl droseddau yn ymwneud â physgodfeydd ar yr arian hwn. Mae troseddau yn ymwneud â thrwyddedau fel arfer yn cael effaith uniongyrchol glir ar incwm drwy beidio â thalu. Yn wahanol i droseddau eraill yn ymwneud â thrwyddedau amgylcheddol, mae troseddau yn ymwneud â thrwyddedau gwialen yn ddarfodedig; nid ydynt wedi eu cysylltu'n benodol â safle neu long, y gellir ail-ymweld â hwy yn rhwydd neu ddod o hyd iddynt lle bo cyfle rhesymol o ddod ar eu traws eilwaith.

Nid yw'n briodol caniatáu cyfnod yn dilyn trosedd yn ymwneud â thrwydded gwialen pryd y gall y troseddwr brynu trwydded cyn i unrhyw gamau gorfodi ffurfiol gael eu cymryd. Nid yw natur ddarfodedig troseddau yn ymwneud â thrwyddedau gwialen a'r tebygolrwydd isel o ddod ar eu traws eilwaith yn rhoi unrhyw ysgogiad gwirioneddol i'r troseddwr brynu trwydded ar ôl y digwyddiad. Mae gan hyn oblygiadau difrifol i incwm trwyddedau oherwydd y bydd yn effeithio ar barodrwydd y troseddwr a physgotwyr eraill i brynu trwydded.

3.2 Bydd y ffactorau sy'n berthnasol a'r pwysau sydd ynghlwm wrth bob un yn dibynnu ar amgylchiadau arbennig pob achos.

## 4. GWEITHREDU GORFODAETH - LLE NA BU TROSEDD

4.1 Mae Tabl 1 yn crynhoi'r pwerau gorfodaeth sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau arbennig nad ydynt yn ffurfio trosedd. Mae'r canlynol yn ganllawiau ynglŷn â defnyddio'r pwerau hyn.

**Rhybudd i wneud a chynnal grisiau pysgod**

4.2 Mewn lleoliadau lle mae poblogaeth sefydledig reolaidd o eog neu frithyll mudol, bydd yr Asiantaeth fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r deiliad, drwy rybudd, wneud a chynnal grisiau pysgod lle bo:-

(1) argae newydd yn cael eu hadeiladu er mwyn creu rhwystr cynyddol

(2) argae bresennol yn cael ei chodi neu ei newid er mwyn creu rhwystr cynyddol

(3) argae neu rwystr presennol sydd wedi ei ddinistrio neu ei ddisodli i hanner ei hyd yn cael ei ail-adeiladu neu ei adfer

(4) unrhyw rwystr arall yn cael ei greu, ei gynyddu neu ei achosi.

Ceir eithriadau lle gellir effeithio'n niweidiol ar weithfeydd dŵr cyhoeddus neu fordwyo statudol. Mae symud grisiau pysgod dros dro i wneud gwaith trwsio yn cael ei ganiatáu hefyd.

4.3 Mae methu â chydymffurfio â Rhybudd Adran 9 yn drosedd a dylid dilyn y canllawiau ym mharagraff 5.8 i benderfynu ar yr ymateb gorfodi priodol i'r drosedd. Yn ychwanegol gall yr Asiantaeth gyflawni'r gwaith adfer angenrheidiol a chael y costau am wneud hynny yn ôl.

## 5. GWEITHREDU GORFODAETH - TROSEDDAU

5.1 Mae Tabl 2 yn crynhoi prif droseddau'r pysgodfeydd ac yn rhoi canllawiau ynglŷn â'r dewisiadau gorfodi mwyaf priodol gan roi ystyriaeth i natur ac effaith y drosedd. Dylid darllen y tabl mewn cydweithrediad â'r meini prawf gorfodaeth uchod i gynorthwyo ynglŷn â'r dewis o weithredu. Er bod yn rhaid i'r Asiantaeth bob amser fod â dewis ynglŷn â pha gamau i'w cymryd mewn unrhyw achos arbennig, bydd bob amser yn rhoi ystyriaeth i'r canllawiau yn Nhabl 2. Darperir canllawiau manwl pellach mewn perthynas â phob math o drosedd isod.

**Troseddau sy'n ymwneud â Thrwyddedau Gwialen**

5.2 Dylai troseddau yn ymwneud â physgota heb drwydded gwialen a methu â chynhyrchu trwydded (o fewn 7 niwrnod) arwain fel arfer at erlyniad.

5.3 Mae'r cyfnod o saith niwrnod am fethu â chynhyrchu trwydded yn ofyniad cyfreithiol (Adran 35 (3) DPEDC). Ond mae cynhyrchu trwyddedau yn hwyr fel arfer wedi arwain at achosion yn cael eu tynnu nôl neu ryddhad diamod neu amodol. Defnyddir ffin weinyddol o 28 diwrnod felly fel y ffin ar gyfer cynhyrchu trwydded yn hwyr, ac ar ôl hynny bydd erlyniad yn digwydd. Gall rhybuddion ffurfiol gael eu cynnig am gynhyrchu trwydded ar ôl hynny cyn y gwrandawiad llys.

5.4 Gellir ystyried dulliau eraill o weithredu, e.e. rhybudd ffurfiol, llythyr rhybuddiol, lle bo amgylchiadau lliniaru eithriadol sy'n gwneud erlyniad yn gwbl amhriodol. Bydd y math o gamau eraill a gymerir yn dibynnu ar natur yr amgylchiadau lliniaru.

5.5 Ar gyfer troseddau yn ymwneud â thrwyddedau gwialen cyntaf gan bobl ifanc (o dan 18 oed), pobl anabl a phobl o oed pensiwn, rhoddir llythyr rhybuddiol oni bai bod rhesymau arbennig am rybudd ffurfiol neu erlyniad, e.e. cysylltiad â throsedd mwy difrifol gan gynnwys rhoi enw a chyfeiriad ffug, aflonyddu, twyll ac ati neu achos lle bo rhywun ifanc yn gweithredu gyda throseddwyr o oedolion.

**Troseddau Adran 14 - methu â darparu sgrinio digonol neu adlif ar afonydd eogaidd mudol**

5.6 Bydd troseddau Adran 14 fel arfer yn arwain at ofyniad am waith adferol a rhybudd. Gall rhybudd ffurfiol neu erlyniad fod yn briodol os oes ffactorau sy'n gwneud y drosedd yn fwy difrifol e.e. cydweithrediad gwael, trosedd sy'n cael ei hail-adrodd.

5.7 Lle nad yw'r gwaith adfer y gofynnwyd amdano yn cael ei gyflawni, yna byddai erlyniad fel arfer yn digwydd, oni bai bod amgylchiadau lliniaru eithriadol. Yn ychwanegol, pan geir effaith Categori 1 neu 2, bydd yr Asiantaeth yn cyflawni'r gwaith sy'n angenrheidiol ac yn adfer y costau.

**Peidio â chydymffurfio â rhybudd i wneud a chynnal grisiau pysgod**

5.8 Bydd achos fel arfer yn cael ei erlyn am fethu â chydymffurfio â rhybudd i wneud a chynnal grisiau pysgod. Gall ffurf o weithredu ar raddfa lai gael ei hystyried lle bo amgylchiadau eithriadol sy'n gwneud cydymffurfiad yn amhosibl.

**Troseddau yn ymwneud ag is-ddeddfau a throseddau eraill yn ymwneud â physgodfeydd**

5.9 Gall troseddau yn ymwneud ag is-ddeddfau a throseddau eraill yn ymwneud â physgodfeydd eraill amrywio'n fawr o ran eu heffaith a'u difrifoldeb. Lle bo'r drosedd yn erbyn y bysgodfa, mae'n bwysig ystyried ai erlyniad fydd y dull mwyaf effeithiol o wyrdroi'r

difrod a wnaed i'r bysgodfa.

5.10 Bydd achos llys fel arfer yn cael ei erlyn am droseddau lle mae'r effaith neu'r effaith botensial ar bysgodfeydd yn uchel. Byddai enghreifftiau yn cynnwys:

- pysgota heb drwydded
- offerynnau/technegau a waherddir
- peiriannau sefydlog
- cyflwyno pysgod Adran 30 heb ganiatâd
- trin eog mewn amgylchiadau amheus
- pysgota yn y tymor cau
- troseddau yn ymwneud â choredau pysgota

Lle bo hynny'n briodol, e.e. pysgota heb drwydded (nid gwialen a lein), dylai'r argymhelliad i erlyn ofyn am:

(1) fforffedu offer a physgod
(2) gwahardd rhag dal trwydded.

5.11 Bydd achos yn cael ei erlyn fel arfer am gyflwyno pysgod anfrodorol heb eu trwyddedu o dan y Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ryddhau Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) 1998 a wnaed o dan y Ddeddf Mewnforio Pysgod Byw 1980 (ILFA) neu yn groes i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Bydd gweithredu ar gyfer troseddau ILFA fel arfer yn gyfrifoldeb y WAPB neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Adran Amaeth). Ond os oes trosedd Adran 30 wedi ei chyflawni hefyd, gall yr Asiantaeth erlyn. Dylid penderfynu ar gamau gorfodol am dorri amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau ILFA yn ôl y radd o risg i'r amgylchedd ac fe'u cytunir drwy gysylltiad â'r WAPB.

5.12 Rhoddir rhybudd ffurfiol fel arfer ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau cyntaf eraill lle mae'r effaith neu'r effaith botensial ar bysgodfeydd yn isel, ac eithrio yn y sefyllfaoedd canlynol lle bydd llythyr rhybuddiol fel arfer yn cael ei roi:

(1) am fân droseddau cyntaf gan bobl ifanc, rhai anabl a phensiynwyr, a
(2) bod yr Asiantaeth yn fodlon (nid yw honiadau troseddwyr yn ddigon) fod y drosedd wedi ei chyflwyno yn anfwriadol.

**Aflonyddu/Trais/Rhwystr/Enw a Chyfeiriad Ffug**

5.13 Oherwydd natur y troseddau hyn byddant fel arfer yn arwain at erlyniad.

5.14 Ond yn achos rhwystr bychan iawn neu oherwydd camddealltwriaeth, os ar ôl cyngor priodol, bod y troseddwr yn cydweithredu'n llawn ac nad oes unrhyw drosedd arall wedi ei chyflawni, dylid rhoi rhybudd llafar.

## 6. GWAHARDDIAD RHAG DAL TRWYDDED

6.1 Bydd cais i'r llys am wahardd troseddwr rhag dal trwydded fel arfer yn briodol ar gyfer:

- achosion difrifol o bysgota anghyfreithlon yn arbennig lle mae'r troseddwr yn dal trwydded am bysgota trwy ddull heblaw gwialen a lein
- troseddwyr cyson neu barhaus yn ymwneud â thrwyddedau gwialen.

**TABL 1**

# PYSGODFEYDD - PWERAU GORFODAETH LLE NA BU TROSEDD

**ALLWEDD:**

**DPEDC - Deddf Pysgodfeydd Eog a Dēr Croyw 1975**

| | GWEITHGAREDD: | CYFEIRNOD STATUDOL | PWER |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhybudd i wneud a chynnal grisiau ysgol ar gyfer eog a brithyll mudol | A9 DPEDC | Gwaith heb ei gyflawni ac adfer costau. *(Mae methu â chydymffurfio yn drosedd)* |

**TABL 2**

# CRYNODEB O DROSEDDAU ADNODDAU DWR

## <u>ALLWEDD:</u>

**DPEDC - Deddf Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw 1975**
**DAD - Deddf Adnoddau Dŵr 1991**
**ILFA (DMPB) - Gorchymyn Gwahardd neu gadw neu ryddhau pysgod byw (rhywogaethau penodol) 1998 (OS 1998)**

| | **Trosedd (1)** | **Cyfeirnod Statudol (2)** | **Camau i'w cymryd (3)** | **Camau i'w cymryd (4)** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Pysgota gydag offer a waharddwyd | A1 DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol.<br>Meddiannu offeryn, pysgod ac ati | Meddiannu cwch neu gerbyd a gwneud cais am fforffedu |
| 2 | Cymryd pysgod heb fod yn lân | A2 DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol.<br>Meddiannu offeryn, pysgod ac ati | Meddiannu cwch neu gerbyd |
| 3 | Aflonyddu ar bysgod yn silio | A2(3) DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 4 | Arllwys mater gwenwynllyd/ niweidiol | A4 DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd.<br>Cyfeirier hefyd at Ganllawiau Gorfodaeth ynghylch Ansawdd Dŵr am weithredu arall. | Meddiannu cwch neu gerbyd a gwneud cais am fforffedu<br>Gofyn am iawndal drwy orfodaeth yn ymwneud ag Ansawdd Dŵr. |
| 5 | Defnyddio ffrwydron, gwenwyn, sylweddau annymunol neu ddyfeisiadau trydannol i gymryd pysgod | A5(1) DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol | Meddiannu cwch neu gerbyd a gwneud cais am fforffedu |

| | Trosedd (1) | Cyfeirnod Statudol (2) | Camau i'w cymryd (3) | Camau i'w cymryd (4) |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Dinistrio neu ddifrodi argaeau i gymryd pysgod | A5(3) DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol | Meddiannu cwch neu gerbyd |
| 7 | Injans sefydlog heb eu hawdurdodi | A6 DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol | Meddiannu offeryn a gwneud cais am fforffedu |
| 8 | Troseddau yn ymwneud â gratin, llif-ddorau neu argaeau pysgota | A12(1a3), A13, A14, A15, A18 DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Mae gwaith adfer ar gyfer sgriniau/gretinau yn angenrheidiol.<br>Cyflawni gwaith ac adfer costau |
| 9 | Methu â chydymffurfio â rhybudd o dan A9 (grisiau pysgod) | A9 DPEDC | Erlyniad | Cyflawni gwaith ac adfer costau |
| 10 | Pysgota anghyfreithlon ger rhwystrau | A17 DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol | Meddiannu offer, pysgod ac ati a gwneud cais am fforffedu |
| 11 | Pysgota yn y tymor cau | A19, A20 DPEDC ac Is-ddeddfau | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Meddiannu offer, pysgod ac ati a gwneud cais am fforffedu |
| 12 | Defnydd anghyfreithlon o fasgedi llysywod | A21 DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Meddiannu offer, pysgod ac ati a gwneud cais am fforffedu |
| 13 | Troseddau yn ymwneud â meddiannu, gwerthu ac allforio eog a brithyll | A22, A23, A24 DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Meddiannu offeryn a gwneud cais am fforffedu |

| | Trosedd (1) | Cyfeirnod Statudol (2) | Camau i'w cymryd (3) | Camau i'w cymryd (4) |
|---|---|---|---|---|
| 14 | Pysgota heb drwydded gwialen ddilys | A27 ac A35(3) DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Meddiannu offeryn, pysgod ac ati os mewn cydweithrediad â throsedd arall neu bod identiti yn ansicr.<br>Cais am wahardd rhag dal trwydded. |
| 15 | Methu â chynhyrchu trwydded ddilys | A35<br>DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Meddiannu offeryn, pysgod ac ati os mewn cydweithrediad â throsedd arall neu bod identiti yn ansicr.<br>Gwahardd rhag dal trwydded. |
| 16 | Rhoi enw a chyfeiriad ffug | A35<br>DPEDC | Erlyniad | Meddiannu offeryn, pysgod ac ati |
| 17 | Pysgota heb ei drwyddedu (heblaw gwialen a lein) | A27 ac A35(3) DPEDC | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd. Meddiannu offeryn, pysgod ac ati | Meddiannu cwch neu gerbyd. Gwahardd rhag dal trwydded. |
| 18 | Cyflwyno pysgod heb ganiatâd | A30 DPEDC<br>A14 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 19 | Cyflwyno heb drwydded neu gadw pysgod anfrodorol heb drwydded | ILFA (DMPB) | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Meddiannu pysgod a gwneud cais am fforffedu |
| 20 | Methu â chydymffurfio ag amodau trwydded DMPB. | ILFA (DMPB) | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Meddiannu pysgod a gwneud cais am fforffedu |

| | Trosedd (1) | Cyfeirnod Statudol (2) | Camau i'w cymryd (3) | Camau i'w cymryd (4) |
|---|---|---|---|---|
| 21 | Troseddau is-ddeddfau | Is-ddeddfau Cenedlaethol/ Rhanbarthol | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Meddiannu offer, pysgod ac ati a gwneud cais am fforffedu |
| 22 | Trin eog mewn amgylchiadau amheus | A32 Deddf Eog 1986 | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Meddiannu cwch neu gerbyd a physgod |
| 23 | Rhwystro beili | A31(2) DPEDC a Par. 7 Atodlen 20 DAD | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 24 | Ymosod ar Feili/Cwnstabl | A89(1) ac A89(2) Deddf yr Heddlu 1996 | Erlyniad | |
| 25 | Aflonyddu, codi ofn a braw | A4 ac A5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol | |

# ADRAN 5

# AMDDIFFYN RHAG LLIFOGYDD

## 1. PWRPAS GORFODAETH

1.1 Pwrpas gorfodaeth mewn perthynas â swyddogaeth Gwarchod Llifogydd yw:

- sicrhau bod dŵr yn llifo'n briodol mewn afon neu gwrs dŵr
- rheoli a monitro lefelau dŵr
- sicrhau amddiffynfeydd llifogydd presennol

er mwyn gwarchod pobl ac eiddo rhag llifogydd o'r môr a'r afonydd tra'n cynnwys gwarchod a gwella'r amgylchedd.

## 2. PWERAU GORFODAETH

2.1 Mae pwerau gorfodaeth Gwarchodaeth Llifogydd yn deillio o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (DAD), Deddf Draenio Tir 1991 (DDT) ac mewn is-deddfau am ddraenio tir rhanbarthol (Is-ddeddfau).

2.2 Mae'r pwerau yn dod o dan dri phrif bennawd:

- Erlyn am droseddau
- Rhybudd sy'n hawlio gwaith neu weithrediad penodol
- Gwaith adfer a wneir gan yr Asiantaeth (gydag ad-daliad o'r costau)

2.3 Yn lle erlyniadau gellir rhoi rhybudd ffurfiol, llythyrau o rybudd neu rybuddion ysgrifenedig ar safle.

2.4 Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r pwerau gorfodaeth mewn achosion nad ydynt yn troseddu ac mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o'r prif droseddau gwarchodaeth llifogydd.

## 3. GORFODAETH A CHYRSIAU DWR CYFFREDIN

3.1 Mae gan yr Asiantaeth ddyletswydd i arolygu'n gyffredinol bob mater sy'n ymwneud â Gwarchodaeth Llifogydd. Nid yw'r ddyletswydd hon yn gwahaniaethu rhwng cyrsiau dŵr Prif Afonydd a Chyrsiau Dŵr Cyffredin.

3.2 Mae'r Asiantaeth yn defnyddio ei phwerau gorfodaeth yn bennaf mewn perthynas â Phrif Afonydd ac amddiffynfeydd môr. Fodd bynnag, ble mae hynny'n briodol, bydd hefyd yn gweithredu ei phwerau i reoleiddio gwaith adeiladu penodol neu newidiadau i waith ar Gyrsiau Dŵr Cyffredin.

3.3 Ble mae cyflwr Cwrs Dŵr yn achosi rhwystr i lif priodol y dŵr, yna mae gan yr Awdurdod Lleol, yr Asiantaeth neu'r Bwrdd Draenio perthnasol yr hawl i weithredu gorfodaeth. Os nad oes Bwrdd Draenio'n bodoli yna dylai gweithredu gorfodaeth ynglŷn â materion risg gorlifo fod yng ngofal yr Awdurdod Lleol.

3.4 Ble mae perygl enbyd o niwed i bobl neu eiddo ac mae cyfeirio'r mater at yr Awdurdod Lleol neu'r Bwrdd Draenio yn annhebygol o arwain at ganlyniad boddhaol, yna dylai'r Asiantaeth ystyried defnyddio ei phwerau gorfodaeth.

3.5 Os mai anghydfod gyda pherchennog glannau afon yw'r prif fater, yna ni ddylai'r Asiantaeth weithredu ei phwerau gorfodaeth oni bai fod angen clir iddi wneud hynny (ar sail asesiad o'r Ffactorau Gorfodaeth).

## 4. FFACTORAU YN YMWNEUD Â GORFODAETH

4.1 Mae tor-cyfraith mewn perthynas ag amddiffynfeydd llifogydd yn gallu amrywio'n fawr o ran difrifoldeb. Ar y naill law gall digwyddiad arwain at orlifo ar raddfa eang sy'n peryglu bywyd ac eiddo. Ar y llaw arall, gall olygu torri deddfau lleol mewn modd cymharol fychan e.e. perchennog tŷ yn plannu coed tu mewn i'r llain tir sy'n cael ei warchod i roi mynediad. Wrth benderfynu ar y dulliau gweithredu gorfodaeth priodol, rhoddir ystyriaeth i'r holl amgylchiadau perthnasol, yn cynnwys:

**(1) Effaith neu'r effaith botensial ar yr amgylchedd a risg llifogydd**

**Risg llifogydd**

Ble gwnaed pethau sydd, oherwydd eu natur, wedi rhoi ardaloedd trefol mewn perygl gan lifogydd, yna yr ymateb arferol yw erlyn yr achos (ble mae hynny ar gael). Ble mae'r amgylchiadau yn ymwneud â thir mwy gwledig ei natur, yna efallai ystyrir dulliau llai difrifol o weithredu gorfodaeth.

**Y Cynllun Dosbarthu Digwyddiadau Cyffredin (CDDC)**

Ble mae tor-rheol yn codi o ddigwyddiad sy'n dod o dan CDDC, dylid cyfeirio at gategori'r effaith. Os mai Categori 1 yw'r effaith neu'r effaith botensial, yna bydd erlyniad yn dilyn fel rheol. Os mai Categori 2 yw'r effaith, y drefn arferol yw erlyniad neu rybudd ffurfiol, gyda'r penderfyniad am y dewis yn dibynnu ar y ffactorau gorfodaeth eraill. Os mai Categori 3 yw'r digwyddiad, yna fel rheol bydd rhybudd yn ddigonol oni bai fod amgylchiadau eraill yn gofyn am weithredu'n fwy llaw drwm e.e. wedi troseddu droeon.

Dylid ystyried tor-rheolau nad ydynt yn dod o dan CDDC ond sy'n effeithio ar yr amgylchedd, neu gyda'r potensial i wneud hynny, yn yr un modd.

**(2) Natur y drosedd**

Efallai fod y drosedd mor ddifrifol o ran ei natur neu ei heffaith ar allu'r Asiantaeth i

reoleiddio’n effeithiol i olygu mai erlyniad yw’r ffordd arferol o ddelio â’r mater e.e. ymgymryd â gwaith heb ganiatâd sy’n arwain at roi pobl neu eiddo mewn perygl rhag llifogydd.

**(3) Bwriad**

Bydd troseddau a gyflawnir yn fwriadol, yn ddiofal neu er mwyn elw yn cael eu herlyn fel arfer e.e. ymgymryd â gwaith heb ganiatâd sy’n cynyddu’r risg o lifogydd ar ôl cael rhybudd/trafodaethau blaenorol gyda’r Asiantaeth am yr angen am ganiatâd ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd a’r tebygolrwydd o gael y caniatâd hwnnw. Efallai bydd yn briodol ystyried gweithredu gorfodaeth mewn modd llai difrifol os yw’r Asiantaeth yn fodlon nad oedd y drosedd yn fwriadol, neu wedi digwydd oherwydd camgymeriad gwirioneddol neu gamddealltwriaeth ac nad achoswyd unrhyw niwed i’r amgylchedd na risg llifogydd.

**(4) Hanes blaenorol**

Er bydd y camau a weithredir yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol, dylid ystyried math, difrifoldeb, nifer ac amlder achosion gweithredu gorfodaeth blaenorol.

Ble rhoddwyd rhybudd ffurfiol yn flaenorol, bydd troseddau dilynol, ar wahân i rai bychain, yn cael eu herlyn fel arfer.

**(5) Agwedd y troseddwr**

Fel rheol byddwn yn erlyn achos, ble mae’r dewis hwnnw ar gael, os yw’r troseddwr:

- wedi gwrthod derbyn dulliau gweithredu gorfodaeth eraill
- heb wneud unrhyw ymdrech i leihau neu gywiro effeithiau neu effeithiau potensial y drosedd
- wedi rhwystro archwiliadau
- wedi anwybyddu cyngor neu arweiniad ffurfiol yr Asiantaeth wrth gyflawni’r drosedd
- wedi gweithredu’n anonest drwy geisio gohirio neu lesteirio’r Asiantaeth wrth iddi weithredu gorfodaeth.

Wrth ystyried pa lefel o weithredu gorfodaeth sy’n briodol ar gyfer unrhyw ddigwyddiad penodol bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried: cydweithio gyda’r Asiantaeth; hysbysu’r digwyddiad yn brydlon; gweithredu’n brydlon ac yn effeithiol i leihau’r effeithiau a chynorthwyo gydag unrhyw ymchwiliadau.

**(6) Effaith rybuddiol**

Dylid rhoi ystyriaeth i'r effaith y bydd gweithredu gorfodaeth yn ei gael ar y troseddwr ac eraill o ran cyflawni troseddau yn y dyfodol. Efallai fod amgylchiadau ble mae gweithredu gorfodaeth yn briodol, er nad yw'r gwaith yn ymddangos yn bwysig, oherwydd:

- sensitifrwydd y lleoliad e.e. oherwydd risg llifogydd neu niwed i'r amgylchedd; a/neu
- byddai diffyg gweithredu'n briodol ar ran yr Asiantaeth yn creu cynsail annerbyniol a thrwy hynny'n annog eraill i gyflawni gweithgareddau o'r fath.

**(7) Amgylchiadau Personol y Troseddwr**

Efallai bydd camau gweithredol llai difrifol yn briodol os oes amgylchiadau personol eithriadol e.e. troseddwyr yn dioddef o salwch difrifol.

**(8) Troseddau rhagweladwy**

Cymerir i ystyriaeth pa mor rhagweladwy oedd y drosedd a'i heffaith ar bobl, eiddo neu'r amgylchedd.

4.2 Bydd y ffactorau cymwys a'r sylw a wneir o bob un yn dibynnu ar amgylchiadau arbennig pob achos.

## 5. GWEITHREDU GORFODAETH - BLE NA BU TROSEDD

5.1 Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r pwerau gorfodaeth sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau penodol nad ydynt yn cyfrif fel troseddau . Dyma ganllawiau ar gyfer defnydd y pwerau hynny.

**Codi/newid adeiladwaith mewn, dros neu o dan Brif Afon heb ganiatâd, a.y.y.b. (A109 DAD).**

5.2 Ble cafodd adeiladwaith ei godi/newid heb ganiatâd yr Asiantaeth, yna dylid hawlio (yn ysgrifenedig) bod y sawl sy'n gyfrifol un ai'n:

(1) Cael gwared o'r gwaith ac adfer y cwrs dŵr i'w gyflwr blaenorol o fewn amser penodedig

(2) Ymgymryd â gwaith adfer priodol gyda chaniatâd yr Asiantaeth o fewn amser penodedig

5.3 Ble mae'r gwaith yn achosi risg difrifol o lifogydd yna dylid hawlio gwaith adfer ar unwaith. Os methir â chyflawni hynny bydd y gwaith yn cael ei wneud gan yr Asiantaeth a'r costau yn

cael eu hawlio.

5.4 Os yw'r sawl sy'n gyfrifol yn methu cael gwared o'r gwaith ac adfer y cwrs dŵr neu'n methu â gwneud y gwaith adfer o fewn yr amserlen briodol, yna bydd yr Asiantaeth yn cael gwared o'r gwaith ac yn hawlio ad-daliad o'r costau o wneud hynny.

5.5 Ble mae'r gwaith yn troseddu yn erbyn yr is-ddeddfau dylid dilyn y canllawiau ym mharagraff 6.

5.6 Ni roddir caniatâd am waith ar ôl iddo gael ei wneud.

**Codi/Newid argae melin, cored a.y.y.b. …. neu gylfat mewn Cwrs Dŵr Cyffredin heb ganiatâd (Adran 23 DDT)**

5.7 Ble cafodd adeiladwaith ei godi/newid heb ganiatâd yr Asiantaeth, yna dylid hawlio (yn ysgrifenedig) bod y sawl sy'n gyfrifol un ai yn:

(1) Ymgymryd â gwaith adfer priodol gyda chaniatâd yr Asiantaeth o fewn amser penodedig

(2) Cael gwared o'r gwaith ac adfer y cwrs dŵr i'w gyflwr blaenorol o fewn amser penodedig

5.8 Os na wneir y gwaith gofynnol o fewn yr amser a ganiatawyd yna dylid rhoi rhybudd o dan Adran 24 Deddf Draenio Tir yn mynnu bod y niwsans yn cael ei ddiddymu.

5.9 Ble mae'r gwaith yn achosi risg llifogydd difrifol yna dylid rhoi rhybudd Adran 24 ar unwaith.

5.10 Ble mae'r gwaith yn dderbyniol, o ran yr amgylchedd ac ar gyfer dibenion amddiffyn rhag llifogydd, dylid hysbysu'r sawl sy'n gyfrifol am y gofynion ynglŷn â chaniatâd, ond ni ddylid rhoi caniatâd am y gwaith sydd wedi cael ei wneud eisoes.

5.11 Mae methu â chyd-fynd â Rhybudd Adran 24 yn drosedd a dylid dilyn y canllawiau ym mharagraff 6 wrth benderfynu ar yr ymateb priodol i'r drosedd. Yn ogystal, gall yr Asiantaeth wneud y gwaith adfer angenrheidiol a hawlio ad-daliad o'r costau o wneud hynny.

**Rhwymedigaeth i atgyweirio cyrsiau dŵr Prif Afonydd, pontydd, a.y.y.b. (Adran 21 DDT ac Adran 107(2) DAD)**

5.12 Os oes rhwymedigaeth gyfreithiol yn bodoli (fel y disgrifir yn Adran 107(2)), yna dylid gofyn, yn ysgrifenedig, i'r sawl sy'n gyfrifol wneud y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol o fewn cyfnod penodol. Os na wneir hynny o fewn y cyfnod penodedig dylid rhoi rhybudd

statudol.

5.13 Nid yw methu â chydymffurfio â’r rhybudd yn drosedd ond y mae’n rhoi’r hawl i’r awdurdod wneud y gwaith a hawlio ad-daliad o’r costau o wneud hynny. Dylid defnyddio’r pŵer hwn pan fydd diffyg cynnal a chadw yn creu risg llifogydd difrifol.

**Symud rhwystrau i lif y dŵr mewn Prif Afon neu Gwrs Dŵr Cyffredin (Adran 25 DDT) ac Adran 107(3) DAD)**

5.14 Ble mae rhwystr i’r llif dŵr mewn cwrs dŵr Prif Afon (a Chwrs Dŵr Cyffredin os yw’r awdurdodaeth yn cyd-fynd â pharagraff 3 uchod) yna dylid gofyn, yn ysgrifenedig, iddo gael ei symud o fewn amser penodedig. Os na chyflawnir y cais hwn yna dylid rhoi rhybudd statudol.

5.15 Mae unrhyw fethiant i gyd-fynd â’r Rhybudd yn drosedd a dylid dilyn y canllawiau ym mharagraff 6. Yn ogystal, gall yr Asiantaeth wneud y gwaith adfer angenrheidiol a hawlio ad-daliad o’r costau o wneud hynny. Dylid defnyddio’r pŵer hwn os oes risg llifogydd difrifol.

**Is-ddeddfau**

5.16 Mae’r Is-ddeddfau yn cynnwys gwahanol ddarpariaethau ar gyfer rhoi rhybudd sy’n hawlio cyflawni gwaith neu weithredu. Yn y sefyllfaoedd hyn, y dull arferol yw hawlio, yn ysgrifenedig, bod gwaith neu weithred yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod penodedig. Byddai unrhyw fethiant i gydymffurfio â hyn yn arwain wedyn at roi rhybudd ffurfiol yn unol â’r is-ddeddf berthnasol.

5.17 Mae methu cyd-fynd â rhybudd is-deddf yn drosedd a dylid penderfynu ar y camau priodol drwy gyfeirio at y canllawiau ym mharagraff 6. Hefyd, mae gan yr Asiantaeth yr hawl i ymgymryd â’r gwaith/weithred a hawlio ad-daliad o’r costau o wneud hynny. Dylid defnyddio’r pŵer hwn os yw’r tor-rheol yn un difrifol e.e. risg llifogydd difrifol, rhwystro mynediad i’r Asiantaeth, ac ar ôl rhoi rhybudd o’r bwriad i ddefnyddio’r pŵer.

## 6. GWEITHREDU GORFODAETH - TROSEDDAU

6.1 Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o’r prif droseddau yn ymwneud ag Amddiffyn rhag Llifogydd ac yn rhoi canllawiau am y dewisiadau mwyaf priodol o ran gweithredu gorfodaeth ar ôl ystyried natur ac effaith y drosedd. Dylid darllen y Tabl ochr yn ochr â’r ffactorau gorfodaeth uchod er mwyn helpu i benderfynu ar y camau gweithredu. Er bod rhaid i’r Asiantaeth gael penderfynu pa gamau i’w cymryd ym mhob achos, bydd bob amser yn ystyried y canllawiau yn Nhabl 2.

6.2 Rhoddir canllawiau manwl pellach mewn perthynas â phob math o drosedd isod.

**Methu â chydymffurfio â Rhybuddion (Adran 24 a 25 DDT ac Adran 107(3) DAD ac Is-ddeddfau)**

6.3 Y cam arferol fydd erlyn yr achos oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn rhwystro cydymffurfiad.

**Gweithgareddau a waharddwyd/gweithgareddau heb ganiatâd (Is-ddeddfau)**

6.4 Os oes gan y gweithgaredd effaith neu effaith botensial Categori 1, yna bydd achos yn cael ei erlyn fel rheol. Ble byddai erlyniad yn aneffeithiol i sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith, neu'n debygol o fod felly, yna dylid ystyried gwneud y gwaith/gweithgaredd angenrheidiol a hawlio ad-daliad o'r costau o wneud hynny.

6.5 Bydd gweithgareddau gydag effaith neu effaith botensial Categori 2, yn cael eu herlyn fel rheol neu'n derbyn rhybudd ffurfiol. Bydd y dewis yn dibynnu ar ffactorau eraill megis parodrwydd y troseddwr i gydweithio, ai damwain oedd y weithred neu beidio, neu ddim hanes o droseddu yn y gorffennol.

6.6 Ble mae gweithgareddau heb effaith o gwbl neu gydag effaith Categori 3, un ai'n wirioneddol neu'n botensial, yna bydd rhoi rhybudd yn briodol oni bai fod amgylchiadau eraill yn gwneud camau eraill yn fwy addas, e.e. y troseddwr yn gwrthod cydweithio.

6.7 Ble rhoddwyd rhybudd neu rybudd ffurfiol yn flaenorol yna bydd trosedd sy'n dilyn yn cael ei herlyn.

6.8 Ble mae'r gwaith yn dderbyniol, o ran yr amgylchedd ac ar gyfer dibenion amddiffyn rhag llifogydd, dylid rhoi gwybod i'r sawl sy'n gyfrifol am y gofynion am gael caniatâd ond ni ddylid rhoi caniatâd am waith sydd wedi cael ei wneud yn barod.

**Rhwystro /Personoli staff yr Asiantaeth/gwneud datganiad ffug**

6.9 Mae'r rhain yn droseddau difrifol a fydd yn cael eu herlyn fel rheol.

6.10 Fodd bynnag, ar gyfer achos o rwystr bychan iawn , neu un sy'n codi o gamddealltwriaeth, yna os yw'r troseddwr yn cydweithio'n llawn ar ôl cael cyngor, ac ni chyflawnwyd trosedd arall, yna dylid rhoi rhybudd llafar.

**Ymyrryd â chyfarpar yr Asiantaeth (Adran 176 DAD)**

6.11 Bydd y camau dewisol yn dibynnu ar natur ac effaith neu effaith botensial yr ymyrraeth. Os yw'r gweithrediadau'n achosi risg llifogydd difrifol neu'n creu perygl i bobl yna bydd achos erlyn yn cael ei gyflwyno fel rheol.

# AMDDIFFYN RHAG LLIFOGYDD - PWERAU GORFODAETH LLE NA BU TROSEDD

**ALLWEDD:**

**DAD - Deddf Adnoddau Dŵr 1991**
**DDT - Deddf Draenio Tir 1991**

| | GWEITHGAREDD: | CYFEIRNOD STATUDOL | PWER |
|---|---|---|---|
| 1 | Codi unrhyw strwythur yn, dros neu o dan gwrs dŵr heb ganiatâd neu heb fod yn unol â chynlluniau ac adrannau a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth.<br>(Prif Afon) | A109(1) DAD | Gwaith heb ei gyflawni ac adfer costau.<br>*(Nid yw peidio â chydymffurfio yn drosedd ac nid oes unrhyw ddarparieth o rybudd ffurfiol)* |
| 2 | Newid neu drwsio unrhyw strwythur yn, dros neu o dan gwrs dŵr sy'n debyg o effeithio ar lif dŵr neu atal gwaith draenio heb ganiatâd.<br>(Prif Afon) | A109(2) DAD | Gwaith heb ei gyflawni ac adfer costau.<br>*(Nid yw peidio â chydymffurfio yn drosedd ac nid oes unrhyw ddarparieth o rybudd ffurfiol)* |
| 3 | Codi neu newid unrhyw strwythur y bwriadwyd iddo gynnwys neu wyro dyfroedd llifogydd unrhyw brif afon heb ganiatâd neu heb fod yn unol â chynlluniau ac adrannau a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth.<br>(Prif Afon) | A109(3) DAD | Gwaith heb ei gyflawni ac adfer costau.<br>*(Nid yw peidio â chydymffurfio yn drosedd ac nid oes unrhyw ddarparieth o rybudd ffurfiol)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Codi neu newid argae melin, argae neu rwystr tebyg arall i lif heb ganiatâd. (Cwrs Dŵr Arferol) | A23(1)(1) LDA | Rhybudd A24. *(Mae methu â chydymffurfio yn drosedd a gall gwaith heb ei gyflawni gael ei wneud gan yr Asiantaeth gan hawlio'r costau yn ôl.)* |

| | GWEITHGAREDD: | CYFEIRNOD STATUDOL | PWER |
|---|---|---|---|
| 5 | Codi neu newid unrhyw gylfat a fyddai'n debygol o effeithiol ar lif heb ganiatâd.<br>(Cwrs Dŵr Arferol) | A23(1)(b) LDA | Rhybudd A24.<br>*(Mae methu â chydymffurfio yn drosedd a gall gwaith heb ei gyflawni gael ei wneud gan yr Asiantaeth gan hawlio'r costau yn ôl.)* |
| 6 | Gorfodi rhwymedigaeth i drwsio cyrsiau dŵr, pontydd, ac ati<br>(Prif Afon) | A21 LDA<br>A107(2) DAD | Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i rwymedigaethau gael eu cyflawni. *(Nid yw methu â chydymffurfio yn drosedd ond gall gwaith heb ei gyflawni gael ei wneud gan yr Asiantaeth gan hawlio'r costau yn ôl.)* |
| 7 | Cyflwr y cwrs dŵr yn atal llif priodol y dŵr.<br>Cwrs dŵr arferol a Phrif afon) | A25 LDA<br>A107(3) DAD | Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i symud y rhwystr.<br>*(Mae methu â chydymffurfio yn drosedd a gall gwaith heb ei gyflawni gael ei wneud gan yr Asiantaeth gan hawlio'r costau yn ôl.)* |
| 8 | Darpariaethau Amrywiol Rybuddion<br>(Prif Afon) | Is-ddeddfau | Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu neu wneud gwaith adfer.<br>*(Mae methu â chydymffurfio yn drosedd a gall gwaith heb ei gyflawni gael ei wneud gan yr Asiantaeth gan hawlio'r costau yn ôl.)* |

**TABL 2**

# CRYNODEB O DROSEDDAU AMDDIFFYN RHAG LLIFOGYDD

**Allwedd:**

**DAD - Deddf Adnoddau Dŵr 1991**
**DDT - Deddf Draenio Tir 1991**

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Methu â chydymffurfio â rhybudd dileu a roddwyd o dan A24 DDT mewn perthynas â chodi neu newid heb ganiatâd argae melin, argae neu gylfat (Cwrs Dŵr Arferol) | A24 DDT | Cyflawni gwaith ac adfer costau | Erlyniad |
| 2 | Methu â chydymffurfio â rhybudd a roddwyd o dan A25 DDT neu A107 DAD yn ei gwneud yn ofynnol i symud rhwystr i lif. (Cwrs dŵr arferol a Phrif afon) | A25 DDT<br><br>A107(3) DAD | Cyflawni gwaith ac adfer costau<br><br>Gwaharddeb | Erlyniad |
| 3 | Cyflawni gweithgaredd a waharddwyd (Prif Afon) | Is-ddeddfau | Cyflawni gwaith ac adfer costau<br><br>Gwaharddeb | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 4 | Gweithgaredd heb ganiatâd (Prif Afon) | Is-ddeddfau | Cyflawni gwaith ac adfer costau<br><br>Gwaharddeb | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 5 | Rhwystro/ Personoli swyddogion yr Asiantaeth | A173, A174 Para 7, Atodlen 20 DAD | -- | Erlyniad |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | DEWISIADAU YMATEB GWARCHODOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Ymyrryd ag offer yr Asiantaeth | A176 DAD | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd |
| 7 | Datganiadau ffug/camarweiniol | A206(1) a (2) DAD | | Erlyniad |
| 8 | Aflonyddu, codi ofn a braw | A4 ac A5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 | | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol |

# ADRAN 6

# MORDWYO

## 1. PWRPAS GORFODAETH

1.1 Pwrpas gorfodaeth o ran y swyddogaeth mordwyo yw gwarchod, diogelu neu wella'r dyfr-ffyrdd a'u defnydd gan y gymuned a sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith y mae'r Asiantaeth yn ei gweithredu.

1.2 Nod yr Asiantaeth wrth weithredu deddfwriaeth mordwyo yw hybu defnydd cyfrifol a diogel o'n dyfrffyrdd tra'n gwarchod hawliau statudol, cynnal neu wella incwm a hybu mwy o fusnes.

## 2. PWERAU GORFODAETH

2.1 Mae'r pwerau gorfodaeth sydd ar gael yn cynnwys:

- Rhybuddion sy'n gofyn am waith neu weithred
- Rhybuddion yn gwahardd gwaith neu weithred
- Erlyn troseddau

2.2 Mae rhoi rhybudd ffurfiol neu rybudd yn ddulliau eraill o weithredu yn lle erlyn.

2.3 Rhoddir esiamplau o bwerau gorfodaeth mordwyo a'r darpariaethau statudol perthnasol yn Nhabl 1 a 2. Fodd bynnag, oherwydd ystod eang deddfau mordwyo lleol, dylid cyfeirio hefyd at "Adolygiad a Chrynodeb Asiantaeth yr Amgylchedd o Ddeddfwriaeth Mordwyo", Mehefin 1996.

## 3. FFACTORAU YN YMWNEUD Â GORFODAETH

3.1 Wrth benderfynu ar y camau gweithredu gorfodaeth mwyaf priodol dylid ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol, yn cynnwys:

**(1) Effaith neu effaith botensial ar yr amgylchedd; y ddyfr-ffordd; ei defnydd a/neu'r defnyddwyr**

Ble mae tor-rheol yn codi o ddigwyddiad sy'n dod o dan CICS, dylid cyfeirio at gategori'r effaith. Os mai Categori 1 yw'r effaith neu'r effaith potensial, yna bydd erlyniad yn dilyn fel rheol. Os mai Categori 2 yw'r effaith, y drefn arferol yw erlyniad neu rybudd ffurfiol, oni bai fod meini prawf eraill yn awgrymu bod rhybudd yn ddigonol. Os mai Categori 3 yw'r digwyddiad, yna fel rheol bydd rhybudd yn ddigonol oni bai fod amgylchiadau eraill yn gofyn am weithredu'n fwy llaw drwm e.e. wedi troseddu droeon. Dylid ystyried troseddau nad ydynt yn dod o dan CICS ond sy'n effeithio ar yr amgylchedd, neu gyda'r potensial i wneud hynny, yn yr un

modd.

**(2) Natur y drosedd**

Efallai fod y drosedd mor ddifrifol o ran ei natur neu ei heffaith ar allu'r Asiantaeth i reoleiddio'n effeithiol i olygu mai erlyniad yw'r ffordd arferol o ddelio â'r mater e.e. osgoi trwydded gofrestru neu ymosod ar/rhwystro Arolygwyr Mordwyo.

**(3) Bwriad**

Bydd troseddau a gyflawnir yn fwriadol, yn ddiofal neu er mwyn elw yn cael eu herlyn fel arfer. Efallai bydd yn briodol ystyried gweithredu gorfodaeth mewn modd llai difrifol os yw'r Asiantaeth yn fodlon nad oedd y drosedd yn fwriadol, neu wedi digwydd oherwydd camgymeriad neu gamddealltwriaeth gwirioneddol ac nad achoswyd unrhyw niwed i'r amgylchedd nac i fordwyaeth.

**(4) Hanes blaenorol**

Er bydd y camau a weithredir yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol, dylid ystyried math, difrifoldeb, nifer ac amlder achosion gweithredu gorfodaeth blaenorol.

Ble rhoddwyd rhybudd ffurfiol yn flaenorol, bydd troseddau dilynol, ar wahân i rai bychain, yn cael eu herlyn fel arfer.

**(5) Agwedd y troseddwr**

Fel rheol byddwn yn erlyn achos, ble mae'r dewis hwnnw ar gael, os yw'r troseddwr:

- wedi gwrthod derbyn dulliau gweithredu gorfodaeth eraill
- heb wneud unrhyw ymdrech i leihau neu gywiro effeithiau neu effeithiau potensial y drosedd
- wedi rhwystro archwiliadau
- wedi anwybyddu cyngor neu arweiniad ffurfiol yr Asiantaeth wrth gyflawni'r drosedd
- wedi gweithredu'n anonest drwy geisio gohirio neu lesteirio'r Asiantaeth wrth iddi weithredu gorfodaeth

wedi gweithredu'n anonest drwy geisio gohirio neu lesteirio'r Asiantaeth wrth iddi weithredu gorfodaeth

**(6) Effaith rybuddiol**

Byddwn yn erlyn achosion os yw hynny'n debygol o fod yn angenrheidiol ac yn

effeithiol i atal troseddwyr rhag ail-droseddu. Byddwn hefyd yn erlyn achos fel rheol os byddai hynny'n cael effaith rybuddiol ar eraill rhag cyflawni troseddau sydd, ar eu pennau eu hunain, yn cael effaith fychan ar yr amgylchedd ond sydd, gyda'i gilydd, dros amser neu mewn lleoliad arbennig, yn cael effaith mwy difrifol ar yr amgylchedd neu'r cyfleusterau lleol e.e. teithio'n rhy gyflym ar rannau penodol o'r afon.

**(7) Amgylchiadau personol y troseddwr**

Efallai y bydd camau gweithredu llai difrifol yn briodol os yw'r troseddwr yn berson anabl, yn blentyn neu'n bensiynwr neu ble mae amgylchiadau eithriadol e.e. troseddwyr yn dioddef o salwch difrifol.

**(8) Troseddau rhagweladwy**

Cymerir i ystyriaeth pa mor rhagweladwy oedd y drosedd a'i heffaith ar bobl, eiddo neu'r amgylchedd.

**(9) Effaith ar incwm**

Ble mae trosedd yn effeithio ar incwm bydd achos erlyn yn dilyn fel rheol e.e. peidio â thalu ffioedd cofrestru/trwyddedau.

3.2 Bydd y ffactorau cymwys ym mhob achos a'r sylw a roddir iddynt yn dibynnu ar amgylchiadau arbennig pob achos.

## 4. GWEITHREDU GORFODAETH - BLE NA BU TROSEDD

4.1 Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r pwerau gorfodaeth sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau penodol. Dyma ganllawiau ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn.

4.2 Ble mae unrhyw rwystr neu long yn achosi risg ddifrifol i fordwyaeth, dylai'r hawl i'w symud gael ei weithredu ar unwaith a dylid hawlio ad-daliad o'r costau gan berchennog y llong neu'r sawl a achosodd y rhwystr (ble mae hynny'n berthnasol).

4.3 Ble mae unrhyw rwystr neu long yn atal mordwyo yna dylid gofyn, yn ysgrifenedig, i'r perchennog ei symud o fewn amser penodol. Os nad yw'n cydymffurfio yna dylai'r Asiantaeth wneud y gwaith a hawlio'r costau gan berchennog y llong/y sawl a achosodd y rhwystr.

4.4 Ble cyflawnwyd gwaith heb ganiatâd yr Asiantaeth, yna dylai'r sawl sy'n gyfrifol orfod gwneud cais ysgrifenedig am ganiatâd mewn achosion ble byddai gwaith o'r fath yn debygol o gael ei gymeradwyo, neu gael gwared o'r gwaith o fewn amser penodedig. Os methir â chael gwared â neu drwyddedu'r gwaith yna bydd yr Asiantaeth yn symud y gwaith.

4.5 Ble rhoddir rhybudd, a all arwain at drosedd os na chydymffurfir ag ef, yna dylid dilyn y canllawiau ym mharagraff 5.

## 5. GWEITHREDU GORFODAETH - TROSEDDAU

### Troseddau

5.1 Mae troseddau mordwyaeth yn disgyn i bum categori. Dyma grynodeb ohonynt:

| | Categori | Rheswm am y ddeddfwriaeth/gorfodaeth |
|---|---|---|
| (1) | Cofrestru llong/trwyddedu | Casglu incwm a gwybodaeth am long/ perchennog |
| (2) | Diogelwch | Rheolau mordwyaeth/ ymddygiad/defnydd/ safonau |
| (3) | Effaith amgylcheddol | Cyflymdra/adlif/llygredd/niwed arall |
| (4) | Tor - rybudd | Methiant i ymgymryd â gwaith adfer |
| (5) | Arall | Rhwystro hawliau/ ymddygiad cyffredinol |

Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o'r brif droseddau mordwyo a'r camau gorfodaeth priodol ar gyfer pob un, o ystyried natur ac effaith y drosedd. Dylid darllen y tabl ochr yn ochr â'r ffactorau gorfodaeth uchod er mwyn helpu i benderfynu ar y camau gweithredu. Er bod rhaid i'r Asiantaeth gael penderfynu pa gamau i'w cymryd ym mhob achos, bydd bob amser yn ystyried y canllawiau yn Nhabl 2.

### Cofrestru a Thrwyddedu Llongau

5.2 Bydd y drosedd o fethu â chofrestru llong yn arwain at achos erlyn fel rheol.

5.3 Fodd bynnag, caniateir cyfnod o 14 diwrnod (wedi'i gadarnhau yn ysgrifenedig) i gofrestru'r llong, gyda'r bwriad o gasglu refeniw a/neu sicrhau cydymffurfiad. Ar ôl yr amser hwnnw bydd achos erlyn yn dilyn fel rheol a gofynnir am iawndal am ddefnyddio llong sydd heb ei thrwyddedu neu heb ei chofrestru.

5.4 Ystyrir rhoi rhybudd ffurfiol neu anfon llythyr o rybudd os oes amgylchiadau lliniarol eithriadol sy'n gwneud erlyniad yn amhriodol.

**Diogelwch**

5.5 Bydd y camau gweithredu gorfodaeth priodol am droseddau sy'n effeithio ar ddiogelwch y ddyfrfffordd a/neu'r defnyddwyr, e.e. methu â mordwyo gyda'r gofal a'r sylw dyladwy, yn dibynnu ar y ffactorau gorfodaeth uchod. Fodd bynnag, os yw'n drosedd ddifrifol, ystyrir achos erlyn yn hytrach na rhybudd ffurfiol neu lythyr rhybudd. Ble mae bywyd yn cael ei beryglu yna erlyniad yw'r cam gweithredu arferol.

5.6 Mewn achosion enbyd efallai bydd angen gweithredu ar unwaith i wella sefyllfa sy'n amlwg yn beryglus o ran y ddyfr-ffordd a/neu ei defnyddwyr. Mewn achosion o'r fath efallai bydd rhaid rhoi rhybudd yn hawlio gwaith adfer ar yr un pryd ag yr ystyrir achos erlyn.

5.7 Ar gyfer troseddau nad ydynt mor ddifrifol ond sydd gyda'r potensial i effeithio ar ddiogelwch, e.e. cael gwared o rwystrau sy'n effeithio ar fordwyaeth, yna rhybudd ffurfiol fydd y cam gweithredu mwyaf priodol oni bai fod yr amgylchiadau yn gofyn am weithredu mwy cadarn e.e. y troseddwr yn gwrthod cydweithio, hanes o droseddu blaenorol.

5.8 Gall troseddau llai arwain at rybudd ffurfiol neu lythyr o rybudd, gyda'r dewis yn dibynnu ar ffactorau perthnasol eraill e.e. trosedd anfwriadol, perchennog yn fodlon cydweithio. Os bydd troseddau yn cael eu hail adrodd yna'r canlyniad fydd gweithredu'n gynyddol llym hyd at erlyn achos.

**Effaith ar yr Amgylchedd**

5.9 Bydd pa mor ddifrifol yw effaith unrhyw drosedd yn penderfynu p'run ai erlyniad, rhybudd ffurfiol neu rybudd yw'r cam gweithredu priodol e.e. dylai gyrru'n rhy gyflym ar y ddyfr-ffordd a hynny'n achosi adlif difrifol sy'n effeithio glannau'r afon arwain at erlyniad fel rheol.

5.10 Dylai troseddau mewn perthynas ag achosi llygredd i fordwyaeth gael eu trin yn yr un modd â throseddau safonau dŵr eraill a dylent gael eu hasesu yn ôl difrifoldeb yr effaith drwy ddefnyddio'r drefn gategoreiddio i gategori 1, 2, neu 3 yn y CICS ar gyfer digwyddiadau llygru dŵr.

5.11 Bydd y camau gweithredu a gymerir mewn perthynas â throseddau eraill sy'n cael effaith ar yr amgylchedd e.e. taflu balast o longau i'r afon, yn dibynnu ar y ffactorau gorfodaeth uchod.

**Tor-rybudd**

5.12 Ble rhoddwyd rhybudd er mwyn gwella problem diogelwch neu amgylcheddol enbyd ar ddyfr-ffordd a ble torrwyd y rhybudd hwnnw yna byddwn yn erlyn achos fel rheol.

**Eraill**

5.13 Mae troseddau sy'n cynnwys anwybyddu safonau mordwyaeth yn barhaus yn arwain at erlyn achos fel rheol e.e. gyrru'n rhy gyflym ar y ddyfr-ffordd a chreu gormod o adlif. Gellir ystyried rhoi rhybudd ffurfiol neu rybudd am ddigwyddiadau sy'n amharu ar y safonau i raddau llai.

**Rhwystro/Personoli staff yr Asiantaeth/gwneud datganiad ffug**

5.14 Mae'r rhain yn droseddau difrifol a fydd yn cael eu herlyn fel rheol.

5.15 Fodd bynnag, ar gyfer achos o rwystr bychan iawn , neu un sy'n codi o gamddealltwriaeth, yna os yw'r troseddwr yn cydweithio'n llawn ar ôl cael cyngor, ac ni chyflawnwyd trosedd arall, yna dylid rhoi rhybudd llafar.

## 6. AMRYWIO, DIWYGIO, ADOLYGU A DIDDYMU TRWYDDED/COFRESTRIAD

6.1 Gall deddfau mordwyo lleol ganiatáu i'r awdurdod mordwyo lleol roi/amrywio/newid/adolygu neu ddiddymu tystysgrif cofrestru neu drwydded a'r amodau a fydd yn gymwys o dro i dro.

6.2 Dylai darpariaethau o'r fath gael eu defnyddio fel rheol dim ond i gael gwared o berygl neu risg neu ei ddirymu, neu i leddfu difrod enbyd i'r amgylchedd neu risg niwed.

**TABL 1**

# MORDWYO: CRYNODEB O BWERAU GORFODAETH LLE NA BU TROSEDD

**Allwedd:**

| | |
|---|---|
| DCHDP | Deddf Harbwrs, Dociau a Phiyri 1847 |
| DLl | Deddf Llywio 1987 |
| DADA | Deddf Awdurdod Dŵr Anglian 1977 |
| DGT | Deddf Gwarchod Tafwys 1932 |
| DGT50 | Deddf Gwarchod Tafwys 1950 |
| DMMU | Deddf Mordwyo Medway Uchaf 1911 |

| | GWEITHGAREDD: | CYFEIRNOD STATUDOL | PWER |
|---|---|---|---|
| 1 | Pŵer Harbwrfeistr i symud llongddrylliadau neu rwystrau eraill i harbwr, doc neu biyr a symud unrhyw goed arnofiol sy'n rhwystr i'r mordwyo | A56 DCHDP | Gwaith i symud rhwystrau a chael y costau yn ôl gan y perchennog. |
| 2 | Pŵer Harbwrfeistr i beri i long sydd wedi ei hesgeuluso neu sydd mewn cyflwr gwael gael ei symud o'r harbwr | A57 DCHDP | Gwaith i symud rhwystrau a chael y costau yn ôl gan y perchennog. |
| 3 | Pŵer Harbwrfeistr i ryddhau/ torri cwch yn rhydd | A58 DCHDP | Gwaith i ryddhau cwch o'i angor. Dim costau i'w cael yn ôl |
| 4 | Pŵer i gael gwared ar longddrylliadau | A17 Gorchymyn Diwygio Harbwr Rye 1976 | Rhybudd i'r perchennog o fwriad i symud llong ac eithrio mewn argyfwng. |
| 5 | Awdurdodi pobl i weithredu fel peilotiaid. | A3 DLl | Atal neu ddiddymu'r awdurdodiad a roddwyd i'r peilot |
| 6 | Pŵer i godi a symud unrhyw gychod sydd wedi suddo, yn sownd neu wedi eu gadael ar ddyfr-ffyrdd adloniadol | A21 DADA | Gwaith i godi a symud cwch. Tri mis o rybudd i'w roi i'r perchnogion cyn y gwaith. |
| 7 | Pŵer i symud rhai cadwyni mwrio | A54 DGT | Gwaith i symud cadwyni ond darpariaeth ar gyfer iawndal |

| | GWEITHGAREDD: | CYFEIRNOD STATUDOL | PWER |
|---|---|---|---|
| 8 | Pŵer i symud gwaith heb ei drwyddedu | A67 DGT | Rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i symud gwaith heb ei drwyddedu. Gwaith heb ei gyflawni 7 niwrnod ar ôl derbyn rhybudd |
| 9 | Pŵer Harbwrfeistr i symud cychod | A85 DGT | Gwaith i'w symud |
| 10 | Pŵer Harbwrfeistr i lacio rhaff neu gadwyn sy'n cadw'r cwch wedi ei angori | A86 DGT | Gwaith i lacio |
| 11 | Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i oleuadau a ddefnyddir ar neu ger afon Tafwys islaw Teddington Lock, y tybir fydd yn ymyrryd â mordwyo, gael eu symud | A89 DGT | Gwaith i'w symud |
| 12 | Pŵer i symud unrhyw beth sy'n achosi rhwystr yn afon Tafwys | A 104 DGT | Gwaith i symud rhwystrau a chael y costau yn ôl |
| 13 | Symud coeden, llwyn, neu unrhyw beth arall sy'n peri i fordwyo neu'r llwybr halio gael rhwystr arno | A 105 DGT | Cais am orchymyn Llys i symud rhwystrau a chael y costau yn ôl |
| 14 | Pŵer i roi rhybudd i berchennog/deiliad glanfa, piyr neu lan sydd angen ei thrwsio | A 106 DGT | Rhybudd i ddweud bod gwaith trwsio yn angenrheidiol. Gwaith heb ei gyflawni ac adfer costau. |
| 15 | Symud pentyrrau, cadwyni mwrio neu unrhyw beth arall sy'n beryglu neu yn ddiwerth | A 107 DGT | Gwaith i'w symud |
| 16 | Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i symud rhwystr o lwybr halio | A 108 DGT | Rhybudd yn gofyn am eu symud *(Methu â chydymffurfio â throsedd)* |
| 17 | Pŵer i roi rhybudd yn ei gwneud yn ofynnol i symud graean neu balast | A 122 DGT | Rhybudd yn gofyn am eu symud *(Methu â chydymffurfio â throsedd)* |
| 18 | Pŵer i roi rhybudd i ddirwyn llygredd i ben | A 124 DGT | Rhybudd i ddweud bod angen dirwyn arfer i ben *(Methu â chydymffurfio â throsedd)* |

| | **GWEITHGAREDD:** | **CYFEIRNOD STATUDOL** | **PWER** |
|---|---|---|---|
| 19 | P⌊er i godi, symud, ffrwydro neu ddinistrio unrhyw gychod sydd wedi suddo, yn sownd neu wedi eu gadael | A16 DGT50 | Gwaith i godi, symud ac ati gan roi rhybudd 24 awr i berchennog cwch a chael y costau yn ôl |
| 20 | P⌊er i symud burgunod o unrhyw lednant a'u garedu | A24 DGT50 | Gwaith i symud a gwaredu a chael y costau yn ôl gan berchennog yr anifail |
| 21 | P⌊er i symud rhwystrau | A71 DMMU | Gwaith i'w symud |
| 22 | P⌊er i symud cadwyni wedi torri neu gadwyni mwrio | A74 DMMU | Gwaith i'w symud |
| 23 | P⌊er i symud rhwystr o lwybr halio | A75 DMMU | Gwaith i'w symud |

# CRYNODEB O DROSEDDAU MORDWYO

**ALLWEDD:**

**DGT** Deddf Gwarchod Tafwys 1932
**DADD** Deddf Awdurdod Dŵr y De 1982
**DLl** Deddf Llywio 1987
**DAD** Deddf Adnoddau Dwr 1991

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD | CAMAU I'W HYSTYRIED |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Methu â chydymffurfio â'r llywio | A15 DLl | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 2 | Y peilot yn camymddwyn gan beryglu'r llong neu bobl ar ei bwrdd | A21 DLl | Erlyniad | |
| 3 | Methu â bod â thystysgrif cofrestru ar gyfer llong ar Fordwyfa Medway | A33 DADD | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 4 | Methu â bod â thystysgrif cofrestru wedi ei marcio ac yn weladwy | A36 DADD | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 5 | Methu â chydymffurfio â rhybudd yn gofyn am symud neu ddymchwel tŷ cwch | A37 DADD | Erlyniad | Symud neu ddileu'r tŷ cwch |
| 6 | Methiant meistr cwch i nodi enw a chyfeiriad | A45 DADD | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ | |
| 7 | Methiant i gario goleuadau ar gwch mawr | A 92 DGT | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD | CAMAU I'W HYSTYRIED |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Methiant y sawl sy'n gyfrifol am gwch pleser i roi enw a chyfeiriad pobl o dan ei reolaeth | A96 DGT | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ | |
| 9 | Methu â modwyo gyda gofal a sylw dyledus | A97 DGT | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 10 | Methu â symud rhwystr o lwybr halio ar ôl rhoi rhybudd | A 108 DGT | Erlyniad | Symud y rhwystr |
| 11 | Taflu balast, pridd, cerrig ac ati i'r afon | A 121 DGT | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 12 | Methu â symud balast ar ôl rhoi rhybudd | A 122 DGT | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ | Symud y balast |
| 13 | Arllwys carthffosiaeth i afon Tafwys neu ei llednentydd | A 123 DGT | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 14 | Methu â dirwyn y llygredd i ben ar ôl rhoi rhybudd | A 124 DGT | Erlyniad | |
| 15 | Taflu chwyn i afon Tafwys neu ei llednentydd | A 129 DGT | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 16 | Methiant meistr cwch i nodi enw a chyfeiriad | A 135 DGT | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ | |
| 17 | Methiant meistri cychod i roi gwybodaeth | A 135 DGT | Erlyniad | |

| | TROSEDD | CYFEIRNOD STATUDOL | YMATEB ARFEROL I'R DROSEDD . | CAMAU I'W HYSTYRIED |
|---|---|---|---|---|
| 18 | Methu ag arddangos enw cwch mawr yn amlwg | A13 Deddf Gwarchod Tafwys 1950 | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 19 | Defnyddio cwch mawr ar afon Tafwys heb dystysgrif i gwch mawr | A9 Deddf Gwarchod Tafwys 1966 | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | Cofrestru cwch mawr |
| 20 | Methu â chynhyrchu tystysgrif cwch nu dŷ cwch | A16 Deddf Gwarchod Tafwys 1966 | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 21 | Taflu balast o gychod i'r afon | A142 Deddf Mordwyo Medway Uchaf 1911 | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 22 | Amrywiol | Troseddau is-ddeddfau | Erlyniad/ Rhybudd Ffurfiol/ Rhybudd | |
| 23 | Rhwystro swyddog yr Asiantaeth rhag ymarfer pwerau mynediad | A173 DAD | Erlyniad | |
| 24 | Personoli swyddog yn ymarfer pwerau mynediad | A174 DAD | Erlyniad | |
| 25 | Gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol yn fwriadol | A206 (1) a (2) DAD | Erlyniad | |
| 26 | Aflonyddu, codi ofn a braw | A4 ac A5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 | Erlyniad/Rhybudd Ffurfiol | |